Cyd-Bwyllgor Corfforedig
Gogledd Cymru
North Wales
Corporate Joint Committee

# Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

## Adroddiad Ymgynghori

Gorffennaf 2025








# Adroddiad Ymgynghori

## Cynnwys


1. CYFLWYNIAD ....................................................................................................... 4

1.1 Trosolwg ....................................................................................................................4

1.2 Alinio â gweithdrefnau statudol ..............................................................................4

1.3 Strwythur ...................................................................................................................5

2. DULL O YMGYNGHORI CYHOEDDUS ........................................................................ 6

2.1 Trosolwg ....................................................................................................................6

2.2 Dull a arweinir yn ddigidol ac ystafell arddangos rithwir ar-lein...............................7

2.3 Lleoliadau cadw dogfennau .......................................................................................7

2.4 Digwyddiadau lleol .....................................................................................................7

2.5 Ffyrdd y gallai pobl ymateb.........................................................................................9

2.6 Cyhoeddusrwydd ........................................................................................................9

3. YMATEBION I'R YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS ..................................................... 11

3.1 Trosolwg ...................................................................................................................11

3.2 Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol ...........................................................................13

3.3 Cynllun Monitro a Gwerthuso...................................................................................17

3.4 Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol..............................................................19

3.5 Arfarniad Llesiant Integredig.....................................................................................22

3.6 Unrhyw sylwadau eraill.............................................................................................24

3.7 Ymateb i'r Ymgyrch ...................................................................................................26

3.8 Ymatebion sefydliadol ...............................................................................................28

4. SUT MAE ADBORTH WEDI'I YSTYRIED................................................................... 28

# Tablau

TABL 1: LLEOLIAD YMATEBWYR HOLIADUR (YMGYSYLLTIAD RHITHWIR WEDI'I GYNNWYS) YN SEILIEDIG AR Y COD POST A DDARPARWYD. 11

TABL 2: LLEOLIAD YMATEBWYR I'R YMGYRCH YN SEILIEDIG AR Y COD POST A DDARPARWYD. 12

# Ffigyrau

Ffigwr 1: Lleoliad ymatebwyr ystafell Ymgysylltiad Rhithwir (detholiad sy'n canolbwyntio ar ogledd Cymru). 12

Ffigwr 2: Lleoliad ymatebwyr i'r ymgyrch yn seiliedig ar y cod post a ddarparwyd (detholiad sy'n canolbwyntio ar ogledd Cymru). 13

Ffigwr 3:Ymatebion i 'I ba raddau ydych chi'n cefnogi'r weledigaeth a'r amcanion a nodir yn ein Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol?' 14

Ffigwr 4: Atebion i 'I ba raddau ydych chi'n cefnogi'r polisïau a'r ymyraethau a nodir yn ein Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol drafft?' 14

Ffigwr 5: Themâu allweddol a godwyd gan ymatebwyr mewn ymateb i'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol drafft. 15

Ffigwr 6: Ymatebion i 'I ba raddau ydych chi'n cefnogi'r dull a ddilynwyd gennym yn ein Cynllun Monitro a Gwerthuso drafft?' 17

Ffigwr 7: Themâu allweddol a godwyd gan ymatebwyr mewn ymateb i'r Cynllun Monitro a Gwerthuso drafft. 18

Ffigwr 8: Ymatebion i 'I ba raddau ydych chi'n cefnogi'r dull a ddilynwyd gennym yn ein Cynllun Monitro a Gwerthuso drafft?' 20

Ffigwr 9: Themâu allweddol a godwyd gan ymatebwyr mewn ymateb i'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol drafft. 20

Ffigwr 10: Ymatebion i 'I ba raddau ydych chi'n cefnogi'r dull a ddilynwyd gennym yn ein Harfarniad Llesiant Integredig drafft?' 22

Ffigwr 11: Themâu allweddol a godwyd gan ymatebwyr mewn ymateb i'r Arfarniad Llesiant Integredig drafft. 22

Ffigwr 12: Themâu allweddol a godwyd gan ymatebwyr mewn ymateb i unrhyw gwestiynau eraill. 25

# Atodiadau **11**

A.1 HOLIADUR YMGYNGHORI (CYMRAEG A SAESNEG) **2**

A.2 BYRDDAU ARDDANGOS YR ARDDANGOSFA (CYMRAEG A SAESNEG) **3**

A.3 SGRINLUNIAU YMGYSYLLTIAD RHITHWIR **4**

A.4 LLEOLIADAU CADW **5**

A.5 ENGHREIFFTIAU O GYHOEDDUSRWYDD **12**

A.6 'FE WNAETHOCH CHI DDWEUD, FE WNAETHON NI WNEUD' **21**

# 1. Cyflwyniad

## 1.1 Trosolwg

Mae'r Adroddiad Ymgynghori hwn yn rhoi crynodeb o'r ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd mewn cysylltiad â datblygu Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru (NWRTP). Fe'i cynhaliwyd am gyfnod o 12 wythnos, o'r 20fed Ionawr i'r 14eg Ebrill 2025.

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus i helpu i geisio cael adborth ar yr NWRTP drafft a'i ddogfennau cysylltiedig, gan gynnwys:

- NWRTP drafft: nodi'r weledigaeth hirdymor ar gyfer system drafnidiaeth y rhanbarth, ochr yn ochr ag amcanion, polisïau ac ymyraethau ar gyfer gwella'r isadeiledd a'r gwasanaethau trafnidiaeth. Helpodd 'Hawdd ei Ddeall' (Anabledd Dysgu Cymru) a chopïau 'Hawdd eu Deall' i bawb gyda diddordeb yn y cynigion i ymgysylltu.
- Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol Drafft (RTDP): yn nodi cynlluniau'r awdurdodau lleol i fynd i'r afael â'r amcanion, y polisïau a'r ymyraethau a nodir yn yr NWRTP drafft. Mae dogfennau diagramau PDF rhyngweithiol cefnogol ar wahân yn helpu i ddangos y cynlluniau a'u manylion.
- Cynllun Monitro a Gwerthuso: amlinellu sut y bydd yr NWRTP yn cael ei fonitro, ei fesur a'i werthuso, gan geisio sicrhau y bydd yn helpu i gyflawni'r blaenoriaethau a'r uchelgeisiau cenedlaethol yn Strategaeth Trafnidiaeth Cymru (WTS). Mae'n cynnwys cyfraniad y rhanbarth at dargedau datgarboneiddio cenedlaethol a newid moddol.
- Arfarniad Llesiant Integredig (IWBA): yn dangos sut y bydd polisïau'r NWRTP yn cyfrannu at lesiant, gyda chefnogaeth asesiadau effaith sy'n ystyried materion fel yr amgylchedd, iechyd, cydraddoldeb a bioamrywiaeth. Mae Crynodeb Nad yw'n Dechnegol yn cefnogi'r IWBA.

Helpodd holiadur bobl i gyflwyno eu sylwadau ar y dogfennau ymgynghori. Mae'r adborth a dderbyniwyd wedi'i ddadansoddi a'i ystyried yn ofalus, sydd wedi helpu i lywio newidiadau a gwelliannau i'r copïau terfynol yn barod i'w hystyried a'u cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

## 1.2 Alinio â gweithdrefnau statudol

Mae'r NWRTP yn mabwysiadu agwedd gydweithredol a chyfranogol, gan ystyried gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi helpu i lunio'r NWRTP, er enghraifft mae Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a Thrafnidiaeth Cymru wedi dweud wrthym am yr hyn y maent am ei weld ar gyfer y system drafnidiaeth yng ngogledd Cymru.

Mae'n ofyniad cyfreithiol i awdurdodau cyfrifol ymgymryd ag Asesiad Amgylcheddol Strategol (SEA) o gynlluniau a rhaglenni sy'n amodol ar gael eu paratoi a/neu eu mabwysiadu gan awdurdod ar lefel leol, ranbarthol neu genedlaethol ac sy'n ofynnol gan ddarpariaethau deddfwriaethol, rheoleiddio neu weinyddol ac yn arwain at ddatblygiad a allai gael effeithiau amgylcheddol sylweddol. Mae'r NWRTP yn gynllun sy'n ofynnol gan ddarpariaethau deddfwriaethol (Rheoliadau CBC yn dilyn Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021) ac sy'n debygol o arwain at brosiectau a allai gael effeithiau amgylcheddol sylweddol. Felly, mae SEA yn ofyn statudol, a defnyddiwyd y broses SEA fel sail i'r IWBA oherwydd ei bod yn broses gydnabyddedig a systematig ar gyfer gwerthuso canlyniadau amgylcheddol cynlluniau a rhaglenni. Trwy ehangu'r broses SEA i gynnwys gofynion asesiadau eraill (gan gynnwys Rheoliadau Cynefinoedd, Deddf Cydraddoldeb, ac ati), mae ein IWBA yn darparu un asesiad cydlynol gan ddefnyddio dull cydweithredol ar draws gwahanol agweddau cynaliadwyedd, yn hwyluso gwybodaeth a rennir ac yn nodi'r croestoriad rhwng y pynciau a ystyriwyd.

Paratowyd adroddiad cwmpasu IWBA a'i gyflwyno i ymgyngoreion statudol (gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru a Cadw) am gyfnod o bump wythnos rhwng 15fed Hydref a'r 19eg Tachwedd 2024. Amlinellodd yr adroddiad cwmpasu ddull o ymdrin â'r asesiadau effaith fel rhan o'r IWBA, y data gwaelodlin, cynlluniau rhyngwladol, cenedlaethol a rhanbarthol perthnasol, polisïau ac amcanion cynaliadwyedd, a'r fethodoleg asesu. Roedd hefyd yn awgrymu amcanion IWBA i osod fframwaith ar gyfer asesu (y Fframwaith IWBA).

Cyflwynwyd yr IWBA ochr yn ochr â dogfennau drafft yr NWRTP ar gyfer ymgynghoriad fel a ddisgrifir uchod, gydag hysbysiadau wedi'u hanfon yn uniongyrchol at Gyfoeth Naturiol Cymru a Cadw yn gofyn am adborth ar y dogfennau ymgynghori.

Cyflwynodd Cyfoeth Naturiol Cymru eu hymateb i'r ymgynghoriad o fewn y cyfnod ymgynghori, ond ni ddarparodd Cadw unrhyw sylwadau pellach y tu hwnt i'w hymateb cwmpasu. Mae sylwadau Cyfoeth Naturiol Cymru a sylwadau eraill a dderbyniwyd gan unigolion a sefydliadau mewn cysylltiad â'r IWBA wedi'u hystyried yn ofalus a, lle bo hynny'n angenrheidiol neu'n briodol, gwnaed newidiadau i fynd i'r afael ag adborth. Mae Datganiad Ôl-fabwysiadu ar gyfer yr IWBA wedi'i baratoi ochr yn ochr â'r Adroddiad Ymgynghori hwn ac ar wahân iddo, sy'n esbonio sut mae'r adborth wedi siapio'r IWBA a sut mae'r IWBA wedi llywio dogfennau'r NWRTP yn unol â hynny.

## 1.3 Strwythur

Cyflwynir yr Adroddiad Ymgynghori hwn fel a ganlyn:

Adran 2: Dull o ymgynghori cyhoeddus – crynodeb o sut y gallai unrhyw unigolyn neu sefydliad ymateb i'r ymgynghoriad, gan gynnwys dulliau ymgysylltu, gweithgareddau a chyhoeddusrwydd.

Adran 3:Ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus – crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, gan ddarparu ystadegau a themâu allweddol o adborth mewn perthynas â'r sylwadau a dderbyniwyd.

Adran 4:Sut mae adborth wedi'i ystyried – darparu ymateb 'Fe Wnaethoch chi Ddweud, Fe Wnaethon ni Wneud' i'r adborth a dderbyniwyd, i ddangos sut mae sylwadau wedi'u hystyried a sut maent wedi llywio ein cynlluniau terfynol.

# 2. Dull o Ymgynghori Cyhoeddus

## 2.1 Trosolwg

Oherwydd natur strategol y Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol a chwmpas daearyddol eang y rhai a allai fod â diddordeb mewn trafnidiaeth o fewn ac yn cysylltu'r rhanbarthau, cytunodd y CBCau i gymryd agwedd ddigidol tuag at eu hymgynghoriadau cyhoeddus. Trafododd a chytunodd Uchelgais Gogledd Cymru fel CBC Gogledd Cymru gyda'i bwyllgorau perthnasol a'i grwpiau swyddogion i gynnal ymgynghoriad ar-lein gyda holiadur ar-lein, wedi'i ategu gan ddulliau mwy traddodiadol o ymgynghori drwy sicrhau bod dogfennau ar gael i bobl eu darllen mewn lleoliadau cyhoeddus, llinell gyswllt ffôn, a chyfeiriad post yn ogystal ag e-bost i bobl anfon eu hymatebion. Gwahoddwyd awdurdodau lleol i drefnu digwyddiadau lleol yn ôl eu disgresiwn.

### 2.1.1 Holiadur

Cynlluniwyd holiadur i helpu ymatebwyr gyflwyno eu sylwadau ar y dogfennau ymgynghori. Roedd hwn ar gael i'w gwblhau ar-lein mewn ystafell arddangos rithwir, ac ar bapur ar ôl ei argraffu, ac ar gael mewn digwyddiadau lleol, neu drwy gopïau a ddarparwyd trwy'r post ar gais.

Roedd yr holiadur yn cynnwys cwestiynau ansoddol a meintiol, gyda dewisiadau opsiynol, gan ei gwneud mor hawdd â phosib i bobl ddweud eu dweud trwy ymateb i unrhyw gwestiwn ac mewn cyn lleied neu gymaint o fanylion ag yr oeddent yn ei ddewis.

Cynhyrchwyd copi 'Hawdd ei Ddeall' (Anabledd Dysgu Cymru) o'r holiadur ynghyd â chopi 'Hawdd ei Ddeall' o'r NWRTP drafft i helpu pawb i ddweud eu dweud.

Roedd copi argraffadwy i'w lawrlwytho hefyd ar gael, gan geisio lleihau effaith amgylcheddol yr ymgynghoriad trwy dynnu delweddau a defnyddio cynnwys du a gwyn yn hytrach na lliw.

Gellid darparu gwybodaeth bersonol fel rhan o'r holiadur, gan helpu i sicrhau tryloywder ac atebolrwydd fel rhan o'r broses, yn ogystal â helpu i nodi demograffeg ymatebwyr (e.e. oedran, lleoliad, cyflogaeth neu statws addysgol) a sicrhau bod ystod amrywiol o safbwyntiau yn cael eu cynrychioli, yn ogystal â helpu i ystyried a yw'r ymgynghoriad wedi cyrraedd grwpiau rhanddeiliaid neu gymunedau allweddol.

Darperir copi o'r holiadur a'i fersiwn Hawdd ei Ddeall yn Atodiad 1.

### 2.1.2 Data

Darparwyd datganiad data i bob darpar gyfranogwr yn yr ymgynghoriad wedi'i wneud yn eglur ar yr holiadur yn ogystal â thrwy neges groeso a gafwyd yn yr ystafell arddangos rithwir. Roedd yn cadarnhau bod Arup yn cynnal yr ymgynghoriad cyhoeddus ar Gynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru ar ran Uchelgais Gogledd Cymru, gyda dolen i'r we wedi'i darparu i bolisi data Uchelgais Gogledd Cymru. Eglurai bod Arup yn gweithredu fel Prosesydd Data ar ran Uchelgais Gogledd Cymru, ac ar ddiwedd yr ymgynghoriad y bydd yr holl wybodaeth bersonol yn cael ei throsglwyddo i Uchelgais Gogledd Cymru. Nid yw gwybodaeth bersonol yn cael ei chadw y tu hwnt i'r cyfnod hwn. Pan fyddwn yn storio gwybodaeth dros dro, caiff ei storio'n ddiogel yn ein hisadeiledd cwmwl sydd wedi'i leoli yn yr UE.

### 2.1.3 Cwestiynau Cyffredin

Yn cefnogi'r ymgynghoriad cyhoeddus roedd dogfen Cwestiynau Cyffredin (FAQ), a helpodd i nodi gwybodaeth allweddol a phwysig gyda'r nod o helpu pobl i ymgysylltu ac ymateb. Roedd hyn yn

cynnwys diffiniadau, swyddogaethau a disgrifiadau o'r CBC, Uchelgais Gogledd Cymru, a'r dogfennau ymgynghori. Roedd hefyd yn nodi sut y gallai pobl ddweud eu dweud, beth fyddai'n digwydd i unrhyw wybodaeth bersonol, y camau nesaf ar ôl yr ymgynghoriad, a phwy i gysylltu â nhw os byddai unrhyw gwestiynau neu ymholiadau.

## 2.2 Dull a arweinir yn ddigidol ac ystafell arddangos rithwir ar-lein

Creodd Arup ar ran Uchelgais Gogledd Cymru ystafell arddangos rithwir ar-lein bwrpasol gan ddefnyddio eu platfform Ymgysylltu Rhithwir. Roedd hyn ar gael am gyfnod yr ymgynghori trwy'r wefan a hysbysebwyd: https://northwalesregionaltransportplan.virtual-engage.com/[1].

Nod yr ystafell arddangos rithwir oedd, cyn belled ag y bo modd, adlewyrchu lleoliad 'neuadd y dref' traddodiadol, gan helpu i arddangos gwybodaeth trwy fyrddau arddangos yr arddangosfa, caniatáu i bartïon â diddordeb weld a lawrlwytho'r dogfennau ymgynghori, a darparu eu hadborth gan ddefnyddio holiadur ar-lein.

Roedd y dull hwn yn darparu gwasanaeth 24/7, gan ganiatáu i unrhyw un gael mynediad at yr wybodaeth oedd ar gael, at y dogfennau, a chael dweud eu dweud ar unrhyw adeg o'r dydd yn ystod y cyfnod ymgynghori.

Roedd y byrddau arddangos yn cyflwyno'r ymgynghoriad, yn amlinellu'r polisïau a'r ymyraethau allweddol, ac yn nodi sut y gallai pobl ddweud eu dweud ochr yn ochr â'r camau nesaf (gweler Atodiad 2).

Darparwyd datganiad data a manylion cyswllt ffôn, e-bost a rhadbost yn yr ystafell i helpu pobl i ofyn cwestiynau, gofyn am gopïau papur o ddogfennau neu'r holiadur, a chyflwyno adborth.

Darparwyd yr holl wybodaeth a deunyddiau yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Yn debyg iawn i gofrestr mewn amgylchedd neuadd bentref draddodiadol, mae'r platfform Ymgysylltu Rhithwir yn caniatáu i bobl gofrestru ar y wefan ac mae'n casglu data ar safbwyntiau ac ymweliadau (gweler adran 3.1 am fanylion). 0

Gellir dod o hyd i sgrinluniau o'r ystafell Ymgysylltu Rhithwir yn Atodiad 3.

## 2.3 Lleoliadau cadw dogfennau

Gan gydnabod bod yn well gan rai pobl ymweld a darllen dogfennau ymgynghori yn bersonol, neu gael mynediad i'r rhyngrwyd o leoliadau cymunedol, gadawyd copïau papur mewn adeiladau cyhoeddus ledled gogledd Cymru. Roedd hyn yn cynnwys llyfrgelloedd, canolfannau cymunedol a chanolfannau addysgol lle gallai pobl gael mynediad i'r rhyngrwyd i weld y cynigion ar gais. Darperir rhestr o leoliadau cadw yn Atodiad 4.

## 2.4 Digwyddiadau lleol

Gwahoddwyd awdurdodau lleol i drefnu digwyddiadau lleol yn ôl eu disgresiwn, i helpu pobl i drafod yr NWRTP drafft a'i ymgynghoriad, yn ogystal ag annog cyfranogiad.

---

[1] Mae'r wefan ymgynghori hon bellach wedi cau. Gallwch ddarganfod mwy am Gynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru yma: https://ambitionnorth.wales/

Cynhaliwyd y digwyddiadau lleol a ganlyn, gan roi manylion am leoliad, presenoldeb a phwyntiau trafod allweddol (yn seiliedig ar adborth swyddogion trafnidiaeth awdurdodau lleol i Uchelgais Gogledd Cymru).

### Ynys Môn

- Llyfrgell Caergybi – 11eg Chwefror 2025
- Llyfrgell Llangefni – 13eg Chwefror 2025

Mynychodd tua 15 o bobl dros y ddau ddigwyddiad, ac roedd y drafodaeth yn canolbwyntio ar:

- Bryderon ynghylch diffyg bysiau rheolaidd mewn ardaloedd gwledig.
- Pryderon ynghylch diffyg cysylltiadau rhwng amserlenni trenau a bysiau a fyddai'n helpu i sicrhau bod modd parhau â theithiau. Awgrymwyd bod diffyg integreiddio amserlenni yn rhwystr i brofiad trafnidiaeth integredig a di-dor.
- Cwynion nad yw bysiau yn aml yn cyrraedd ar amser ac awgrymiadau bod diffyg cysondeb o ran amserlenni bysiau a gwasanaethau gweithredol.
- Pryderon ynghylch diffyg Gwybodaeth Amser Real, sy'n aml yn golygu nad yw defnyddwyr yn gwybod a yw'r bws yn hwyr, neu a ydynt wedi ei golli.

### Sir y Fflint

- Canolfan Gyswllt Treffynnon – 1af Ebrill 2025
- Canolfan Hamdden Glannau Dyfrdwy – 8fed Ebrill 2025

Tua 13 o ymwelwyr dros y ddau ddiwrnod, llawer ohonynt yn gynghorwyr o Gyngor Sir y Fflint neu Gyngor Tref Treffynnon. Canolbwyntiodd y drafodaeth ar:

- Faterion Parcio a Gorchymyn Rheoleiddio Traffig (TRO), gyda phryderon lleol.
- Yr angen i'r NWRTP hyrwyddo'r angen am orsaf ym Maes-glas (Treffynnon).
- Mae pryderon am orlenwi ar drenau yn awgrymu nad yw llawer yn darparu'r capasiti angenrheidiol.
- Cwestiynau am y 'Llwybr Coch' a oedd yn destun Adolygiad Ffyrdd Llywodraeth Cymru.

### Wrecsam

- Llyfrgell Wrecsam – 7fed Ebrill

Mynychodd tua 10 trwy gydol y digwyddiad, llawer ohonynt yn aelodau o'r cyhoedd, ac eglurodd un mynychwr ei fod yn cynrychioli'r Gymdeithas Trafnidiaeth Gymunedol. Canolbwyntiodd y drafodaeth ar:

- Bwysigrwydd gwasanaethau bysiau, gyda phryderon am unrhyw ostyngiad posib mewn gwasanaethau.
- Pwyntiau cyffredinol ynghylch gwasanaethau rheilffordd, parcio a llwybrau beicio.
- Trafodaeth gyffredinol ynghylch gwerth trafnidiaeth gymunedol.

- Awgrymiadau, er bod llawer yng ngogledd Cymru yn ystyried meysydd awyr Lerpwl a Manceinion fel meysydd awyr allweddol, y gall Birmingham fod yn faes awyr haws i'w gyrraedd ar y rheilffordd o orsaf reilffordd Wrecsam.

## 2.5 Ffyrdd y gallai pobl ymateb

Mae Uchelgais Gogledd Cymru o'r farn ei bod yn bwysig cynyddu cyfranogiad a thrwy hynny ei gwneud mor hawdd â phosib i bobl ddweud eu dweud a chyflwyno eu hadborth. Yn unol â hynny, hwyluswyd ystod o ddulliau adborth ar-lein a rhai mwy traddodiadol fel y disgrifir isod.

### 2.5.1 Cyfeiriad e-bost yr ymgynghoriad

Sefydlwyd cyfeiriad e-bost prosiect pwrpasol northwalesregionaltransportplan@arup.com, yn cael ei gynnal a'i fonitro gan Arup, ar gyfer yr ymgynghoriad. Roedd y cyfeiriad e-bost yn caniatáu i'r cyhoedd a phartïon eraill â diddordeb ofyn cwestiynau penodol am y cynigion, yr ymgynghoriad, gofyn am gopïau o ddogfennau trwy e-bost neu drwy'r post, a/neu gyflwyno eu hadborth. Pan dderbyniwyd ymatebion e-bost i'r ymgynghoriad, roedd rhai yn cynnwys copi atodedig o holiadur wedi'i gwblhau, ac roedd eraill yn cynnwys gohebiaeth ysgrifenedig atodedig trwy lythyr neu destun rhydd arall (heb ei gyflwyno ar ffurf holiadur).

### 2.5.2 Gwasanaeth ffôn a negeseuon rhadffôn yr Ymgynghoriad

Roedd gwasanaeth peiriant ateb i adael neges llais a oedd hefyd yn cael ei gynnal a'i fonitro gan Arup, gan ddarparu neges ddwyieithog. Roedd hyn yn helpu pobl a allai gael trafferth cael mynediad i'r rhyngrwyd a/neu a allai fod yn dymuno siarad ag aelodau o dîm y prosiect yn uniongyrchol i ofyn cwestiynau neu drafod eu pryderon. Roedd y gwasanaeth neges llais yn helpu unrhyw un i adael neges a oedd yn cynnwys cais am gopi papur neu gais am alwad yn ôl gyda manylion cyswllt, er enghraifft.

### 2.5.3 Cyfeiriad rhadbost yr ymgynghoriad

Er mwyn darparu ar gyfer ymatebion papur i'r ymgynghoriad, sefydlwyd cyfeiriad rhadbost gyda'r Post Brenhinol i ganiatáu i unrhyw un anfon ymateb i'r ymgynghoriad drwy'r post heb unrhyw gost postio iddynt (gyda'r ffi wedi'i thalu gan Uchelgais Gogledd Cymru). Roedd hyn yn cyfeirio ymatebion yn uniongyrchol i swyddfa Arup i'w prosesu. Hyrwyddwyd yr e-bost, y ffôn a'r cyfeiriad rhadbost trwy'r wybodaeth ymgynghori (Atodiad 2) a'r cyhoeddusrwydd cysylltiedig (Atodiad 5).

## 2.6 Cyhoeddusrwydd

Arweiniodd Uchelgais Gogledd Cymru a'i dîm cyfathrebu gyhoeddusrwydd yr ymgynghoriad, gan geisio gwneud cymaint o unigolion a sefydliadau â phosib yn ymwybodol o'r cyfle i ddweud eu dweud. Fe wnaethant weithio gyda phartneriaid a'u hadrannau cyfathrebu eu hunain (gan gynnwys awdurdodau lleol gogledd Cymru, Trafnidiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru) ar y cyd i helpu i hysbysebu'r ymgynghoriad drwy wahanol sefydliadau a chyfryngau fel y crynhoir isod. Roedd yr holl gyhoeddusrwydd yn ddwyieithog.

### 2.6.1 Datganiadau i'r wasg

Cyhoeddodd Uchelgais Gogledd Cymru ddatganiadau i'r wasg ar gerrig milltir ymgynghori allweddol, gan gynnwys yn ystod lansiad yr ymgynghoriad, i gynorthwyo i godi ymwybyddiaeth. Cyhoeddodd sawl ffynhonnell o’r cyfryngau fanylion o'r datganiadau i'r wasg; cyflwynir enghreifftiau o'r rhain yn Atodiad 5.

### 2.6.2 Gwefan

Diweddarwyd gwefan Uchelgais Gogledd Cymru gyda thudalen ymgynghori bwrpasol i ddarparu gwybodaeth am yr ymgynghoriad,  i sicrhau bod dogfennau ymgynghori allweddol ar gael i'w lawrlwytho, a nodi'r camau nesaf. Roedd yn cynnwys dolen i'r ystafell arddangos rithwir, gan annog pobl i lenwi'r holiadur ar-lein neu ddweud eu dweud trwy'r dulliau amgen oedd ar gael. Gellir dod o hyd i sgrinluniau o'r diweddariadau gwefan a gyhoeddwyd yn Atodiad 5.

### 2.6.3 Hysbysiadau e-bost

Cynhaliodd Uchelgais Gogledd Cymru gronfa ddata rhanddeiliaid o gysylltiadau allweddol lle roedd manylion cyswllt yn y parth cyhoeddus neu lle gofynnodd sefydliadau am gael yr wybodaeth ddiweddaraf am y cynlluniau. Anfonwyd negeseuon e-bost uniongyrchol yn rheolaidd yn ystod yr ymgynghoriad i annog ymgysylltu ac ymatebion.

### 2.6.4 Postiadau ar y cyfryngau cymdeithasol

Gwnaed postiadau ar y cyfryngau cymdeithasol trwy gydol y cyfnod ymgynghori trwy wefan Facebook, X (Twitter gynt) a LinkedIn Uchelgais Gogledd Cymru, i gyhoeddi lansiad yr ymgynghoriad, ac annog cyfranogiad yn rheolaidd ar adegau trwy gydol y cyfnod ymgynghori. Bu awdurdodau a sefydliadau eraill oedd â diddordeb hefyd yn rhannu neu'n postio o'u cyfrifon eu hunain, er enghraifft yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i Awdurdodau Lleol a chynghorau tref/cymuned. Gellir dod o hyd i sgrinluniau gydag enghreifftiau yn Atodiad 5.

### 2.6.5 Posteri

Paratowyd a dangoswyd posteri gan Uchelgais Gogledd Cymru i hyrwyddo'r ymgynghoriad yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru yng Nghyffordd Llandudno (Sarn Mynach) trwy'r cyfnod.

### 2.6.6 Digwyddiadau, gweithdai a chyfarfodydd ffocws y diwydiant

Mynychodd Uchelgais Gogledd Cymru a chymryd rhan fel siaradwyr gwadd mewn amrywiaeth o ddigwyddiadau, gweithdai a chyfarfodydd ffocws y diwydiant gyda'r bwriad o drafod yr NWRTP drafft a'i ymgynghoriad, gan annog adborth hefyd. Ymhlith yr enghreifftiau roedd Sefydliad y Cyfarwyddwyr Gogledd Cymru ar 19eg Mawrth 2025, Cangen CBI Gogledd Cymru ar 21ain Mawrth 2025, Digwyddiad Sefydliad Siartredig Priffyrdd a Chludiant (CIHT) Cymru Wales a Grŵp Swyddogion Cynllunio Gogledd Cymru ar wahân ar 4ydd Ebrill 2025. Cynhaliwyd gweithdy trafnidiaeth rhanbarthol gyda Chomisiwn Dylunio Cymru ar 7fed Ebrill 2025. Trwy gydol datblygiad y Cynllun drafft, cyfarfu Uchelgais Gogledd Cymru hefyd â swyddogion ac aelodau awdurdodau lleol gogledd Cymru, yn ogystal ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri drwy ei gyfrifoldebau CBC mewn cysylltiad â thrafnidiaeth a chynllunio strategol. Cyfarfu hefyd ag Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru mewn cysylltiad â'r rhwydwaith ffyrdd strategol, a Thrafnidiaeth Cymru mewn cysylltiad â'r rhwydwaith rheilffyrdd. Cynhaliwyd cyfarfodydd o leiaf yn fisol hefyd gyda Llywodraeth Cymru am yr NWRTP a'i ymgynghoriad, sydd wedi arwain at adborth gan swyddogion y tu allan i'r ymgynghoriad, sydd wedi llywio'r cynlluniau.

# 3. Ymatebion i'r Ymgynghoriad Cyhoeddus

## 3.1 Trosolwg

Er bod unigolion a sefydliadau yn cael eu hannog i gyflwyno ymatebion ffurfiol gan ddefnyddio'r holiadur adborth a ddarparwyd, darparodd rhai ymatebion ar ffurf e-bost neu radbost. Mae pob un wedi'i ystyried pan gafodd ei dderbyn yn ystod y cyfnod ymgynghori. Derbyniwyd tri ymateb ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben. Roedd un o'r rheiny gan sefydliad a oedd yn esbonio mater technolegol a derbyniodd Uchelgais Gogledd Cymru yr ymateb hwyr gan ddefnyddio ei ddisgresiwn. Ni dderbyniwyd y ddau ymateb hwyr arall ond maent wedi cael eu hystyried y tu allan i'r Adroddiad Ymgynghori hwn gan Uchelgais Gogledd Cymru, ac mae gohebiaeth uniongyrchol wedi parhau i helpu i fynd i'r afael ag adborth.

Cafwyd cyfanswm o 1,684 o ymatebion ac fe'u derbyniwyd. O'r rhai hynny,

- cafwyd 199 o ymatebion trwy'r ystafell arddangos ar-lein (Ymgysylltiad Rhithwir).
- Cafwyd 49 o ymatebion e-bost (gan gynnwys dau gan ddefnyddio'r ffurflen holiadur Hawdd ei Ddeall).
- Ymatebodd 15 o gyfranogwyr gan ddefnyddio'r holiadur adborth papur trwy'r post.
- Roedd 1,421 yn gysylltiedig ag ymateb i ymgyrch gydlynol gan Ymddiriedolaethau Natur Cymru.

O'r 199 o ymatebion Ymgysylltiad Rhithwir, 49 o ymatebion e-bost a 15 ymateb trwy'r post a ddarparodd ddata personol fel rhan o'u cyflwyniad:

- roedd 7% o dan 25, 17% rhwng 25-39, 42% rhwng 40-60 a 33% yn 60+.
- Nododd 53% eu bod yn ddynion a 47% yn fenywod.
- Nododd 87% nad oedd ganddynt anabledd a nododd 13% eu bod yn anabl.
- Nododd 70% eu bod mewn cyflogaeth a nododd 13% eu bod mewn addysg/hyfforddiant.

Cadarnhaodd y rhai a ddarparodd ddata personol fel rhan o'u hymateb i'r holiadur eu cod post, sy'n helpu i adnabod eu lleoliad. Mae'r canlyniadau wedi'u nodi yn Nhabl 1 a Ffigwr 1 isod.

Tabl 1: Lleoliad ymatebwyr holiadur (ymgysylltiad rhithwir wedi'i gynnwys) yn seiliedig ar y cod post a ddarparwyd.

| Awdurdod Lleol | Conwy | Sir Ddinbych | Sir y Fflint | Gwynedd | Ynys Môn | Wrecsam | Cymru Arall | Y tu allan i Gymru |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm nifer yr ymatebwyr | 36 | 14 | 62 | 26 | 26 | 11 | 3 | 3 |




Ffigwr 1: Lleoliad ymatebwyr ystafell Ymgysylltiad Rhithwir (detholiad sy'n canolbwyntio ar ogledd Cymru).

Rhoddodd mwyafrif y rhai a gyflwynodd ymateb i ymgyrch Ymddiriedolaethau Natur Cymru enw a chod post. Mae hyn hefyd yn ein helpu i nodi eu lleoliad. Dylid nodi nad oedd modd dod o hyd i rai codau post, a allai fod wedi bod yn wall defnyddiwr. Mae'r canlyniadau wedi'u nodi yn Nhabl 2 a Ffigwr 2 isod.

Tabl 2: Lleoliad ymatebwyr i'r ymgyrch yn seiliedig ar y cod post a ddarparwyd.

| Awdurdod Lleol | Conwy | Sir Ddinbych | Sir y Fflint | Gwynedd | Ynys Môn | Wrecsam | Cymru Arall | Y tu allan i Gymru |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm nifer yr ymatebwyr | 139 | 101 | 245 | 113 | 70 | 55 | 67 | 618 |




Ffigwr 2: Lleoliad ymatebwyr i'r ymgyrch yn seiliedig ar y cod post a ddarparwyd (detholiad sy'n canolbwyntio ar ogledd Cymru).

Cafodd yr ymatebion eu gwirio i wneud yn siŵr nad oedd unrhyw ymatebion dyblyg wedi'u cyfrif. Ar ôl adolygu'r data, dilëwyd unrhyw gofnodion a ailadroddwyd.

Mae'r adrannau isod yn rhoi trosolwg o bob cwestiwn a ofynnwyd yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus. Lle roedd ymatebwyr yn gallu darparu ymateb ansoddol, cynhaliwyd ymarfer codio a dadansoddi i ddarparu themâu adborth ar gyfer pob cwestiwn a chymhwyso barn broffesiynol.

Rhoddwyd ymateb llawn i'r holl sylwadau yn Adran 4.0

O ystyried bod yr holiadur yn caniatáu i unrhyw un lenwi unrhyw gwestiwn, dewisodd rhai ateb pob cwestiwn, tra dewisodd eraill ateb un neu fwy. Oherwydd hyn, wedi ei gynnwys yn y dadansoddiad o bob cwestiwn mae hefyd werth rhifiadol o faint o ymatebion a dderbyniwyd mewn perthynas â phob cwestiwn, er mwyn helpu i ddarparu cyd-destun.

## 3.2 Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol

### 3.2.1 I ba raddau ydych chi'n cefnogi'r weledigaeth a'r amcanion a nodir yn ein Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol drafft?

Rhoddodd 213 o gyfranogwyr eu barn ar y cwestiwn hwn. Mae Ffigwr 1 isod yn darparu darlun gweledol o'r canlyniadau meintiol. Mae'n dangos bod 67% wedi dewis eu bod naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf, 14% wedi dweud eu bod yn niwtral, a 19% wedi dewis eu bod naill ai'n anghytuno neu'n anghytuno'n gryf.

Ffigwr 3:Ymatebion i 'I ba raddau ydych chi'n cefnogi'r weledigaeth a'r amcanion a nodir yn ein Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol?'




## 3.2.2 I ba raddau ydych chi'n cefnogi'r polisïau a'r ymyraethau a nodir yn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol drafft?

Rhoddodd 200 o gyfranogwyr eu barn ar y cwestiwn hwn. Mae Ffigwr 2 isod yn darparu darlun gweledol o'r canlyniadau meintiol. Mae'n dangos bod 61% wedi dewis eu bod naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf, 14% wedi dweud eu bod yn niwtral, a 25% wedi dewis eu bod naill ai'n anghytuno neu'n anghytuno'n gryf.

Ffigwr 4: Atebion i 'I ba raddau ydych chi'n cefnogi'r polisïau a'r ymyraethau a nodir yn ein Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol drafft?'



## 3.2.3 Dywedwch wrthym beth yw eich barn am ein Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol drafft neu gwnewch awgrymiadau eraill yma.

Ymatebodd 159 o gyfranogwyr i'r cwestiwn hwn. Amlinellir isod grynodeb lefel uchel o'r themâu allweddol a godwyd yn y sylwadau a dderbyniwyd mewn ymateb i'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol drafft. Darperir manylion ac ymatebion yn Atodiad 6.

Ffigwr 5: Themâu allweddol a godwyd gan ymatebwyr mewn ymateb i'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol drafft.




Hygyrchedd**:** Rhoddodd wyth ymatebydd adborth ar y pwnc hwn. Fe wnaeth chwech ymatebydd sylwadau ar bwysigrwydd cysylltiadau trafnidiaeth ag ardaloedd gwledig. Awgrymodd y ddau ymatebydd arall y dylid canolbwyntio mwy ar wella teithio cynaliadwy/llesol i gymudwyr.

Bws**:** Rhoddodd 24 ymatebydd adborth ar y pwnc hwn, canolbwyntiodd 12 o'r ymatebwyr ar bwysigrwydd gwasanaeth dibynadwy, mwy aml. Roedd gan PT1 un sylw yn cefnogi, ac un sylw yn gwrthwynebu. Dywedodd tri ymatebydd fod prisiau tocynnau bws yn rhy ddrud. Rhoddodd ymatebwyr eraill adborth ar lwybrau bysiau, preifatrwydd, a chysylltiad rhwng gwasanaethau bysiau.

Coets**:** Rhoddodd dau ymatebydd adborth ar y pwnc hwn. Canolbwyntiodd un ymatebydd ar y rôl y gall coetsis ei chwarae mewn cysylltedd ledled gogledd Cymru, tra bod yr ymatebydd arall wedi gwneud sylwadau ar y gogwydd tuag at drafnidiaeth ffyrdd o'i chymharu â rheilffyrdd.

Ymgynghoriad**:** Rhoddodd 17 ymatebydd adborth ar y pwnc hwn, gydag 16 yn rhoi awgrymiadau ar sut y gellid gwella'r dogfennau ymgynghori. Cefnogodd un ymatebydd y dogfennau a'r broses ymgynghori.

Trafnidiaeth sy'n Ymateb i'r Galw/Trafnidiaeth Gymunedol**:** Rhoddodd chwech ymatebydd adborth ar y pwnc hwn. Roedd tri sylw yn canolbwyntio ar Fflecsi, y sylwadau eraill yn canolbwyntio ar fuddsoddiad, twristiaid a beirniadaeth o'r cynllun am beidio â mynd i'r afael â thrafnidiaeth gymunedol.

Cysylltedd Digidol**:** Rhoddodd pump ymatebydd adborth ar y pwnc hwn, rhoddodd tri awgrymiadau amgen ynghylch digideiddio mewn arosfannau bysiau a chymhwysiad integredig. Canolbwyntiodd dau ar gyflymder band eang.

Datblygiad Economaidd: Rhoddodd saith ymatebydd adborth ar y pwnc hwn, gan ddarparu awgrymiadau ar dai ac isadeiledd, llwybrau cludo nwyddau, a hwb hydrogen Caergybi.

Galluogi newidiadau mewn ymddygiad teithio: Rhoddodd 14 ymatebydd adborth ar y pwnc hwn, gyda saith yn awgrymu dewisiadau amgen ar lwybrau penodol, cymhellion ar gyfer newid, a mecanweithiau ariannu. Rhoddodd tri ymatebydd adborth cyffredinol. Canolbwyntiodd yr ymatebwyr eraill ar gefnogaeth i Bolisi LU1, pryderon diogelwch ac ardaloedd awdurdodau lleol penodol.

Yr Amgylchedd: Rhoddodd wyth ymatebydd adborth ar y pwnc hwn, pump yn canolbwyntio ar y newid hinsawdd/sero net. Mynegodd un ymatebydd bryderon ynghylch pwyslais annigonol ar bynciau tirwedd a gweledol, mynegodd ymatebydd arall bryderon am y themâu trawsbynciol oedd yn eithrio datgarboneiddio a gwytnwch hinsawdd.

Cyffredinol: Rhoddodd 52 ymatebydd adborth ar y pwnc hwn, 21 yn cefnogi'r NWRTP, 17 yn gwrthwynebu. Canolbwyntiodd yr ymatebwyr eraill ar dynnu sylw at bryderon ynghylch cyllid, dibynadwyedd, amserlenni, ardaloedd gwledig, a darparu awgrymiadau.

Integreiddio rhwng dulliau teithio: Rhoddodd pump ymatebydd adborth ar y pwnc hwn, pedwar o'r rhain yn awgrymiadau am ddewisiadau amgen ynghylch defnyddio beiciau ar drafnidiaeth gyhoeddus, llwybrau penodol, coetsis ar lwybrau trên a pharcio diogel. Cytunodd un ymatebydd gydag integreiddio dulliau trafnidiaeth, ond nid ar draul yr amgylchedd naturiol.

Cynllunio Defnydd Tir: Rhoddodd saith ymatebydd adborth ar y pwnc hwn, gyda thri yn gwrthwynebu'r trawsnewid i Gerbydau Trydan (EV). Cwestiynodd un ymatebydd gyflwyno gwefru EV i gyrraedd y targedau a osodwyd gan Lywodraeth y DU. Awgrymodd yr ymatebwyr eraill ddewisiadau amgen a chwestiynu Dyhead 3 SRN a Pholisi RS1.

Porthladdoedd a Chludiant Nwyddau: Rhoddodd chwech ymatebydd adborth ar y pwnc hwn, darparodd pump ddewisiadau amgen a pholisïau ychwanegol ynghylch cludo nwyddau rheilffordd i Gaergybi, llwybrau eraill, a gweithio mewn partneriaethau. Rhoddodd un ymatebydd gefnogaeth i'r gwelliannau i lwybrau allweddol fydd yn hwyluso symud nwyddau yn effeithlon.

Uchelgeisiau Rheilffyrdd: Rhoddodd 39 ymatebydd adborth ar y pwnc hwn, awgrymodd 22 o'r rhain ddewisiadau amgen, gan gynnwys 17 yn tynnu sylw at hepgor Gorsaf Maes Glas. Canolbwyntiodd 12 ymatebydd ar orsafoedd a llwybrau a'r ymatebwyr eraill ar ddibynadwyedd ac amlder.

Ffyrdd, strydoedd a pharcio: Rhoddodd 25 ymatebydd adborth ar y pwnc hwn, gyda phedwar ymatebydd yn datgan eu bod yn anghytuno â therfynau cyflymder 20mya. Canolbwyntiodd ymatebwyr eraill ar y trawsnewid i EV, cyllid, cynnal a chadw parhaus, a pholisïau penodol.

Economaidd-gymdeithasol: Rhoddodd 16 ymatebydd adborth ar y pwnc hwn, gyda phedwar yn canolbwyntio ar iechyd a llesiant pobl yng ngogledd Cymru. Canolbwyntiodd pedwar ymatebydd ar effeithiau twristiaeth yn yr ardal. Gwnaeth yr ymatebwyr eraill sylwadau ar effeithiau a rhoi awgrymiadau ar ddiwylliant, cymudo, twf economaidd a chynhwysiant ardaloedd gwledig.

Uchelgeisiau Ffyrdd Strategol: Rhoddodd 27 ymatebydd adborth ar y pwnc hwn. Gwnaeth pump ymatebydd sylwadau ar 'Lwybr Coch' Sir y Fflint gyda phedwar yn ei wrthwynebu ac un yn ei gefnogi. Soniodd pump ymatebydd am bolisïau penodol gan gynnwys SRN 3, SRN 4 ac SRN 5. Mynegodd tri ymatebydd wrthwynebiadau ac roedd un ymatebydd yn cefnogi'r Uchelgeisiau Ffyrdd Strategol. Awgrymodd yr ymatebwyr eraill ddewisiadau amgen oedd yn ymwneud â therfynau cyflymder, rheoli traffig a systemau priffyrdd.

Mynediad ar y ddaear at awyrennau: Mynegodd un ymatebydd yr angen am lwybrau trên mwy aml ac uniongyrchol yng ngogledd Cymru i faes awyr.

Gweledigaeth ac Amcanion: Darparodd 16 ymatebydd adborth ar y pwnc hwn, dau yn cefnogi, a dau yn gwrthwynebu'r Weledigaeth a'r Amcanion. Gofynnodd dau ymatebydd sut y byddai'r weledigaeth a'r amcanion yn cael eu hariannu. Tynnodd gweddill yr ymatebwyr sylw at bolisi, heriau i ardaloedd gwledig, heriau trafnidiaeth presennol ac adborth cyffredinol.

Cerdded, olwyno a beicio**:** Rhoddodd 25 ymatebydd adborth ar y pwnc hwn, cododd saith ymatebydd bryderon ynghylch diogelwch. Canolbwyntiodd yr ymatebwyr eraill ar welliannau awgrymedig ac adborth cyffredinol. Roedd dau ymatebydd yn gwrthwynebu'r cynllun, a chyfleodd dau eu cefnogaeth i'r cynllun.

## 3.3 Cynllun Monitro a Gwerthuso

### 3.3.1 I ba raddau ydych chi'n cefnogi'r dull a ddilynwyd gennym yn ein Cynllun Monitro a Gwerthuso drafft?

Rhoddodd 207 o gyfranogwyr eu barn ar y cwestiwn hwn. Mae Ffigwr 3 isod yn darparu darlun gweledol o'r canlyniadau meintiol. Mae'n dangos bod 48% wedi dewis eu bod naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf, 35% wedi dweud eu bod yn niwtral, a 17% wedi dewis eu bod naill ai'n anghytuno neu'n anghytuno'n gryf.

Ffigwr 6: Ymatebion i 'I ba raddau ydych chi'n cefnogi'r dull a ddilynwyd gennym yn ein Cynllun Monitro a Gwerthuso drafft?'




### 3.3.2 Dywedwch wrthym beth yw eich barn am ein Cynllun Monitro a Gwerthuso drafft neu gwnewch awgrymiadau eraill yma.

Ymatebodd 81 o gyfranogwyr i'r cwestiwn hwn. Amlinellir isod grynodeb lefel uchel o'r themâu allweddol a godwyd yn y sylwadau a dderbyniwyd mewn ymateb i'r Cynllun Monitro a Gwerthuso drafft. Darperir manylion ac ymatebion yn Atodiad 6.

Ffigwr 7: Themâu allweddol a godwyd gan ymatebwyr mewn ymateb i'r Cynllun Monitro a Gwerthuso drafft.




Hygyrchedd: Derbyniwyd un ymateb ar gyfer y pwnc hwn yn tynnu sylw at bwysigrwydd mynediad at wasanaethau teithio/trafnidiaeth, yn enwedig o ran gwasanaethau trên mwy aml.

Bws: Adroddodd dau ymatebydd yn ôl ar y pwnc hwn, un yn tynnu sylw at bwysigrwydd defnyddio'r isadeiledd bysiau presennol, fel bysiau trydan, cyn buddsoddi ymhellach, tra bod un arall yn cefnogi'r cyfle i gydweithio wrth ddatgarboneiddio fflyd bysiau'r sector cyhoeddus a dylunio isadeiledd trawsffiniol.

Ymgynghoriad: Rhoddodd 12 ymatebydd adborth ar y pwnc hwn, ac roedd naw ohonynt yn cyflwyno safbwyntiau oedd yn gwrthwynebu neu'n pryderu am y broses ymgynghori, yn enwedig o ran cael mynediad at ddogfennau ymgynghori. Mynegodd ymatebion eraill gefnogaeth i'r broses, gan werthfawrogi'r cyfle i roi adborth, tra bod eraill yn tynnu sylw at yr angen i ddefnyddio'r adborth a roddwyd i wella'r cynllun, gydag awgrymiadau i ddefnyddio grwpiau ffocws neu gynghorwyr lleol i fonitro boddhad ar wahanol gamau o weithredu'r NWRTP.

Galluogi newidiadau mewn ymddygiad teithio: Derbyniwyd un ymateb ar y pwnc hwn yn tynnu sylw at yr angen i ddefnyddio gwasanaethau bysiau a threnau cyhoeddus presennol i ddarparu ar gyfer cludiant ysgolion, fel bod myfyrwyr yn arfer â defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, galluogi newid ymddygiad, a lleihau dyblygu gwasanaethau, yn cefnogi polisi CB10.

Yr Amgylchedd: Rhoddodd dau ymatebydd adborth ar y pwnc hwn. Roedd un ymatebydd yn gwrthwynebu gostyngiadau terfyn cyflymder gan eu bod o'r farn bod hyn yn lleihau ansawdd aer. Gofynnodd ymatebydd arall sut mae'r cynllun yn anelu at fesur effeithiau amgylcheddol cynlluniau ffyrdd.

Cyffredinol: Rhoddodd 52 ymatebydd adborth ar y pwnc hwn, gyda 21 ohonynt yn mynegi cefnogaeth gyffredinol, tra bod 15 ymatebydd wedi mynegi gwrthwynebiad neu bryder am y cynllun. Tynnodd ymatebwyr eraill sylw at feysydd lle gellid mireinio'r cynllun monitro a gwerthuso ymhellach i ddarparu mwy o eglurder, yn enwedig o ran mesurau monitro. Gwnaed y sylwadau sy'n weddill ynghylch cynnwys pob ardal awdurdod lleol a'r angen i fuddsoddi mewn trafnidiaeth gyhoeddus i ddatgloi cyfleoedd ar draws y rhanbarth.

Cynllunio Defnydd Tir: Rhoddodd dau ymatebydd adborth ar y pwnc hwn, gan gyfeirio at isadeiledd EV, gan fynegi pryder am ddyfodol gwefru EV heb wydnwch grid ac awgrymu'r angen i gynnwys y fframwaith caffael genedlaethol i symleiddio'r broses gaffael gan sicrhau cysondeb ar draws pob rhanbarth.

Porthladdoedd a Chludiant Nwyddau**:** Rhoddodd dau ymatebydd adborth ar y pwnc hwn. Tynnodd un ymatebydd sylw at gefnogaeth i gludo nwyddau ar reilffyrdd, gydag un arall yn cynnig awgrym i integreiddio'r cyfuniad o HGVs yn y Cynllun Rhanbarthol.

Uchelgeisiau Rheilffyrdd**:** Rhoddodd wyth ymatebydd adborth ar y pwnc hwn, gyda saith o'r ymatebion yn tynnu sylw at yr angen i gynnwys Gorsaf Maes Glas yn y cynlluniau. Roedd ymateb pellach yn cefnogi gwasanaethau rheilffordd bob awr rhwng Crewe a Llandudno.

Ffyrdd, strydoedd a pharcio**:** Rhoddodd pedwar ymatebydd adborth ar y pwnc hwn, ac roedd dau ohonynt yn gwrthwynebu gweithredu polisi 20mya Llywodraeth Cymru. Tynnodd eraill sylw at yr angen am well cysylltiadau ffyrdd a gwella safleoedd tagfeydd ledled y rhanbarth, gyda sylw pellach yn awgrymu y dylid cynnwys ffocws ar gymhellion ariannol EV yn yr NWRTP.

Economaidd-gymdeithasol**:** Rhoddodd pedwar ymatebydd adborth ar y pwnc hwn gyda themâu iechyd a llesiant a chynhwysiant ardaloedd gwledig. Awgrymodd ymatebwyr hefyd fod anghenion teithio i'r gwaith wedi'u hanwybyddu, ac y dylid teithio i ysgolion ar drafnidiaeth gyhoeddus.

Uchelgeisiau Ffyrdd Strategol: Rhoddodd pump ymatebydd adborth ar y pwnc hwn. Mynegwyd gwrthwynebiad i uchelgeisiau SRN2, SRN3 ac SRN4, tra mynegodd eraill yr angen i wella cysylltiadau ffyrdd a safleoedd tagfeydd.

Cerdded, olwyno a beicio**:** Rhoddodd pump ymatebydd adborth ar y pwnc hwn, gyda dau ymateb yn cefnogi a dau yn gwrthwynebu cynlluniau. Gwnaed sylw pellach yn awgrymu y dylai'r Cynllun Monitro a Gwerthuso ddarparu gwell monitro o deithio llesol ac y dylid cydnabod cysylltiadau gydag iechyd a llesiant yn well.

## 3.4 Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol

### 3.4.1 I ba raddau yr ydych chi'n cytuno â'r dull a ddilynwyd gennym yn ein Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol drafft?

Rhoddodd 202 o gyfranogwyr eu barn ar y cwestiwn hwn. Mae Ffigwr 4 isod yn darparu darlun gweledol o'r canlyniadau meintiol. Mae'n dangos bod 50% wedi dewis eu bod naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf, 28% wedi dweud eu bod yn niwtral, a 22% wedi dewis eu bod naill ai'n anghytuno neu'n anghytuno'n gryf.

Ffigwr 8: Ymatebion i 'I ba raddau ydych chi'n cefnogi'r dull a ddilynwyd gennym yn ein Cynllun Monitro a Gwerthuso drafft?'




## 3.4.2 Dywedwch wrthym beth yw eich barn am ein Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol drafft neu gwnewch awgrymiadau eraill yma.

Ymatebodd 85 o gyfranogwyr i'r cwestiwn hwn. Amlinellir isod grynodeb lefel uchel o'r themâu allweddol a godwyd yn y sylwadau a dderbyniwyd mewn ymateb i'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol drafft. Darperir manylion ac ymatebion yn Atodiad 6.

Ffigwr 9: Themâu allweddol a godwyd gan ymatebwyr mewn ymateb i'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol drafft.




**Hygyrchedd:** Rhoddodd dau ymatebydd adborth ar y pwnc hwn ynglŷn â mynediad at wasanaethau teithio/trafnidiaeth, yn enwedig mwy o hygyrchedd at drenau a bysiau i unigolion anabl.

Bws: Rhoddodd chwech ymatebydd adborth ar y pwnc hwn gan dynnu sylw at yr angen am well isadeiledd bysiau, yr angen i gynyddu amlder a dibynadwyedd gwasanaethau, yn ogystal â'r farn nad yw'r cynllun yn gwella'r sefyllfa bresennol yng ngogledd Cymru.

Coets: Rhoddodd un ymatebydd adborth ar y pwnc hwn yn cwestiynu'r angen am goets gyflym newydd yr ystyrir ei bod yn dyblygu'r rhwydwaith trenau presennol.

Ymgynghoriad: Rhoddodd chwech ymatebydd adborth ar y pwnc hwn, yn ystyried bod dogfennau ac opsiynau adborth yn gymhleth a bod angen ymgysylltu ehangach.

Cysylltedd digidol: Rhoddodd un ymatebydd adborth ar y pwnc hwn gan fynegi cefnogaeth i isadeiledd digidol mewn arosfannau bysiau, gan gefnogi polisi DC3.

Datblygiad Economaidd: Rhoddodd tri ymatebydd adborth ar y pwnc hwn, i gyd yn ystyried y bydd y mwy o gysylltedd a ddarperir gan y cynllun yn cefnogi datblygiad economaidd gogledd Cymru yn fawr.

Yr Amgylchedd: Rhoddodd un ymatebydd adborth ar y pwnc hwn gyda phryderon am fioamrywiaeth wrth ddatblygu llwybrau teithio llesol.

Cyffredinol: Rhoddodd 39 ymatebydd adborth ar y pwnc hwn, gan fynegi teimlad cyffredinol, a sylwadau ynghylch yr angen i wella trafnidiaeth gyhoeddus yn gyffredinol, ac i flaenoriaethu ardaloedd awdurdodau lleol.

Integreiddio rhwng dulliau teithio: Rhoddodd saith ymatebydd adborth ar y pwnc hwn gan fynegi cefnogaeth neu awgrymu ychwanegiadau at gynlluniau gan gynnwys sylwadau ar docynnu rhyngfoddol, safleoedd cyfnewidfeydd ychwanegol a chysylltiadau â thrafnidiaeth gymunedol. Rhoddwyd cefnogaeth gyffredinol i gyfleusterau parcio a theithio newydd, gan gefnogi polisi IN5.

Cynllunio defnydd tir: Rhoddodd un ymatebydd adborth ar y pwnc hwn ynglŷn â datblygu polisi i gynnwys gwell cysylltiadau â chynllunio aml-adran.

Porthladdoedd a chludo nwyddau: Rhoddodd un ymatebydd adborth ar y pwnc hwn gan awgrymu y dylid rhoi mwy o bwyslais ar ffynonellau tanwydd amgen fel datrysiadau hydrogen a cherbydau hydrogen, a drafodwyd ym mholisi PF4.

Uchelgeisiau Rheilffyrdd: Rhoddodd 24 ymatebydd adborth ar y pwnc hwn, ac mae 11 ohonynt yn tynnu sylw at yr angen am Orsaf Maes Glas gyda sylwadau pellach yn awgrymu llwybrau a gorsafoedd eraill y dylid eu hystyried. Mynegodd eraill nad oedd y cynllun yn cynnig gweledigaeth oedd o ddifrif ynglŷn â gwella rheilffyrdd, tra bod eraill yn cefnogi gwelliannau'r cynlluniau.

Ffyrdd, strydoedd a pharcio: Rhoddodd pump ymatebydd adborth ar y pwnc hwn gan gynnwys cefnogaeth a gwrthwynebiad i gynlluniau EV, pryderon diogelwch ar hyd llwybrau penodol, yr angen i wella cysylltiadau ffyrdd a cheisiadau i gael gwared ar derfynau cyflymder 20mya.

Economaidd-gymdeithasol: Rhoddodd pump ymatebydd adborth ar y pwnc hwn gyda sylwadau ynglŷn â'r angen i gynnwys ardaloedd gwledig, yr angen i flaenoriaethu cynlluniau sy'n cynnig twf economaidd ac am ystyriaeth bellach i'r sector twristiaeth.

Uchelgeisiau Ffyrdd Strategol: Rhoddodd 11 ymatebydd adborth ar y pwnc hwn gan gynnwys newidiadau a awgrymwyd ar gynlluniau a pholisïau penodol (SRN2 a 3), yr angen i ymgorffori cyfeiriadau at welliannau rhwydwaith priffyrdd, gwrthwynebiad i gynnwys isadeiledd ffyrdd a'r Llwybr Coch.

Cerdded, olwyno a beicio: Rhoddodd wyth ymatebydd adborth ar y pwnc hwn gan awgrymu newidiadau i bolisïau neu bolisïau ychwanegol, gyda gwelliannau cefnogol i deithio llesol tra bod eraill yn gwrthwynebu cynlluniau o blaid ceir preifat.

## 3.5 Arfarniad Llesiant Integredig

### 3.5.1 I ba raddau ydych chi'n cefnogi'r dull a ddilynwyd gennym yn ein Hasesiad Llesiant Integredig drafft?

Rhoddodd 193 o gyfranogwyr eu barn ar y cwestiwn hwn. Mae Ffigwr 5 isod yn darparu darlun gweledol o'r canlyniadau meintiol. Mae'n dangos bod 48% wedi dewis eu bod naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf, 33% wedi dweud eu bod yn niwtral, a 19% wedi dewis eu bod naill ai'n anghytuno neu'n anghytuno'n gryf.

Ffigwr 10: Ymatebion i 'I ba raddau ydych chi'n cefnogi'r dull a ddilynwyd gennym yn ein Harfarniad Llesiant Integredig drafft?'




### 3.5.2 Dywedwch wrthym beth yw eich barn am ein Harfarniad Llesiant Integredig drafft neu gwnewch awgrymiadau eraill yma.

Ymatebodd 66 o gyfranogwyr i'r cwestiwn hwn. Amlinellir isod grynodeb lefel uchel o'r themâu allweddol a godwyd yn y sylwadau a dderbyniwyd mewn ymateb i'r Arfarniad Llesiant Integredig drafft. Darperir manylion ac ymatebion yn Atodiad 6.

Ffigwr 11: Themâu allweddol a godwyd gan ymatebwyr mewn ymateb i'r Arfarniad Llesiant Integredig drafft.




Hygyrchedd: Rhoddodd tri ymatebydd adborth ar y pwnc hwn, gan dynnu sylw at bwysigrwydd mynediad at wasanaethau teithio/trafnidiaeth, yn enwedig gan nad yw teithio llesol yn addas i bawb, a bod llesiant yn cael ei gynorthwyo gan fynediad da at wasanaethau.

Bws: Rhoddodd dau ymatebydd adborth ar y pwnc hwn gan dynnu sylw at yr angen am wasanaethau mwy aml a dibynadwy gyda gwasanaethau bysiau gwledig yn cael eu lleihau, ddim yn rhedeg ar adegau cyfleus a theithiau bws yn cymryd yn rhy hir i fod yn ddull amgen effeithlon.

Ymgynghoriad: Rhoddodd wyth ymatebydd adborth ar y pwnc hwn gan fynegi pryder/gwrthwynebiad i'r broses ymgynghori gyffredinol gan ystyried yn benodol bod diffyg ymgysylltiad cyffredinol wedi bod, yn enwedig gyda grwpiau lleiafrifol, a bod deunyddiau ymgynghori yn annigonol.

Datblygiad Economaidd: Derbyniwyd un ymateb ar y pwnc hwn ynglŷn â chysylltedd, yn mynegi cefnogaeth i ailagor maes awyr Ynys Môn.

Galluogi newidiadau mewn ymddygiad teithio: Derbyniwyd un ymateb ar y pwnc hwn yn mynegi cefnogaeth i Bolisi CB10 a CB11, yn trafod yn benodol yr angen i gynnwys addysg ar gyfer sefydliadau a all wneud gwahaniaeth i ddiwylliant ac agwedd preswylwyr.

Yr Amgylchedd: Derbyniwyd tri ymateb ar y pwnc hwn gan gynnwys cais i adael i dir ar ymylon ffyrdd dyfu'n wyllt. Mynegodd sylwadau hefyd wrthwynebiad i gynnwys yr IWBA.

Cyffredinol: Rhoddodd 42 ymatebydd adborth ar y pwnc hwn yn bennaf yn mynegi cefnogaeth gyffredinol neu wrthwynebiad/pryder am yr IWBA. Roedd sylwadau cefnogol cyffredinol o'r farn bod yr IWBA yn annog y defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus a gwella iechyd trwy gerdded a beicio ac yn cefnogi agwedd y cynlluniau i roi lles yr amgylchedd a'r boblogaeth wrth wraidd y cynllun. Roedd y rhai a gyflwynodd wrthwynebiad i'r cynllun o'r farn nad yw'n diwallu anghenion llesiant pobl leol a'i fod yn methu ag asesu materion anymarferol trafnidiaeth neu unrhyw sgil-effeithiau ar gymunedau lleol wrth ddatblygu isadeiledd ffyrdd. Mae'r gwrthwynebiad arall yn fwy cyffredinol gan ystyried nad yw'r cynllun yn angenrheidiol/defnydd o arian cyhoeddus, nad yw'n gweithio i ardaloedd gwledig, gyda'r syniadau a gyflwynir yn rhai 'gwrth-fodurwyr'. Trafodwyd datblygu polisi a heriau

trafnidiaeth presennol yma hefyd gydag integreiddio a llesiant yn cael eu dynodi'n bwysig i ddatblygu cynigion ymhellach.

Integreiddio rhwng dulliau teithio**:** Derbyniwyd un ymateb ar y pwnc hwn yn tynnu sylw at yr angen i gydweithio â darparwyr bysiau, coetsis a threnau a hefyd gyda chwsmeriaid presennol a darpar gwsmeriaid i gynllunio integreiddio'n effeithiol a symud i ffwrdd o ddefnyddio ceir.

Uchelgeisiau Rheilffyrdd**:** Rhoddodd chwech ymatebydd adborth ar y pwnc hwn gan awgrymu gorsafoedd neu lwybrau ychwanegol y dylid eu hychwanegu at y cynllun, yn enwedig Gorsaf Maes Glas, a'r angen am wasanaethau mwy aml a dibynadwy.

Ffyrdd, Strydoedd a Pharcio**:** Rhoddodd pedwar ymatebydd adborth ar y pwnc hwn gyda rhai yn awgrymu mai gwella cysylltiadau ffyrdd a phwyntiau tagfeydd ledled y rhanbarth yw prif ofyniad y cynllun, tra bod eraill yn pwysleisio'r angen nad yw adeiladu ffyrdd newydd yn effeithiol ac y dylid mynd i'r afael â materion cynnal a chadw parhaus yn gyntaf.

| | Mae rhai ymatebwyr yn awgrymu y dylai Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol Rhif 9 (Integreiddio â gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus strategol: Gwell mynediad i Orsaf Rhiwabon a Gorsaf Gwersyllt), gael ei restru ar wahân, gan eu bod ar wahanol leiniau ac y byddant yn cael eu cyflawni ar wahân. | Mae'r newid hwn wedi'i wneud i'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol ar ôl ymgysylltu â Thrafnidiaeth Cymru ar y mater hwn. |

| Thema | Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad | Ymateb |
|---|---|---|
| | Mae rhai ymatebwyr yn tynnu sylw at yr angen am gysylltiadau cryf parhaus â Llundain a Gogledd-orllewin Lloegr fel blaenoriaeth yn y tymor hir i gysylltu pobl ymlaen o Ddulyn ac ar gyfer teithio busnes i'r rhai sy'n dewis preswylio ar yr Ynys [Ynys Môn] a byddai'n werthfawr iawn ar gyfer 'gweithio hybrid'. Yn hyn o beth, ymddengys bod Polisi PF1 yn groes i hyn lle mae'r polisi yn hyrwyddo blaenoriaethu cysylltiadau trafnidiaeth cynaliadwy â Chaergybi, ond nid yw'n ymddangos bod yr uchelgais i wella seilwaith yn ymestyn y tu hwnt i Gyffordd Llandudno. Yn yr un modd, nid yw cost teithio ar y trên (a gynyddwyd yn ddiweddar gan Trafnidiaeth Cymru) a'r diffyg gwasanaethau stopio yn y rhan fwyaf o orsafoedd ar Ynys Môn yn annog defnydd rheolaidd dros geir preifat. | Mae Trafnidiaeth Cymru wedi cytuno bod uchelgais i flaenoriaethu Crewe i Gyffordd Llandudno yn gywir gan mai dyna lle mae'r achos busnes ar ei gryfaf a byddai'n rhoi manteision i'r lein gyfan i Gaergybi. Mae Trafnidiaeth Cymru yn cydnabod bod y rhan(nau) i Gaergybi yn fwy heriol, ac mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol wedi'i ddiweddaru i gydnabod bod Bangor a Chaergybi yn ddyheadau tymor hwy gyda'r bwriad o archwilio rhaglen fforddiadwy o uwchraddio. |

| Thema | Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad | Ymateb |
|---|---|---|
| | Mae rhai ymatebwyr o'r farn bod diffyg ymrwymiad i ddiogelu'r hen aliniad rheilffordd o Benyffordd i'r Wyddgrug rhag datblygu - manylwyd ar hyn  yn 'Ehangu'r Rhwydwaith Rheilffyrdd'9, sef yr Ymgyrch dros Drafnidiaeth Well yn 2019 - ble nodwyd bod y rheilffordd yn deilwng o gael blaenoriaeth i gael ei hailagor- gan weld bod hyn wedi'i hepgor yn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol drafft. Mae rhai ymatebwyr yn awgrymu diffyg synergedd â Llwybr Newydd mewn perthynas ag ailddefnyddio leiniau rheilffordd segur. Cyfeiriodd un rhanddeiliad at y cyfle i ased Lein Amlwch gael ei ddefnyddio, gan awgrymu y gallai ailddefnyddio asedau rheilffyrdd segur (i'w defnyddio yn y dyfodol) greu economi ymwelwyr gadarnhaol ac ased cymunedol o'u hailagor. | Nid yw Trafnidiaeth Cymru yn ymwybodol o unrhyw ddyheadau na gwaith sy'n cael ei wneud i ailagor yr hen aliniad rheilffordd o Benyffordd i'r Wyddgrug - a fyddai'n gynllun hirdymor y byddai angen uwchraddio signalau cyfan Lein y Gororau i gyflawni uwchraddiadau pellach. Ond, rhannwyd y sylw hwn â swyddogion cynllunio defnydd tir gyda'r bwriad o ystyried y pwynt fel rhan o'r Cynllun Datblygu Strategol a Chynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint. Argymhellodd Comisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru (NWTC) ddiogelu hen leiniau rheilffordd rhag cael eu datblygu yn y dyfodol, a datblygu llwybrau cerdded a beicio ar eu hyd lle bo hynny'n briodol, gyda gwasanaethau bws o ansawdd uchel i'r cymunedau ochr yn ochr â nhw, sy'n gyson â'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol. Cydnabu'r NWTC fod rhywfaint o ddiddordeb mewn adfer rheilffyrdd Amlwch – Gaerwen a Bangor – Porthmadog a daeth i'r casgliad nad dyma'r defnydd mwyaf effeithiol o arian cyhoeddus o'i gymharu â'r argymhellion eraill. Fodd bynnag, lle nad yw'r datblygiad wedi digwydd eisoes, mae'n ddoeth diogelu llwybrau rheilffordd blaenorol ar draws y rhanbarth. Roedd yn cefnogi creu cyswllt teithio llesol rhwng Amlwch a Llangefni yn unol â newid dulliau teithio carbon isel, teithio i'r gwaith a hamdden. Yn ogystal, argymhellodd y dylid cyflwyno llwybrau bysiau, wedi'u hintegreiddio â'r rhwydwaith rheilffyrdd, ar hyd coridorau Amlwch – Gaerwen a Bangor – Porthmadog. Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn nodi bod cyfle hefyd, mewn ardaloedd mwy gwledig, i ddefnyddio hen leiniau rheilffordd ar gyfer teithio llesol a threfi cysylltu - dylid eu harchwilio fel mesurau ategol i ddarparu'r Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol. |

| Thema | Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad | Ymateb |
|---|---|---|
| | Mae rhai ymatebwyr yn awgrymu bod angen ailagor mwy o leiniau trenau a gorsafoedd, gan nodi’n benodol:<br>• Bangor i Gaernarfon<br>• Pwllheli i Fangor<br>• Lein Nant Conwy<br>• Gorsafoedd Porthaethwy, Plas Menai a/neu Gaerwen<br>• Gorsafoedd Johnstown, Gresffordd a Marford<br>• Lein ddolen o Lefel Uchel Shotton i Lein Ganol Gogledd Cymru (a fyddai hefyd yn caniatáu ar gyfer gwasanaethau trawsffiniol i Birmingham)<br>• Trenau uniongyrchol o Gaergybi i Lime Street drwy Halton Curve (mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn nodi bod gwasanaeth rheilffordd uniongyrchol i Lerpwl, ond nid yw hyn yn wir ar Brif Lein Gogledd Cymru)<br>• Gorsaf yng Nglannau Dyfrdwy (i leihau traffig i'r gwaith)<br>• Bangor i Afon Wen<br>• Bangor i Langefni<br>• Amlwch<br>• Amwythig – Wrecsam – Caer<br>• Y Waun – fel Gorsaf Borth (Polisi IN1) | Mae'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cynnwys cynlluniau awdurdodau lleol sy'n ceisio gwella’r cysylltiad â gwasanaethau rheilffyrdd, er enghraifft gorsaf newydd ar gyfer Parc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy (datblygu gorsaf reilffordd newydd gyda llwybr bws cysylltiol) ochr yn ochr â dyheadau ar gyfer Amwythig, Wrecsam a Chaer. Lle mae achos cryf dros orsafoedd neu seilwaith rheilffyrdd newydd a fydd yn gwella mynediad i'r rhwydwaith rheilffyrdd heb effeithio'n andwyol ar wasanaethau presennol ac yn annog teithio cynaliadwy, bydd Trafnidiaeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu'r rhain. Bydd y gwaith hwn hefyd yn ystyried opsiynau ehangach ar gyfer cysylltu cymunedau yn well â gorsafoedd rheilffordd. |

| Thema | Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad | Ymateb |
|---|---|---|
| Uchelgeisiau ffyrdd strategol | Mae rhai ymatebwyr yn awgrymu y gallai fod angen newid Dyhead SRN 3 sy'n darllen yn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol drafft "Dylai’r achos dros gyflwyno detholiad o gynlluniau priffyrdd strategol a oedwy", sy'n awgrymu bod cynlluniau y cyfeirir atynt wedi'u canslo gan Lywodraeth Cymru (fel rhan o'i Hadolygiad Ffyrdd).<br><br>Mae rhai ymatebwyr yn awgrymu ei bod yn ddryslyd cael SRN3 a RS1, cynnal a chadw asedau priffyrdd presennol, nad yw'n sôn am yr angen posibl am wella’r rhwydwaith priffyrdd.<br><br>Mae rhai ymatebwyr yn tynnu sylw at yr angen i gynlluniau gael eu hadolygu trwy lens yr egwyddorion a nodir gan Adroddiad Adolygu Ffyrdd Cymru: Dyfodol buddsoddiad ffyrdd yng Nghymru. | Rhoddodd y Panel Adolygu Ffyrdd gyngor i Lywodraeth Cymru ar brosiectau ffyrdd a sut y dylem ystyried prosiectau ffyrdd yn y dyfodol. Mae Llywodraeth Cymru yn fodlon â'r drafftio presennol ac mae Dyhead SRN 3 yn cynnwys adolygiad o gyflawni rhai cynlluniau priffyrdd strategol, yn enwedig y rhai a all ddarparu manteision ehangach a gwella cyfleusterau. Mae hyn yn awgrymu canolbwyntio ar ail-werthuso prosiectau a dewisiadau amgen a allai gynnig gwelliannau sylweddol i'r rhwydwaith trafnidiaeth.<br><br>Mae'r Rhwydwaith Ffyrdd Strategol (SRN) yng Ngogledd Cymru yn cael ei reoli a'i gynnal gan Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru a Llywodraeth Cymru, tra bod y rhwydwaith priffyrdd lleol – yn adran 'ffyrdd, strydoedd a pharcio' y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol - yn gyfrifoldeb i'n hawdurdodau lleol. Mae gwelliannau yn canolbwyntio mwy ar wydnwch y rhwydwaith yn hytrach na chapasiti. |

| Thema | Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad | Ymateb |
|---|---|---|
| | Mae rhai ymatebwyr yn ystyried adeiladu mwy o gynlluniau cefnffyrdd ac ni fyddai trydedd pont dros y Fenai yn annog unrhyw newid mewn ddulliau teithio i ffwrdd o ddefnydd ffyrdd. Mae rhai o'r farn y byddai cynllun trydedd bont y Fenai yn gamgymeriad (heb eglurhad). Mynegodd eraill gefnogaeth i welliannau o'r fath, gan ystyried ei fod yn gyfle i Ynys Môn a Gogledd-orllewin Cymru ddatrys her drafnidiaeth ac economaidd. Mae rhai yn pwysleisio bod dyheadau ar gyfer newid isadeiledd trawsnewidiol gyda thrydedd pont y Fenai yn hanfodol i gadernid coridor yr A55 (llwybr Euro-22) - sef prif wythïen trafnidiaeth rhanbarth Gogledd Cymru ar gyfer cysylltedd rhyngwladol ag Iwerddon. Mae rhai yn pwysleisio'r effeithiau andwyol y mae cau pontydd yn ei gael ar lesiant economaidd a chymdeithasol trigolion. | Mae'r Rhwydwaith Ffyrdd Strategol yng Ngogledd Cymru yn cael ei reoli a'i gynnal gan Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru a Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn golygu nad oes gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig nac awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru ddylanwad uniongyrchol ar y rhwydwaith ffyrdd strategol. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol hwn yn nodi dyheadau rhanbarthol ar gyfer ffyrdd strategol gan fod y rhain yn allweddol i gefnogi ein dyheadau ehangach ar gyfer cysylltedd ehangach i Ogledd Cymru. Mae Dyhead SRN 4 a 5 yn ymwneud â gwytnwch croesi’r Fenai, gan gefnogi achos dros drydedd bont a phecyn o ymyriadau gan gynnwys gwella isadeiledd trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol, allwyryddion gwynt, gwelliannau wrth gyffyrdd, a mesurau rheoli traffig.<br><br>Yn dilyn argymhellion Comisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru, mae Llywodraeth Cymru wedi bwrw ymlaen â'r gwaith ar yr argymhellion blaenoriaeth uchaf gan gynnwys gwelliannau i gyffyrdd ac aliniadau ffyrdd cerbydau, cyflwyno gwyfeirwyr gwynt i Bont Britannia a gwelliannau ar gyfer cerdded a beicio. Mae'r astudiaeth hon bellach yn agosáu at ei chwblhau, a bydd yn gallu penderfynu a chyhoeddi manylion yr opsiynau a ffafrir a'r camau datblygu nesaf yn haf 2025. Nid yw hyn yn diystyru trydedd bont yn y dyfodol, ond mae Llywodraeth Cymru o'r farn y gellid gwneud mwy yn y tymor byr i'r tymor canolig i wella gwytnwch y croesfannau presennol. |

| Thema | Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad | Ymateb |
|---|---|---|
| | Mae rhai ymatebwyr yn ystyried yr angen i uwchraddio ffordd osgoi Y Waun (A483) yn ffordd ddeuol i gyd-fynd â gweddill yr ardal, gyda gormod o draffig yn ffurfio trwy gydol y dydd oherwydd y darn sy’n ffordd sengl. | Ar hyn o bryd nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw gynlluniau i ddeuoli'r A483 yn y Waun. Bydd strategaethau rheoli llwybrau ar gyfer llwybrau strategol yn cael eu datblygu yng Nghymru gan ddechrau gyda'r A55 a'r M4 gydag ystyriaethau a chynllunio rhan o’r gwaith hwn yn y dyfodol a fydd yn ystyried ymgorffori cynigion RTP. |
| | Mae llawer o ymatebwyr yn gwrthwynebu Coridor yr A494/A55/Sir y Fflint (y cyfeirir ato'n gyffredin fel y 'Llwybr Coch' mewn ymatebion) sy’n rhan o ddyheadau SRN y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol drafft. Mae llawer yn mynegi y dylid ailystyried cyfeirio ato /ei gynnwys yn y cynlluniau, yn aml yn nodi na fydd yn helpu i leihau tagfeydd ond y bydd yn cael effaith amgylcheddol negyddol sylweddol (gyda chyfeiriadau penodol at fywyd gwyllt, coetir hynafol a pherygl llifogydd). Dylid nodi bod rhai ymatebwyr yn mynegi cefnogaeth i wella ffyrdd, yn enwedig gan gyfeirio at y Llwybr Coch (ond gyda mwy o sylwadau yn gwrthwynebu nag yn cefnogi oherwydd ymgyrch mewn cysylltiad ag Ymddiriedolaethau Natur Cymru). Mae rhai yn codi pryderon nad oes unrhyw ystyriaeth o Ddyhead SRN 3 a 4 (rhai yn cyfeirio'n benodol at y Llwybr Coch) yn erbyn Sero Net a thargedau hinsawdd. | Mae'r Rhwydwaith Ffyrdd Strategol yng Ngogledd Cymru yn cael ei reoli a'i gynnal gan Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru a Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn golygu nad oes gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig nac awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru ddylanwad uniongyrchol ar y rhwydwaith ffyrdd strategol. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol hwn yn nodi dyheadau rhanbarthol ar gyfer ffyrdd strategol gan fod y rhain yn allweddol i gefnogi ein dyheadau ehangach ar gyfer cysylltu Gogledd Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn fodlon â'r drafftio presennol ac mae Dyhead SRN 3 yn cynnwys adolygiad o gyflawni rhai cynlluniau priffyrdd strategol, yn enwedig y rhai a all ddarparu manteision ehangach a gwella cyfleusterau. Mae hyn yn golygu ail-werthuso prosiectau a dewisiadau amgen a allai gynnig gwelliannau sylweddol i'r rhwydwaith trafnidiaeth. Nid |

| Thema | Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad | Ymateb |
|---|---|---|
| | Mae rhai ymatebwyr yn croesawu'r bwriad i ddisodli Pont Afon Dyfrdwy ond yn codi pryderon am ddiffyg cydlyniant parhaus yn y rhwydwaith cyfagos. Credir y gallai'r cynllun gynnig cyfleoedd i wella gwytnwch y system priffyrdd yn y lleoliad hwn, yn enwedig ar gyfer traffig tua'r gorllewin. | rôl Uchelgais Gogledd Cymru yw pwyso am y Llwybr Coch, fodd bynnag, swyddogaeth y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yw darparu opsiynau i ymdrin â phroblemau sy'n ymwneud â thrafnidiaeth ar yr SRN drwy Sir y Fflint, Gogledd Cymru a thu hwnt. Mae'r pwynt hwn wedi'i egluro'n fanylach gyda diweddariadau i'r cynlluniau.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru'n cadarnhau nad yw'n bwrw ymlaen â Gwelliannau i Goridor Sir y Fflint A55/A494/A548 ar hyn o bryd yn dilyn argymhellion y Panel Adolygu Ffyrdd. Mae'r Llywodraeth yn y broses o gomisiynu gwaith i ddatblygu Strategaeth Llwybr ar gyfer yr A55/A494 fydd yn tynnu sylw at yr heriau a'r problemau ar hyd y coridor, gydag ymyraethau posib i ymdrin â nhw. |
| | Mae rhai ymatebwyr yn awgrymu bod y newid canlynol yn cael ei wneud i Welliannau Trafnidiaeth Llanbedr: Mae Cyngor Gwynedd yn cydweithio â phartneriaid i nodi pecyn o atebion trafnidiaeth gynaliadwy i wella mynediad a lliniaru problemau trafnidiaeth yn Llanbedr. Mae hyn yn symud ymlaen drwy'r broses WelTAG yn unol ag Adolygiad Ffyrdd 2021. | Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol wedi'i ddiweddaru i wneud y newid hwn. |

| Thema | Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad | Ymateb |
|---|---|---|
| | Mae rhai ymatebwyr yn cwestiynu sut y bydd yr A55 o Lanfairfechan i Landudno yn cael ei gwella ac yn cwestiynu a fydd unrhyw newidiadau i gynigion yr A494 o ystyried materion tir sensitif a phrynu tai. | Mae'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cynnwys nifer o gynlluniau sy'n ceisio gwelliannau ar hyd yr A55 a chynllun i nodi a gweithredu cysylltiadau teithio llesol lleol mewn cysylltiad â Phont Afon Dyfrdwy.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau bod Adnewyddu Pont Afon Dyfrdwy ar yr A494 yn dal i fwrw ymlaen gydag opsiwn a ffafrir i'w gyhoeddi yn yr haf 2025. Bydd hyn yn cynnwys llwybr teithio llesol yn gyfochrog â'r A494 gyda chysylltiadau â rhwydweithiau teithio llesol eraill yn yr ardal. Fel rhan o'r broses statudol, mae disgwyl i Orchmynion drafft a Datganiad Amgylcheddol gael eu cyhoeddi yn Hydref 2025 a fydd yn nodi'r tir sydd ei angen ar gyfer y cynllun. Gellir cynnal Ymchwiliad Lleol Cyhoeddus yn dibynnu ar natur yr ymatebion/gwrthwynebiadau a dderbyniwyd. |
| | Mae rhai ymatebwyr yn tynnu sylw at yr angen i uwchraddio'r ffordd rhwng y Cross Foxes i Fachynlleth trwy Corris, gan fynegi rhwystredigaeth nad yw'r gwaith ar gynnal a chadw yn ddigon. | Mae'r sylw hwn yn ymwneud â chefnffordd yr A487, sy'n gyfrifoldeb i Lywodraeth Cymru ac sy'n cael ei chynnal a'i chadw gan Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru. |

| Thema | Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad | Ymateb |
|---|---|---|
| | Mae rhai ymatebwyr yn croesawu'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol sy'n cefnogi gwaith i adolygu'r llwybrau allweddol a fydd yn helpu i leddfu tagfeydd, er yn awgrymu y gallai diffyg cyllid a ddyrannwyd i wella ffyrdd arwain at beidio â bwrw ymlaen â llawer o'r prosiectau. Mae rhai ymatebwyr o'r farn ei bod yn hanfodol bod y cynlluniau yn ceisio gwella cysylltiadau ffyrdd ar draws y rhanbarth gyda'r farn bod trigolion yn annhebygol o feicio neu gymryd y bws os oes ganddynt geir, yn enwedig yn ystod tagfeydd yn yr Haf. Sonnir yn benodol bod angen buddsoddiad pellach ar yr A55 i leihau problemau tagfeydd, yn enwedig gwella Cyffyrdd 14 i 16 – nodir bod hyn angen ei flaenoriaethu yn dilyn cynlluniau sydd wedi'u stopio, oherwydd bod y cylchfannau yn achosi rhwystrau mawr, yn debyg i gyfyngiad Pontydd y Fenai. Soniodd ymatebwyr eraill hefyd y bydd materion amgylcheddol mewn pentrefi yn parhau heb ffyrdd newydd. Mae rhai ymatebwyr eraill yn mynegi gwrthwynebiad i unrhyw ffyrdd newydd. | Fel yr amlinellir yn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, mae ffyrdd yng Ngogledd Cymru yn cael eu cynnal a'u cadw gan Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru a Llywodraeth Cymru sy'n golygu nad oes gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig nac Awdurdodau Lleol ddylanwad uniongyrchol ar y rhwydwaith ffyrdd strategol. Fodd bynnag, mae'r dyheadau polisi a amlygwyd yn yr adrannau 'Rhwydwaith Ffyrdd Strategol' ac adrannau 'Ffyrdd, Strydoedd a Pharcio' y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, yn tynnu sylw at sut y bydd y cynllun yn parhau i sicrhau bod llwybrau'n parhau i fod yn ddiogel ac yn ddibynadwy (SRN1/RS1), yn ogystal â sut y gellir gwella'r rhwydwaith ffyrdd i wella cyfleusterau ar gyfer teithio cynaliadwy (SRN3/RS6). Mae SRN3 yn esbonio y bydd rhai cynlluniau priffyrdd, sydd ar stop, yn cael eu hadolygu lle gallant helpu i fynd i'r afael â thagfeydd a chefnogi dyheadau ehangach ar gyfer trafnidiaeth gynaliadwy. Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol wedi'i ddiweddaru i wneud hyn yn gliriach.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau ei bod wedi comisiynu astudiaeth (WelTAG 1 a 2) i ystyried heriau gweithredol y rhwydwaith, gwytnwch a diogelwch ar y ffyrdd rhwng Cyffyrdd 14 a 18 ar yr A55. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn comisiynu gwaith i ddatblygu Strategaeth Llwybr yr A55/A494. |
| Galluogi newidiadau i ymddygiad teithio | Mae rhai ymatebwyr yn nodi'r angen am newidiadau i'r Cod Priffyrdd ynghylch hierarchaeth defnyddwyr y ffordd i helpu i wneud newid cadarnhaol i bobl sy'n teithio mewn ffyrdd eraill ar wahân i gar. Awgrymir yr ymgyrchoedd cenedlaethol CLOCS a Kerbcraft hefyd fel ffordd o godi ymwybyddiaeth, yn enwedig mewn ysgolion. | Er bod newidiadau i'r Cod Priffyrdd y tu allan i gylch gwaith Uchelgais Gogledd Cymru a'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, mae wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu'r angen am wybodaeth dda i helpu pobl i wneud dewisiadau teithio cynaliadwy a diogel. |

| Thema | Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad | Ymateb |
|---|---|---|
| | Mae rhai ymatebwyr yn cefnogi'r cynigion i hyrwyddo a hwyluso mwy o weithio o bell, ac mae rhai yn cyfeirio at yr enghraifft dda o ddatblygu mannau gweithio cydweithredol fel y rhai a ddarperir yn M-SParc. Awgrymir y gallai cyfleoedd 'desg boeth' a rhwydweithio helpu i fynd i'r afael â rhai o heriau gweithio gartref / o bell yn ogystal â hyrwyddo cydweithredu, arloesi ac entrepreneuriaeth, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Awgrymir hefyd bod hyn yn arbennig o bwysig i gefnogi busnesau micro a bach sy'n rhan allweddol o'r economi ranbarthol. | Mae Cynllun Twf Gogledd Cymru, drwy brosiect Egni gyda Phrifysgol Bangor, yn canolbwyntio ar ddatblygu Canolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel ym Mhrifysgol Bangor ac M-Sparc. Bydd hyn yn gwella gallu'r rhanbarth i ymchwilio, dylunio ac arloesi ym maes ynni carbon isel a bydd yn darparu cyfleoedd ar gyfer ymchwil bellach, datblygu cadwyn gyflenwi a gwneud Gogledd Cymru yn ddeniadol ar gyfer cyfleoedd mewnfuddsoddi. Mae gwella capasiti yn M-Sparc yn greiddiol i'r prosiect hwn a bydd yn hwyluso mwy o gydweithio ar draws busnesau a'r gymuned ehangach. |
| | Mae rhai ymatebwyr yn cefnogi'r cynigion ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd ac ymgyrchoedd i rannu gwybodaeth, ymwybyddiaeth a helpu i fynd i'r afael â rhwystrau sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth. Mae eraill yn awgrymu bod yn rhaid i'r math hwn o weithgaredd gael ei adeiladu o amgylch naratif cydlynol a negeseuon cyson ar draws y rhanbarth, bod yn berthnasol i bobl, a'u cymell i wneud penderfyniadau mwy cynaliadwy. Mae rhai yn awgrymu y bydd hyn yn gofyn am ymrwymiad sylweddol o ran amser ac adnoddau, a bydd angen ei gydlynu'n effeithiol i sicrhau effaith. | Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cydnabod bod darparu'r isadeiledd a'r gwasanaethau sy'n caniatáu i bobl wneud dewisiadau teithio cynaliadwy yn bwysig ond, er mwyn i hyn fod yn effeithiol, mae'n rhaid i bobl fod yn ymwybodol ohonynt a'r manteision o'u defnyddio. Mae ymgyrchoedd marchnata a chyfathrebu yn hanfodol ac yn gallu cael eu teilwra i ganolbwyntio ar grwpiau defnyddwyr targed penodol, megis trigolion a defnyddwyr hamdden, cymudwyr, pobl ifanc, neu bobl hŷn. Bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn gweithio gydag arbenigwyr cyfathrebu a sefydliadau partner i helpu i sicrhau bod ganddo'r sgiliau a'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni ei gynlluniau. |
| | Mae rhai ymatebwyr yn ystyried y cyfle i addysg wneud gwahaniaeth i ddiwylliant ac agweddau trigolion, gan gynnwys addysg sy'n seiliedig ar drafnidiaeth mewn ysgolion. | Roedd y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cydnabod pwysigrwydd darparu dewisiadau i bobl ynglŷn â sut maen nhw'n cael mynediad at addysg, a bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol i gefnogi addysg sy'n seiliedig ar drafnidiaeth. |

| Thema | Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad | Ymateb |
|---|---|---|
| | Mae rhai ymatebwyr yn awgrymu hyrwyddo teithio i grwpiau penodol, gan gynnwys twristiaid neu berchnogion tai newydd. | Bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn gweithio gyda rhanddeiliaid fel y bo'n briodol i helpu i nodi a hyrwyddo dulliau arloesol o annog dewisiadau trafnidiaeth gynaliadwy. Perthnasol yw Polisi CB14 (ymgyrchoedd marchnata a chyfathrebu) a Pholisi CB15 (gweithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid yn y sector twristiaeth i ymchwilio i ddulliau o annog ymwelwyr â Gogledd Cymru i deithio'n gynaliadwy). |
| | Mae rhai ymatebwyr yn tynnu sylw at yr angen i drafnidiaeth gyhoeddus fod yn fwy fforddiadwy er mwyn cynyddu nifer yr ymwelwyr. | Mae fforddiadwyedd yn thema drawsbynciol yn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn gweithio gyda rhanddeiliaid i helpu i wella mynediad at drafnidiaeth gynaliadwy fforddiadwy. |
| | Mae rhai ymatebwyr yn tynnu sylw at Bolisi CB23 (Bydd dull partneriaeth yn cael ei gymryd i ddatblygu cynllun ar gyfer gwella gwasanaethau rheilffyrdd yng Ngogledd Cymru sy'n cefnogi'r economi ymwelwyr yn well) fel un sy'n bwysig yn y ffordd y mae ymwelwyr yn dod i'r ardal. Ond, maent yn awgrymu bod angen ystyried opsiynau teithio ymlaen, storio bagiau, systemau gwybodaeth a storio beiciau fel sy'n bodoli yn y rhan fwyaf o wledydd eraill lle mae rheilffyrdd yn ffordd gyffredin o deithio. | Er mai ategol yw polisïau'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol eraill, er enghraifft Polisi DC3 (bydd dull partneriaeth yn cael ei gymryd i gyflwyno gwybodaeth ddigidol ac amser real ynghylch gwasanaethau cludiant cyhoeddus, gan flaenoriaethu arwyddion digidol mewn cyfnewidfeydd cludiant allweddol, gan weithio tuag at wybodaeth amser real mewn safleoedd bws ledled gogledd Cymru) a PT8 (safleoedd bws allweddol, megis y rhai mewn canolfannau pentref, rhai lle mae llawer o ddefnydd ohonynt, a'r rhai lle mae cyfnewid rhwng dulliau trafnidiaeth yn gyffredin, yn cael ei flaenoriaethu ar gyfer gwelliannau...), mae Polisi CB23 wedi'i ddiweddaru (Bydd dull partneriaeth yn cael ei gymryd i ddatblygu cynllun ar gyfer gwelliannau pellach i wasanaethau rheilffordd yng Ngogledd Cymru sy'n cefnogi'r economi ymwelwyr yn well), a hynny i egluro'n gliriach cefnogaeth Uchelgais Gogledd Cymru i alluogi darpariaethau mewn cysylltiad â gwasanaethau cludiant cyhoeddus. |

| Thema | Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad | Ymateb |
|---|---|---|
| | Mae rhai ymatebwyr yn croesawu Polisi CB16 (Ceisir cyfleoedd i gefnogi'r economi ymwelwyr drwy reoli parcio bysiau a chartrefi modur ar safleoedd addas yn agos at atyniadau yng Ngogledd Cymru. Dylai hyn ystyried cyfleoedd codi tâl ar gyfer cerbydau dim allyriadau) - ond gan argymell geiriad ychwanegol i'r polisi hwn yn unol â'r canlynol: Cytunir bod angen rheoli parcio bysiau a chartrefi modur, ond bydd angen i'r dewis o safleoedd newydd ystyried lleoliadau sy'n osgoi effeithiau niweidiol, megis ar Rinweddau Arbennig Parc Cenedlaethol Eryri, a bod yn unol â pholisïau'r Cynllun Datblygu. | Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol wedi'i ddiweddaru i wneud y newid hwn. |
| | Mae rhai ymatebwyr yn awgrymu gwneud Polisi CB18 yn fwy eglur, drwy gynnwys cyfeiriad at ehangu capasiti parcio a theithio mewn lleoliadau 'porth' sy'n gwasanaethu'r Wyddfa a Dyffryn Ogwen, ynghyd â gostyngiad graddol yn y ddarpariaeth barcio presennol ar hyd ffyrdd trwy'r amgylchedd mynyddig hynod sensitif. | Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol wedi'i ddiweddaru i wneud y newid hwn. |
| | Mae rhai o'r farn nad yw'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn darparu unrhyw eglurder ar sut y bydd ymyriadau i newid ymddygiad yn cyflawni'r newid mewn dulliau teithio y cyfeirir ato. | Mae'r Cynllun Monitro a Gwerthuso yn nodi cyfres o fesurau a dangosyddion i helpu i ystyried cynnydd tuag at dargedau a nodwyd. Mae polisïau ac ymyriadau sy'n seiliedig ar newid ymddygiad y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn ceisio cyfrannu at helpu i gyflawni'r targedau hynny. |
| | Mae rhai ymatebwyr yn awgrymu polisïau sy'n gwneud defnydd ceir yn ddrytach ar adegau ac mewn mannau lle mae'r defnydd o ffyrdd yn drwm. Gyda natur wledig yr ardal yn golygu bod codi tâl am dagfeydd yn annhebygol o fod yn ateb effeithiol, dylid ystyried codi tâl am barcio yn y gweithle, er enghraifft. | Mae'r ffocws allweddol yn ein cynigion ar roi mwy o ddewis i bob grŵp o bobl ynghylch pryd a sut maent yn teithio. Ar hyn o bryd nid oes gan Uchelgais Gogledd Cymru unrhyw gynlluniau i gyflwyno polisi ar gyfer codi tâl ar ddefnyddwyr ffyrdd na chodi tâl am barcio yn y gweithle. |

| Thema | Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad | Ymateb |
|---|---|---|
| | Mae rhai ymatebwyr yn ystyried yr angen i wella mynediad at fysiau a threnau er mwyn atal ynysu, gan nodi materion gan gynnwys:<br>• Problemau gwelededd wrth groesfan i gyrraedd arosfannau a gorsafoedd<br>• Pellteroedd stopio o'r palmentydd sy'n ei gwneud hi'n anoddach mynd ar ac oddi ar fysiau<br>• Trenau newydd sydd â grisiau uwch i fynd ymlaen ac oddi arnynt, yn ogystal â phellter o ymyl y platfform<br>• Nid yw bysiau lleol yn hygyrch mewn cadair olwyn | Mae Uchelgais Gogledd Cymru wedi ymrwymo i wneud trafnidiaeth gyhoeddus yng Ngogledd Cymru yn decach ac yn hygyrch i bawb. Mae Polisi Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol PT10 yn enghraifft, lle byddwn yn gweithio gyda phartneriaid gan gynnwys awdurdodau lleol a chwmnïau i wneud teithio ar fws yn fwy hygyrch i bobl â symudedd cyfyngedig neu anableddau. Bydd Uchelgais Gogledd Cymru hefyd yn gweithio gyda Trafnidiaeth Cymru i helpu i sicrhau bod gwasanaethau rheilffyrdd a gorsafoedd yn hygyrch. |
| | Mae rhai ymatebwyr yn ystyried y dylid rhoi mwy o bwysigrwydd ar greu llwybrau beicio diogel, yn enwedig o amgylch ysgolion. Mae rhai ymatebwyr o'r farn y dylai trenau a bysiau cyhoeddus fod yn rhan o drafnidiaeth ysgol, fel bod myfyrwyr yn dod yn gyfarwydd â defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Mae rhai ymatebwyr yn pryderu y byddai refeniw yn cael ei arbed trwy stopio bysiau ysgol yn sgil hyrwyddo a gwella llwybrau teithio llesol, gan arwain at fwy o ddefnydd o geir preifat. | Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cynnwys polisïau sy'n canolbwyntio ar roi dewisiadau i bobl ynglŷn â sut maen nhw'n cael mynediad at wasanaethau, gan gynnwys ysgolion ac addysg. Mae'r rhain yn ceisio helpu i sicrhau y rhoddir blaenoriaeth i gynlluniau a gwasanaethau ariannu sy'n gwella mynediad cynaliadwy (Polisi CB8), mynd ar drywydd contract gwasanaethau cyfan i gyfuno gwasanaethau i ddarparu gwell gwasanaeth i'r cyhoedd ac i leihau dyblygu adnoddau (Polisi CB9), a rhoi dewisiadau i bobl ynghylch sut y maent yn cael mynediad at addysg (Polisïau CB10, 11 a 12). |

| Thema | Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad | Ymateb |
|---|---|---|
| Bws | Er bod rhai ymatebwyr yn teimlo bod y posibilrwydd o fasnachfreinio bysiau yn rhywbeth calonogol, mae rhai hefyd yn mynegi pryder gan nodi newidiadau i Wasanaethau TrawsCymru (T3) sy'n newid llwybrau ac amlder sy'n arwain at ostyngiad yn nifer y teithwyr. Mae ymatebwyr eraill yn tynnu sylw at y ffaith bod cyllid eisoes yn gostwng oherwydd diffyg galw am wasanaethau - nid yw'n glir sut y bydd masnachfreinio yn helpu heblaw arbed cost gyfalaf cerbydau i'r Senedd. Mae ymatebwyr eraill yn tynnu sylw at yr angen i weithredwyr bysiau llai gael lle yn y model newydd, i gynyddu dewis a thegwch. | Mewn cysylltiad â Pholisi Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol PT1 (gweithio gyda Trafnidiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru i gefnogi'r broses o gyflwyno masnachfreinio bysiau yng Ngogledd Cymru, a ddylai gynnwys cyllid aml-flwyddyn a fyddai'n rhoi sicrwydd i'r cyhoedd sy'n teithio, awdurdodau a gweithredwyr) - mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol wedi'i ddiweddaru i egluro y bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn gweithio gyda Trafnidiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru i helpu i gyflawni'r rhwydwaith gorau posibl i drigolion Gogledd Cymru a ddylai ddiwallu anghenion cymunedau.<br><br>Rydym hefyd yn cydnabod bod angen i Fusnesau Bach a Chanolig (SME) / gweithredwyr llai fod yn rhan o'r ateb ac na ddylid eu hanwybyddu gyda'r model masnachfreinio newydd.  Rydym hefyd yn cydnabod bod y busnesau bach a chanolig / gweithredwyr llai yn chwarae rhan bwysig wrth ddarparu cludiant o'r cartref i'r ysgol i awdurdodau lleol. |
| | Mae rhai ymatebwyr yn annog y cynlluniau i ystyried sut y gellid ystyried cyflenwi a dosbarthu hydrogen ar sail drawsffiniol ochr yn ochr â hybiau hydrogen yng Ngogledd Cymru, gan fanteisio ar brosiectau fel Hynet North West. Mae rhai ymatebwyr yn mynegi cefnogaeth i gerbydau sy'n cael eu pweru gan hydrogen, gan gyfeirio at sut mae hyn wedi'i ystyried yn y Cynlluniau Ynni Ardal Leol ar gyfer fflyd y cyngor a cherbydau nwyddau trwm. | Er bod y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cydnabod bod hydrogen yn ateb posibl i ddatgarboneiddio'r fflyd fysiau (Polisi PT3) a cherbydau nwyddau trwm allyriadau isel (Polisi PF4), bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn ystyried y cyfleoedd ehangach gyda rhanddeiliaid. Bydd hyn yn cael ei gynnwys fel rhan o Strategaeth Ynni Gogledd Cymru, sydd wedi cael mwy o ystyriaeth fel rhan o ddiweddaru’r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol. |

| Thema | Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad | Ymateb |
|---|---|---|
| | Mae rhai ymatebwyr yn tynnu sylw at rwystredigaethau pan fydd llwybrau bysiau yn cael eu rhedeg gan wahanol gwmnïau ac nid yw amserlenni'n cyd-fynd. Pe bai hyn yn cael ei wella, credir y byddai'r defnydd yn cynyddu. Mae rhai yn dweud bod hyn yn bryder neilltuol ac yn gyfle arbennig mewn ardaloedd gwledig, lle gall pobl gael eu hallgau'n gymdeithasol trwy ddiffyg opsiynau trafnidiaeth. | Mae ein cynlluniau ar gyfer teithio ar fws yn cael eu hystyried o fewn cyd-destun y rhwydwaith bysiau arfaethedig ledled Cymru yn y dyfodol  mae Trafnidiaeth Cymru wrthi'n ei ddatblygu fel rhan o gynigion Llywodraeth Cymru i gyflwyno masnachfreintiau bws. Mae'r cynlluniau hyn wedi'u hamlinellu ym mhapur gwyn 'Un Rhwydwaith, Un Amserlen, Un Tocyn' a'r ddogfen Ein Map Ffordd i Ddiwygio'r Bysiau. Mae disgwyl i'r cynigion hyn gyflawni system drafnidiaeth aml-ddull integredig, di-dor, gyda gwybodaeth, prisiau siwrnai a thicedi gwell i gwsmeriaid o 2026 ymlaen. Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol wedi'i ddiweddaru i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynlluniau diweddaraf ar gyfer masnachfreinio bysiau ar ôl i Lywodraeth Cymru gyhoeddi'r Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru) ar 31 Mawrth 2025. Mae hefyd wedi'i ddiweddaru i bwysleisio pwysigrwydd integreiddio amserlenni i'w gwneud hi'n haws i bobl wneud dewisiadau teithio cynaliadwy. |
| | Mae rhai ymatebwyr yn cefnogi gwella cysylltiad bysiau ar draws y ffin , ac yn anelu at ryngwynebu cynlluniau masnachfreinio bysiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru a'r rhai sy'n cael eu datblygu yn Ninas-ranbarth Lerpwl. | Nodwyd. |
| | Mae rhai ymatebwyr yn tynnu sylw at yr angen i ardaloedd gwledig gael gwasanaethau bws dibynadwy 7 diwrnod yr wythnos – mae  gwasanaethau cyfyngedig ers y pandemig yn arwain at ddibyniaeth ar geir preifat ac ynysu. Roedd rhai hefyd yn tynnu sylw at yr angen i ystyried effaith y polisïau 20mya ar amserlenni bws, gyda gostyngiad mewn gwasanaethau wedi'i nodi ers gweithredu'r polisi. | Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cynnwys Polisi PT1 i PT5 sy'n ceisio galluogi gwasanaethau bws bob dydd sy'n addas i'r diben. Mae cynigion ar gyfer gwelliannau i fysiau yng nghyd-destun polisi 20mya Llywodraeth Cymru. |
| | Mae rhai ymatebwyr yn canmol Polisi PT10 fel ymrwymiad annibynnol i hygyrchedd, gan gytuno bod angen i deithio ar fws fod yn haws ac yn decach i bawb. | Nodwyd. |

| Thema | Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad | Ymateb |
|---|---|---|
| | Nododd rhai ymatebwyr angen neu ddymuniad am lwybrau bysiau penodol a mesurau blaenoriaeth, gan gynnwys:<br><br>• Yr Wyddgrug<br>• Dolgellau i Flaenau<br>• Wrecsam i Gaer<br>• Llandudno i Flaenau Ffestiniog<br>• De Sir y Fflint i Gaer<br>• Dolwyddelan<br>• Cwm Lledr<br>• Dyffryn Conwy<br>• Caergybi i Ynys Lawd<br>• Talacre<br>• Bangor – Felinheli – Caernarfon<br>• Bangor – Ynys Môn<br>• Ynys Môn Wledig<br>• Llaneurgain<br>• Gerddi Bodnant | Mae Polisi Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol PT4 yn ceisio cefnogi'r gwaith o gyflwyno'r Rhwydwaith Trawsnewid Gwasanaethau Bysiau yng Ngogledd Cymru. Bydd hyn yn cynnwys rhwydwaith craidd o wasanaethau rhwng aneddiadau mawr a safleoedd gwaith gyda dau i bedwar bws yr awr, - gyda'r nos hefyd. Mae'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cynnwys cynlluniau bysiau a fydd yn cael eu blaenoriaethu dros gyfnod y cynllun.<br><br>Mae astudiaeth wedi'i chynnal ledled Gogledd Cymru i ystyried gwaith y gellid ei wneud i roi mwy o flaenoriaeth i fysiau ac mae awdurdodau lleol yn edrych ymlaen at weithio gydag Uchelgais Gogledd Cymru, Trafnidiaeth Cymru, a Llywodraeth Cymru, i fwrw ymlaen â'r prosiect hwn, yn amodol ar gyllid.<br><br>O ran bysiau, mae gwasanaethau yn destun adolygiad parhaus a bydd unrhyw welliannau sy'n dibynnu ar gyllid yn parhau i gael eu hystyried gan awdurdodau lleol.<br><br>Roedd Dolgellau i Flaenau yn llwybr uniongyrchol o'r blaen y mae gwasanaethau'r T2 a'r T22 bellach yn ei wasanaethu.<br><br>Bydd Cyngor Sir Ynys Môn yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid yng Ngwarchodfa Natur Ynys Lawd ynghylch mynediad cynaliadwy. Nid yw'r maes parcio wedi cael ei wasanaethu gan wasanaeth bws cofrestredig ers nifer o flynyddoedd ac mae cael cerbydau i symud yn ddiogel wedi bod yn broblem. |

| Thema | Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad | Ymateb |
|---|---|---|
| Coetsys, trafnidiaeth sy'n ymateb i'r galw a thrafnidiaeth gymunedol | Mae rhai ymatebwyr o'r farn bod gwasanaethau Fflecsi yn allweddol i boblogaethau gwledig, gan gysylltu cymunedau â rhai galwadau am gyllid pellach ar gyfer cynlluniau o'r fath. Gwneir cais penodol am weithredu cynllun Fflecsi yn Ynys Môn ac i ganiatáu i wasanaethau groesi ffiniau os ydynt am fod yn effeithiol. Fodd bynnag, mae ymatebwyr eraill o'r farn bod gwasanaethau Fflecsi yn anhyblyg gyda diffyg capasiti a ddim yn gweithio'n dda i dwristiaid. Pwysleisir na ddylai'r ddibyniaeth ar Fflecsi atal gwaith i wella neu ddatblygu trafnidiaeth yn y dyfodol. Mae rhai ymatebwyr yn tynnu sylw at y ffaith nad yw gwasanaethau Fflecsi ar hyn o bryd yn gweithredu fel gwasanaeth neidio ar fws a neidio oddi ar fws (*hop-on-hop-off)*, ac mae angen trefnu bythefnos ymlaen llaw yn enwedig yn ystod y tymor prysur. Mae hefyd yn dibynnu ar gael ffôn symudol neu fynediad i'r rhyngrwyd, gan arwain at anghydraddoldeb mewn opsiynau teithio. | Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol wedi'i ddiweddaru i gadarnhau y bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn gweithio gyda Trafnidiaeth Cymru i adolygu a gwella cynnig Fflecsi yng Ngogledd Cymru i helpu i sicrhau bod Trafnidiaeth sy'n Ymateb i'r Galw yn diwallu anghenion cymunedau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu gan drafnidiaeth gyhoeddus arall orau. |

| | | |
|---|---|---|
| | Mae rhai ymatebwyr yn mynegi bod angen i'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol ystyried trafnidiaeth gymunedol a Chynllun Bach y Trydydd Sector, sef Llwybr Newydd, ymhellach. Trwy beidio ag ystyried trafnidiaeth gymunedol yn fwy llawn, awgrymir bod effaith ar y rhestr o gynlluniau â blaenoriaeth o fewn y Cynllun Cyflawni cysylltiedig. Dyma rai o'r argymhellion i:<br>• Dylai'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol gynnwys ymrwymiad i gynyddu nifer y Cynlluniau Trafnidiaeth Gymunedol, i gynyddu faint mae'r sector yn ei gyrraedd a darparu mwy o opsiynau trafnidiaeth sy'n gwbl gynhwysol.<br>• Datblygu Cynllun Datblygu Trafnidiaeth Gymunedol ar gyfer pob ardal awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru, fel rhan o ddull integredig ar draws rhanbarth Gogledd Cymru.<br>• Cynlluniau Datblygu Trafnidiaeth Gymunedol i'w cefnogi gan Gynlluniau Buddsoddi i gyflymu'r gyfradd ddatblygu ar gyfer mynediad cyfartal i drafnidiaeth ledled Cymru i bobl sydd â gofynion symudedd ychwanegol.<br>• Ymgorffori'r Llwybr Gwledig o fewn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a chynnwys polisïau, rhaglenni a phrosiectau i fuddsoddi mewn mentrau trafnidiaeth a arweinir gan y gymuned mewn ardaloedd gwledig, a datblygu'r mentrau hynny.<br>• Mae'r Cynllun Datblygu Trafnidiaeth Gymunedol i gynnwys llwybr datgarboneiddio ar gyfer y sector yng Ngogledd Cymru, a dyraniad o adnoddau parod, fel y Gronfa Allyriadau Isel Iawn, i gynorthwyo darparwyr trafnidiaeth gymunedol nid er elw.<br>• Cynnwys ymrwymiad o fewn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol ar gyfer buddsoddi mewn cynlluniau | Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cynnwys adran ar goetsys, trafnidiaeth sy'n ymateb i'r galw a thrafnidiaeth gymunedol. Mae gwerth trafnidiaeth gymunedol a'r trydydd sector yn cael ei gydnabod ac mae Cynllun Bach y Trydydd Sector, sef Llwybr Newydd, wedi cael mwy o ystyriaeth fel rhan o ddiweddariadau i'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol. |

| Thema | Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad | Ymateb |
|---|---|---|
| | prawf cysyniad Olwynion i'r Gwaith, a gwerthusiad annibynnol Cymru gyfan.<br>• Cynnwys y Gymdeithas Trafnidiaeth Gymunedol a gweithredwyr trafnidiaeth gymunedol yn y gwaith o ddatblygu cynllun peilot Contract Gwasanaeth Cyflawn.<br>• Ochr yn ochr â'r ymrwymiad i gynyddu nifer y clybiau ceir, dylai fod ymrwymiad tebyg i gynyddu nifer y cynlluniau Car Cymunedol. | |
| | Mae rhai ymatebwyr yn ystyried bod y cynlluniau yn gwasanaethu cymunedau arfordirol a threfol yn weddol dda, ond gan feddwl am drefi marchnad gwledig a llai wedyn. Er eu bod yn croesawu polisïau PT11 a PT12 yn gyffredinol, mae fflecsi a mentrau trafnidiaeth gymunedol yn aml yn cael eu hystyried fel yr ail ateb orau. Mae profiad lleol yn dangos y gallant fod yn annibynadwy ac yn gyfyngedig yn enwedig o ran gwasanaethau gyda'r nos a phenwythnos a dylent weithio ochr yn ochr â mentrau trafnidiaeth twristaidd. Mae rhai yn awgrymu nad yw polisi cenedlaethol yn ystyried yn llawn yr heriau sy'n wynebu ardaloedd gwledig yn y sector trafnidiaeth - mae'r diffyg trafnidiaeth gyhoeddus mewn ardaloedd gwledig yn gwaethygu'r ddibyniaeth ar geir, gyda diffyg dewisiadau amgen realistig. | Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cydnabod pwysigrwydd a gwerth cysylltiadau trafnidiaeth i gymunedau trefi gwledig a marchnad, ac mae'n cynnwys polisïau sy'n canolbwyntio ar ddarparu dewisiadau i bobl mewn ardaloedd gwledig a lled-drefol. Un o'r themâu trawsbynciol yn y cynllun yw tegwch neu gydraddoldeb opsiynau trafnidiaeth, sy'n golygu sicrhau bod gan bawb yng Ngogledd Cymru fynediad teg at opsiynau trafnidiaeth. Mae'n cydnabod bod gan wahanol bobl anghenion gwahanol, yn enwedig y rhai sy'n perthyn i grwpiau difreintiedig, neu'r rhai mewn cymunedau gwledig. |
| | Mae rhai ymatebwyr yn gwerthfawrogi cydnabyddiaeth o'r gwasanaeth bws Sherpa, gan dynnu sylw at yr angen am wasanaeth o'r fath yn Eryri, ble mae problemau parcio rheolaidd trwy gydol y tymor, ac nid oes llawer o opsiynau teithio cynaliadwy yn yr ardal hon. Mae gweithio gyda chymunedau i nodi eu hanghenion yn y cyfnodau prysur hyn yn hanfodol. | Nodwyd. |

| Thema | Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad | Ymateb |
|---|---|---|
| | Mae rhai ymatebwyr yn cwestiynu pam bod bws cyflym yn cael ei gynnig ar gyfer Caergybi i Lerpwl pan fo hyn yn dyblygu'r rhwydwaith rheilffyrdd presennol i raddau helaeth. | Mae'r gwasanaeth bws cyflym arfaethedig o Gaergybi i Lerpwl yn cael ei ddatblygu gan Trafnidiaeth Cymru sy'n canolbwyntio ar hyd coridor yr A55, llwybr strategol sydd heb opsiynau trafnidiaeth gyhoeddus rheolaidd ar hyn o bryd. Nod y gwasanaeth hwn yw pontio bylchau sylweddol yn y rheilffyrdd drwy gysylltu ardaloedd heb eu gwasanaethu yng Ngogledd Cymru, fel Bodelwyddan a Threffynnon. Ar ben hynny, byddai'n darparu cysylltiadau uniongyrchol â chyrchfannau yng Ngogledd Orllewin Lloegr, gan gynnwys Lerpwl ac ardaloedd eraill sydd heb gysylltiadau uniongyrchol trwy'r rhwydwaith rheilffyrdd fel Cheshire Oaks a Maes Awyr Lerpwl. Trwy integreiddio â gwasanaethau rheilffordd yng Nghyffordd Llandudno a chysylltu â gwasanaethau bysiau lleol ar hyd ei lwybr, mae'r gwasanaeth bysiau yn ceisio sefydlu rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus integredig yng Ngogledd Cymru, gan wella hygyrchedd i drigolion ac ymwelwyr yn y rhanbarth. |

| Thema | Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad | Ymateb |
|---|---|---|
| Cerdded, olwyno a beicio | Mae rhai ymatebwyr o'r farn bod y cynlluniau yn rhy drwm o blaid teithio llesol, bydd yn anymarferol mewn ardaloedd gwledig – mae'r cynlluniau yn anwybyddu'r angen i wella trafnidiaeth gyhoeddus o ran amlder, dibynadwyedd, cost, a chwmpas cyn blaenoriaethu gostyngiad yn y defnydd o geir a chynnydd mewn teithio llesol. Mae rhai yn tynnu sylw at yr angen am weithredu ar lefel weithredol pan ddaw'n fater o newid ymddygiad er mwyn i bobl ddefnyddio teithio llesol yn effeithiol - mae angen i'r cynllun roi mwy o bwyslais ar deithio llesol dros ddefnyddio car preifat. | Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn ceisio hyrwyddo a gwella'r dewis o drafnidiaeth ledled Gogledd Cymru, gan gynnwys ardaloedd gwledig. Mae'r cynlluniau yn ymateb i bolisi Llywodraeth Cymru a'r Hierarchaeth Teithio Cynaliadwy yn Llwybr Newydd yn ogystal â nodau lleol i wella teithio llesol, trafnidiaeth gyhoeddus, a chyfrannu at newid mewn dulliau teithio i leihau'r ddibyniaeth ar y car. Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cynnwys polisïau i alluogi newidiadau mewn ymddygiad teithio i helpu i gyflawni newid mewn dulliau teithio.<br><br>Fel y nodir yn y Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol, mae cynlluniau wedi'u nodi, eu gwerthuso ac mae ymgynghoriad wedi bod arnynt i helpu i sicrhau bod y cynlluniau yn addas i'r diben ac yn cael eu cymeradwyo mor eang â phosibl. Mae mesurau teithio llesol yn cael eu hystyried yn bwysig i helpu i leihau dibyniaeth ar y car ar gyfer teithiau byrrach, ac mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cydnabod pwysigrwydd darparu dewisiadau i bobl mewn ardaloedd gwledig a lled-drefol. |
| | Mae rhai ymatebwyr yn mynegi ei bod yn braf gweld y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol yn cael ei grybwyll. | Nodwyd. |

| Thema | Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad | Ymateb |
|---|---|---|
| | Mae rhai ymatebwyr yn awgrymu bod awdurdodau lleol yn gwneud mân welliannau yn unig trwy eu Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol ac nad yw rhwydwaith integredig yn cael ei ddarparu. Mae chynnal a chadw llwybrau troed yn wael ar y cyfan, ac nid oes posib defnyddio llwybrau yn aml. Gwnaed awgrym pellach y dylai teithio llesol gynnwys llwybrau sy'n addas ar gyfer ceffylau. | Mae Polisi Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol AT5 yn ceisio helpu i sicrhau y dylai awdurdodau lleol ganolbwyntio yn gyntaf ar lwybrau sydd â'r cyfle mwyaf i gysylltu cymunedau â chyrchfannau lleol, gan ddod â nhw i safon a allai helpu i gynyddu cerdded, olwyno, beicio a marchogaeth mewn ardaloedd gwledig.<br><br>Mae Polisi AT6 yn cefnogi creu Lonydd Tawel yng Nghymru. Y bwriad yw i'r rhain alluogi cerddwyr, beicwyr, rhai sy'n marchogaeth a phobl gyda nam symudedd, i fwynhau lonydd gwledig yn ddiogel, drwy annog traffig i deithio'n arafach a llai o draffig yn gyffredinol.<br><br>Mae polisi RS1 yn ceisio helpu i sicrhau refeniw digonol yn ogystal â chyllid cyfalaf ar gyfer arwynebu a chynnal a chadw. |
| | Mae rhai ymatebwyr o'r farn y gallai'r cynlluniau fod yn gliriach am y mecanweithiau a fydd yn cael eu defnyddio i flaenoriaethu ac ariannu'r rhaglenni gwaith presennol yn unol â'r Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol ym mhob awdurdod lleol. Yn ogystal, mae cefnogaeth gref i gytundebau cyllido aml-flwyddyn ac mae ymatebwyr o'r farn bod angen cynllun cyflawni clir ochr yn ochr â'r trefniadau cyllido. | Mae'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol yn nodi'r dull o flaenoriaethu'r cynllun a'i ganlyniadau. Mae hyn yn cynnwys cynlluniau i'w datblygu gan awdurdodau lleol yn unol â'r Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol ym mhob awdurdod lleol.<br><br>Mae Uchelgais Gogledd Cymru, drwy'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a dull cynllunio a chyflawni rhanbarthol, yn ceisio sicrhau dull cyson a chydlynol ledled Gogledd Cymru. Rydym yn cydnabod bod timau teithio llesol awdurdodau lleol eisoes yn ddarbodus ac yn aml heb adnoddau, a bydd cydlynu rhanbarthol yn helpu i rannu'r arferion gorau, cyfuno adnoddau, lleihau dibyniaeth ar ymgynghorwyr, a blaenoriaethu lle mae'r anghenion mwyaf. |
| | Mae rhai ymatebwyr o'r farn ei bod yn aneglur sut y bydd cynllunio teithio llesol rhanbarthol a lleol yn cael ei alinio. Croesewir yr awgrym o un swyddogaeth Teithio Llesol ranbarthol, ond codir pryder os yw hyn yn arwain at ostyngiad cyffredinol mewn capasiti teithio llesol ledled y rhanbarth. | |

| Thema | Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad | Ymateb |
|---|---|---|
| | Mae rhai ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig ar gyfer Uned Cyflawni Teithio Llesol gyda'r amod ei bod yn osgoi biwrocratiaeth ychwanegol ddiangen ac yn manteisio ar arbenigedd presennol o fewn awdurdodau lleol, Trafnidiaeth Cymru a sefydliadau'r trydydd sector fel Sustrans. | Mae llawer o'r cyfrifoldeb am gyflawni cynlluniau cerdded a beicio yn yr awdurdodau lleol. Mae nifer o sefydliadau gwahanol yn rhan o'r gwaith o wella'r seilwaith cerdded a beicio, yn cynnwys Trafnidiaeth Cymru, y Cyd-bwyllgor Corfforedig, Sustrans ac Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru, gyda chyllid gan Lywodraeth Cymru. Gallai cyflwyno Uned Teithio Llesol i ogledd Cymru hwyluso’r cydweithio a rhesymoli’r gwaith o ddarparu cynlluniau teithio llesol, rhannu arbenigedd ac arfer dda, a chydlynu’n well yr adnoddau ar gyfer rhaglenni cyflawni a chyllido. |
| | Mae rhai ymatebwyr yn awgrymu y dylid ymgynghori â Sustrans ar yr holl gynlluniau a allai effeithio ar y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol a bod Cynllun Datblygu Rhwydwaith Sustrans yn llywio blaenoriaethu prosiectau. | Mae'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol yn nodi'r dull o flaenoriaethu'r cynllun a’i ganlyniadau. Mae hyn yn seiliedig ar broses y cytunwyd arni sy'n cynnwys Trafnidiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru ochr yn ochr ag awdurdodau lleol. Mae hyn yn cynnwys cynlluniau i'w datblygu gan awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am gyflawni, ac a ddylai ymgysylltu â Sustrans fel rhan o waith cynllunio, dylunio a datblygu prosiect fel y bo'n briodol. |
| | Mae rhai ymatebwyr yn codi pryderon am Bolisi AT14 yn y ffordd y mae'n cyfeirio at archwilio defnydd E-sgwteri, gan awgrymu eu bod yn peri perygl i bobl ddall a rhannol ddall, ac y dylai unrhyw gynlluniau E-feiciau hyrwyddo ymddygiad diogel a pharchus gan ddefnyddwyr ac ymwybyddiaeth o golli golwg. | Bydd Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yng Nghymru yn parhau i gadw llygad ar ganlyniadau treialon y DU ac yn darparu unrhyw gyngor wedi'i ddiweddaru yn y dyfodol fel y bo'n briodol - dylai hyn ystyried anghenion pob grŵp gan gynnwys pobl ddall a phobl sy'n rhannol ddall. |

| Thema | Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad | Ymateb |
|---|---|---|
| | Mae rhai ymatebwyr yn croesawu'r ymrwymiad o’r newydd i Fapiau Rhwydwaith Teithio Llesol ond yn mynegi siom nad ydynt yn gweld yr un ymrwymiad i gynnal y safonau a nodir yng Nghanllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol - bydd cynnal y safonau hyn yn bwysig wrth wneud y mwyaf o gyllid ar gyfer datblygiadau teithio llesol. Awgrymir bod y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol terfynol yn cynnwys datganiad clir y bydd Canllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol yn cael eu cynnal. | Mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am gyhoeddi ei Chanllawiau Deddf Teithio Llesol, sy'n cynnwys yr arferion gorau o ran dylunio seilwaith ac yn rhoi canllawiau ar sut i ddarparu cyfleusterau cysylltiedig fel lle parcio beiciau. Mae'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cynnwys cynlluniau i'w datblygu gan awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am gyflawni, ac a ddylai gymhwyso'r canllawiau perthnasol fel rhan o waith cynllunio, dylunio a datblygu prosiect fel y bo'n briodol. |
| | Mae rhai ymatebwyr yn awgrymu y dylai'r cynlluniau gynnwys y cynlluniau canlynol:<br>• Llwybrau trawsffiniol a nodwyd gan Gynghrair Merswy a Dyfrdwy yn eu Strategaeth Teithio Llesol 2024 a'r cyfle i newid dulliau teithio yn y llif ar draws y ffin.<br>• Elfennau allweddol o argymhellion Comisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru, yn enwedig 'uwchraddio a chwblhau rhannau coll o'r NCN5 ar hyd yr arfordir' (nodir rhai gwelliannau unigol ond dylid ystyried y llwybr fel ased rhanbarthol). | Mae'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol yn nodi'r dull a gymerwyd tuag at nodi a blaenoriaethu cynlluniau, a chanlyniadau. Mae hyn yn seiliedig ar broses y cytunwyd arno sy'n cynnwys Trafnidiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru ochr yn ochr ag awdurdodau lleol. Mae hyn yn cynnwys cynlluniau trawsffiniol i'w datblygu gan awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am gyflawni. |

| | | |
|---|---|---|
| | Mae rhai ymatebwyr yn nodi lleoliadau penodol ble maen nhw'n gweld bod darpariaeth teithio llesol annigonol, gan gynnwys:<br><br>• Gwynedd i Ynys Môn<br>• Caernarfon a Bangor i Lanberis<br>• Ynys Môn i'r tir mawr<br>• Treffynnon i Brestatyn<br>• Dolwyddelan i Fetws-y-Coed<br>• A470 Cwm Lledr<br>• Llanfachraeth<br>• Bodedern<br>• Wrecsam i'r Wyddgrug<br><br>Awgrymwyd hefyd y dylid trosi hen leiniau rheilffordd yn llwybrau teithio llesol, gan ganiatáu llwybrau ar wahân i feicwyr, cerddwyr a defnyddwyr eraill y ffordd, yn benodol:<br><br>• Yr Wyddgrug i Rydymwyn a thu hwnt trwy Gwm Chwiler i Ddinbych<br>• Y Rhyl i Gaer<br>• Rhuthun i Ddinbych | Mae'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cynnwys ystod eang o gynlluniau teithio llesol sy'n ceisio gwella cysylltedd a darpariaeth ar gyfer cerdded, olwyno a beicio. Bydd y coridorau/llwybrau y gofynnir amdanynt yn cael eu hystyried fel rhan o adolygiadau Map Rhwydwaith Teithio Llesol. Mae'r Polisi Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol AT4 wedi'i anelu at wella teithio llesol mewn ardaloedd gwledig ac mae'n ystyried yn benodol y cyfle i ddefnyddio hen leiniau rheilffordd ar gyfer teithio llesol a chysylltu trefi, - dylid eu harchwilio fel mesurau ategol i ddarparu'r Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol.<br><br>Llywodraeth Cymru a'r Asiant Cefnffyrdd sy'n gyfrifol am ddwy bont y Fenai, a bydd Cyngor Ynys Môn yn parhau i ymgysylltu ochr yn ochr ag Uchelgais Gogledd Cymru ynghylch mynediad cadarn a chynaliadwy yn yr ardal hon.<br><br>Mae Cynllun A5 Llanfairpwll eisoes wedi datblygu i gysylltu â Dolen Menai.<br><br>Mae Bodedern a Llanfachraeth y tu allan i'r aneddiadau teithio llesol, fodd bynnag, bydd y potensial i wella cysylltiad â Bodedern yn cael ei ystyried fel rhan o Astudiaeth WelTAG a fydd yn cysylltu Awyrlu Brenhinol y Fali â'r Fali.<br><br>Gellid ailedrych ar y ddarpariaeth yn Llanfachraeth pe bai'r datblygiadau yn Wylfa Newydd yn mynd rhagddo.<br><br>Mae prosiect Pont Reilffordd Afon Clwyd o fewn y Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol yn bwriadu defnyddio rhychwant diangen y bont reilffordd i ddarparu llwybr teithio llesol newydd sy'n cysylltu'r Rhyl a Bae Cinmel.<br><br>Mae Llwybr 5 y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol yn cysylltu Prestatyn â'r ffin rhwng Sir Ddinbych a Sir y Fflint, ac mae sylwadau yn cael eu nodi. |

| Thema | Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad | Ymateb |
|---|---|---|
| | Mae rhai ymatebwyr yn ystyried bod angen i'r cynlluniau hyrwyddo a gwella llwybrau teithio llesol yn well. Mae'r awgrymiadau a wnaed yn cynnwys:<br><br>• Mynedfeydd hawl tramwy<br>• Gweithredu mesurau tawelu traffig<br>• Gwahanu beicwyr oddi wrth gerddwyr i wella diogelwch<br>• Angen 'ystyriaeth hanfodol' wrth benderfynu ar led y llwybr i warchod cynefinoedd bywyd gwyllt ac ystyried defnyddwyr eraill y ffordd<br>• Ystyried effaith 20mya ar feicwyr – mae rhai o'r farn ei bod yn beryglus cael traffig cerbydau yn teithio ar yr un cyflymder â beicwyr<br>• Marciau ffyrdd i ddangos blaenoriaeth i gerddwyr<br>• Gwella diogelwch o amgylch safleoedd cyfnewidfa posibl e.e. safleoedd bws<br>• Mwy o hyblygrwydd mewn Canllawiau Dylunio Teithio Llesol ar gyfer teithiau cerdded gwledig i ganiatáu i awdurdodau lleol ddatblygu llwybrau teithio llesol yn llwyddiannus er budd pob defnyddiwr<br>• Darparu llwybrau teithio llesol i ysgolion | Mae'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol yn nodi'r dull o flaenoriaethu’r cynlluniau, a’r canlyniadau. Mae hyn yn cynnwys cynlluniau teithio llesol i'w datblygu gan awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am gyflawni, a fydd yn ystyried y canllawiau teithio llesol perthnasol a'r arfer orau wrth ddylunio a datblygu eu cynlluniau. |

| Thema | Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad | Ymateb |
| --- | --- | --- |
| Integreiddio rhwng dulliau | Mae rhai ymatebwyr yn cytuno bod angen integreiddiad pellach rhwng dulliau, yn enwedig rhwng bws a rheilffyrdd, gyda mwy o hygyrchedd. Mae rhai yn awgrymu bod y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn canolbwyntio ar ddulliau trafnidiaeth ar wahân, ac yn awgrymu bod angen mwy o ffocws ar ryng-gysylltedd. Mae rhai ymatebwyr yn nodi hyn ar gyfer y llwybrau bws rhwng Bangor a Chyffordd Llandudno, a ddylai fod yn stopio yn yr orsaf, nid Conwy yn unig. | Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cydnabod pwysigrwydd integreiddio dulliau teithio a rhwydwaith, ac un o'i themâu trawsbynciol yw integreiddio. Mae'n cydnabod bod newid dulliau teithio yn gofyn am ddull holistig, integredig o gynllunio teithiau, gan weithio ar draws gwahanol ddulliau a sectorau i'w gwneud hi'n haws i bobl deithio o ddrws i ddrws gan ddefnyddio dulliau trafnidiaeth cynaliadwy. Mae'n canolbwyntio ar wella integreiddio a chysylltedd trawsffiniol, ac integreiddio effeithiol rhwng gwasanaethau bysiau a rheilffyrdd trwy ei gwneud hi'n haws newid Mae themâu polisi yn cynnwys integreiddio rhwng dulliau gyda pholisïau ac ymyriadau penodol IN1-5.<br><br>Mae'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cynnwys cynlluniau sy'n ceisio gwella cysylltedd bysiau drwy integreiddio trafnidiaeth Gorsaf Cyffordd Llandudno; Integreiddio trafnidiaeth Ardal Gorsaf Porth Bangor; a Hwb Symudedd ym Mangor.<br><br>Mae'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol hefyd yn cynnwys cynllun i wella canol tref Bae Colwyn sy'n cynnwys gwella seilwaith y ffordd y tu allan i flaengwrt yr orsaf ym Mae Colwyn. |
| | Mae rhai ymatebwyr yn awgrymu y dylid mynd i'r afael ag integreiddio trenau a bysiau ym Mae Colwyn, mewn ffordd debyg i'r hyn a wnaed yn Llandudno a'r Rhyl, gyda seilwaith safleoedd bws hefyd angen ei uwchraddio. | Mae'r Cynllun Cyflawni yn cynnwys Cynllun 8 Integreiddio â gwasanaethau trafnidiaeth strategol: Integreiddio trafnidiaeth gorsaf Bae Colwyn, a fydd yn gwella canol tref Bae Colwyn sy'n cynnwys gwella seilwaith y ffordd y tu allan i flaengwrt yr orsaf ym Mae Colwyn. |

| Thema | Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad | Ymateb |
|---|---|---|
| | Mae rhai ymatebwyr yn ystyried yr angen am leoliadau cyfnewid yng:<br>• Nghaernarfon, gan gynnwys cysylltiadau â rhwydweithiau Sherpa/Traws Cymru<br>• Llanfairpwll | Mae Cyngor Gwynedd yn cadarnhau bod cyfnewidfa Caernarfon ar hyn o bryd yn hwyluso cysylltiadau â gwasanaethau Sherpa/ Traws Cymru.<br><br>Mae cyfnewidfa fysiau ym Mhorthaethwy a gwasanaeth gwell ar gael ym Mangor tra byddai cyfnewidfa yn Llanfairpwll yn dyblygu'r ddarpariaeth bresennol. Ystyrir y dylai'r ffocws fod ar integreiddio amserlenni bysiau a rheilffyrdd yn Llanfairpwll. Byddai hyn yn bosibl fel opsiwn i newid dulliau teithio. Ar hyn o bryd, nid yw amserlenni'r gwasanaeth bysiau ar Ynys Môn yn cael eu llunio i sicrhau integreiddio ag amserlenni rheilffyrdd, felly mae potensial i wella. |
| | Mae rhai ymatebwyr o'r farn bod angen i bolisïau integreiddio ystyried gweithredu a chost tocynnau integredig. | Mae ein cynlluniau ar gyfer teithio ar fws yn cael eu hystyried o fewn cyd-destun y rhwydwaith bws arfaethedig ledled Cymru ar gyfer y dyfodol, - mae Trafnidiaeth Cymru wrthi'n datblygu hyn fel rhan o gynigion Llywodraeth Cymru i gyflwyno masnachfreintiau bws. Mae disgwyl i'r cynigion hyn gyflawni system drafnidiaeth aml-ddull sy'n integredig a llyfn, gyda gwybodaeth well, prisiau siwrnai a thicedu gwell i gwsmeriaid o 2026 ymlaen. |
| | Mae rhai ymatebwyr yn croesawu'n arbennig Polisi IN5 ac yn gobeithio y bydd opsiynau yn cael eu hystyried yn fuan ar gyfer Parcio a Theithio i fynd i'r afael â'r problemau tagfeydd a pharcio difrifol yn ardal Eryri yn ystod oriau prysur. | Nodwyd. |
| | Mae rhai ymatebwyr yn awgrymu cysylltu Porthaethwy â gorsafoedd trên Llanfairpwll a Bangor yn gynharach ac yn hwyrach yn y dydd ac ar ddydd Sul. | Nodwyd (yn amodol ar wneud penderfyniadau masnachol a gallai Cyngor Sir Ynys Môn ailymweld fel rhan o fasnachfreinio bysiau). |

| Thema | Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad | Ymateb |
|---|---|---|
| | Mae rhai ymatebwyr yn tynnu sylw at yr angen am well integreiddio rhwng dulliau teithio, yn enwedig amseroedd bysiau a threnau, i ddarparu ar gyfer cymudwyr a disgyblion ysgol, neu sicrhau bod meysydd parcio mewn gorsafoedd bysiau a threnau yn ddiogel ac ar gael fel nad oes rhaid cwblhau teithiau yn gyfan gwbl mewn car. | Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn ymateb i'r angen am wella integreiddio rhwng dulliau yn ei bolisïau IN1-6. |
| | Mae rhai ymatebwyr o'r farn bod darpariaeth barcio mewn gorsafoedd ar lein y Gororau ym Mwcle, Penarlâg a Shotton yn ddigonol a byddai rhwystr i fwy o ddefnydd o'r lein pe bai'r gwelliant gwasanaeth arfaethedig yn digwydd. | Nodwyd. Mae hyrwyddo teithio llesol ac integreiddio trafnidiaeth gyhoeddus yn cael eu hannog fel rhan o'r cynlluniau i helpu i sicrhau newid mewn ddulliau teithio, gan gydnabod nad yw'n ymarferol cynyddu'r ddarpariaeth parcio ceir yn y gorsafoedd hyn. Mae Cyngor Sir y Fflint yn awgrymu y dylid rhoi ystyriaeth bellach i ddatblygu Gorsaf Penyffordd (Caer) fel cyfle Parcio a Theithio ar gyfer y rheilffordd. Hefyd, lle mae parcio yn cael ei ystyried, mae angen i hyn hyrwyddo darpariaeth cerbydau trydan. |
| Porthladdoedd a chludo llwythi | Mae rhai ymatebwyr yn dweud nad yw'r cynlluniau yn gosod targed i gefnogi'r symudiad at gludo nwyddau ar y rheilffordd. Awgrymir y dylai'r targed alinio â tharged cenedlaethol yr Adran Drafnidiaeth (twf o 75% mewn cludo nwyddau ar y rheilffyrdd erbyn 2050) a tharged Trafnidiaeth i'r Gogledd i dreblu cyfran cludo nwyddau ar y rheilffyrdd i 25.5% erbyn 2050. | Mae'r Cynllun Monitro a Gwerthuso yn nodi cyfres o fesurau a dangosyddion i helpu i ystyried cynnydd y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol tuag at dargedau a nodwyd, yn unol â Fframwaith Monitro Trafnidiaeth Cymru, gan ymateb i ganllawiau Llywodraeth Cymru i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig. Mae Llywodraeth Cymru a Trafnidiaeth Cymru yn cynnal eu prosesau monitro eu hunain ar dargedau cenedlaethol. |
| | Mae rhai yn argymell cyfeiriad pellach at Borthladd Lerpwl i adlewyrchu rôl y Porthladd yn y rhanbarth a goblygiadau traffig HGV, gan adlewyrchu'r angen i liniaru, datgarboneiddio a symud at y rheilffyrdd lle bo hynny'n bosibl. | Mae'r cynlluniau yn cydnabod pwysigrwydd trafnidiaeth a chysylltedd trawsffiniol, ac mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol wedi'i ddiweddaru i gynnwys cyfeiriad at Borthladd Lerpwl yn unol â hynny. |

| Thema | Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad | Ymateb |
|---|---|---|
| | Mae rhai ymatebwyr yn cefnogi'r newid o'r ffordd i'r rheilffordd ar gyfer cludo nwyddau i helpu i leihau tagfeydd a llygredd. Fodd bynnag, tynnir sylw at y ffaith na ellir gweld nwyddau yn cael eu cludo ar y rheilffordd yn gyfan gwbl, yn hytrach nag ar y ffordd. Gall y ddau ddull trafnidiaeth hyn weithio gyda'i gilydd, i gefnogi symudiadau logisteg, ond pan fydd angen symud nwyddau ar fyr rybudd, yn aml yr opsiwn gorau yw'r ffordd. Felly, byddai buddsoddiad strategol yn y rhan hon o'r rhwydwaith ffyrdd yn ddefnyddiol i'r holl weithredwyr logisteg (ym Mhrydain Fawr ac Iwerddon), gan y bydd yn helpu i sicrhau bod nwyddau yn cael eu symud yn y ffordd fwyaf effeithlon.. | Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cynnwys ystod o bolisïau sy'n ceisio sicrhau bod trafnidiaeth ar y ffyrdd a'r rheilffyrdd, a hynny ar gyfer cludo nwyddau hefyd, yn addas i'r diben. Mae'r Cynllun yn ceisio cefnogi datgarboneiddio nwyddau hefyd. |
| | Mae rhai ymatebwyr yn awgrymu y llwybrau canlynol ar gyfer cludo nwyddau ar y rheilffordd:<br>• Caer i borthladd Caergybi i helpu i leihau tagfeydd ar yr A55.<br>• Llangefni ac Amlwch ar gyfer rheilffordd ysgafn. | Bydd Polisi Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol PF9 (gweithio gyda phartneriaid yn y diwydiant rheilffyrdd i gefnogi newid i reilffyrdd ar gyfer symud nwyddau, gan gynnwys logisteg ysgafn ar reilffyrdd) yn helpu i nodi'r angen am welliannau gan gynnwys y rhai a awgrymwyd. |
| | Mae rhai ymatebwyr yn cefnogi twf porthladd, gorsaf reilffordd a safleoedd Porthladd Rhydd cyfagos yng Nghaergybi (Polisïau PF1-PF3) ond yn tynnu sylw y gallai fod goblygiadau pellach oherwydd mwy o symud nwyddau. Mae rhai ymatebwyr yn awgrymu bod angen uwch-gynllun holl-gynhwysfawr ar gyfer y porthladd a'r orsaf reilffordd ehangach (yn ogystal â chysylltiadau priffyrdd) gan fod hyn yn cael ei ystyried yn ddarn allweddol o seilwaith strategol i sbarduno trafnidiaeth ac adfer datblygiad economaidd yn y rhanbarth. | Perchennog Porthladd Caergybi yw Stena Line Ports Limited, is-gwmni i Stena Line. Mae Stena Line yn rheoli Porthladd Caergybi a byddai'n gyfrifol am gyflwyno unrhyw uwch-gynllun mewn cydweithrediad â phartneriaid neu randdeiliaid allweddol yn y sector cyhoeddus. Drwy'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol, mae cynlluniau awdurdodau lleol perthnasol yn cynnwys Cynllun 169 Gwelliannau mynediad ar y ddaear a gwaith cysylltiedig i oresgyn cyfyngiadau trafnidiaeth i gael mynediad i safleoedd porthladd rhydd Ynys Môn; Cynllun 255 Mynediad i Safleoedd Porthladd Rhydd; a Chynllun 168 Tanwyddau Amgen Cludo Nwyddau (Hydrogen yng Nghaergybi). |

| Thema | Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad | Ymateb |
|---|---|---|
| | Mae rhai ymatebwyr yn awgrymu y bydd cynllunio ar gyfer trydaneiddio cludo nwyddau yn hanfodol ac y byddai adnabod safleoedd a seilwaith ar gyfer codi tâl am gludo nwyddau, yn enwedig ar hyd coridor yr A55, yn ychwanegiad buddiol i Bolisi RS10. | Mae Polisi Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol PF4 (cefnogi newid i danwydd hydrogen ar gyfer gweithredwyr cludo nwyddau yn y rhanbarth) a Pholisi PF5 (cyfleoedd ar gyfer trydaneiddio cerbydau ar gyfer danfon yn lleol) yn berthnasol. Mae cefnogaeth ar gyfer adnabod safleoedd a seilwaith rhagweithiol ar gyfer codi tâl am gludo nwyddau, yn enwedig ar hyd coridor yr A55, wedi cael mwy o ystyriaeth wrth ddiweddaru’r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol. |
| | Mae rhai ymatebwyr o'r farn bod trafnidiaeth ar y môr yn cael ei hanwybyddu gydag angen am amserlen fferi fwy hawdd ei ddefnyddio rhwng Dulyn a Gogledd Cymru. Mae Stena Line a Irish Ferries yn weithredwyr fferi masnachol cystadleuol ac mae eu llongau yn dilyn amserlen debyg iawn, yn gyffredinol yn gadael bwlch chwe awr rhwng hwylio. Byddai hwylio tua bob tair awr yn llawer mwy ffafriol i gryfhau a thyfu'r cysylltiadau economaidd a chymdeithasol rhwng Cymru ac Iwerddon. | Mae amserlenni hwylio yn gyfrifoldeb i'r gweithredwyr masnachol presennol ond mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn ceisio cefnogi datblygiad porthladdoedd a'r bobl a’r nwyddau sy’n symud drwyddynt trwy bolisïau sy'n ceisio gwella mynediad a chysylltedd. |
| | Mae rhai ymatebwyr yn mynegi cefnogaeth i Bolisi Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol PF1-PF3, gan nodi bod gwelliannau yn y dyfodol i gefnogi twf y porthladd, gorsaf reilffordd a safleoedd Porthladd Rhydd cyfagos yn cael eu croesawu. Mae rhai o'r farn bod angen uwch-gynllun holl-gynhwysfawr ar gyfer y porthladd a'r orsaf reilffordd ehangach. | Nodwyd. Mae Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol 6 (Uwch-gynllun Trafnidiaeth Caergybi) yn ceisio cefnogi Trafnidiaeth Cymru a sefydliadau partner eraill i helpu i symud ymlaen gyda dull cynhwysfawr ac integredig o gynllunio ar gyfer gwelliannau yn yr ardal. |

| Thema | Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad | Ymateb |
|---|---|---|
| | Mae rhai ymatebwyr yn awgrymu defnyddio amonia a gynhyrchir gan ddefnyddio hydrogen gwyrdd a glas mewn porthladdoedd, gan awgrymu bod hyn yn debygol o dyfu'n sylweddol fel tanwydd morol carbon isel amgen sy'n galluogi datgarboneiddio'r sector morol. Gallai hyn gynnwys llongau sy'n gweithio sy'n mynd i mewn ac yn gadael porthladdoedd Mostyn a Chaergybi, llongau cargo, cludiadau fferi HGV, a thwristiaeth. Awgrymir bod y cynllun yn gwneud rhai cyfeiriadau byr at weithio gyda phartneriaid i ddatblygu hybiau ail-lenwi trafnidiaeth hydrogen ar gyfer cerbydau ffordd, ond dylai hefyd ystyried gweithio gyda phartneriaid yn y diwydiannau morol a rheoli porthladdoedd i alluogi cynhyrchu, storio a chyflenwi amonia ar gyfer y diwydiant morol. | Mae cynhyrchu, storio a chyflenwi amonia ar gyfer y diwydiant morol y tu allan i gwmpas y Cynllun Trafnidiaeth ond bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn ystyried yn ofalus sut orau i ymgysylltu â rhanddeiliaid i gefnogi’r porthladdoedd i ddatblygu eu capasiti a’u gallu mewn perthynas â gwell mynediad a dadgarboneiddio. |

| Thema | Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad | Ymateb |
|---|---|---|
| | Mae rhai ymatebwyr yn meddwl y gellid cynnwys polisi neu gynllun yn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol sy'n canolbwyntio ar ddatgarboneiddio cerbydau nwyddau trwm. | Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn nodi nad oes unrhyw gyfleusterau yng Ngogledd Cymru ar hyn o bryd fyddai'n cefnogi cludwyr yn y rhanbarth sy'n ceisio newid i ddefnyddio cerbydau allyriadau isel. Byddai cefnogi cludwyr i wneud y newid hwn yn lleihau effaith leol cerbydau HGV yng ngogledd Cymru. Mae Polisi PF4 (cefnogi newid i danwydd hydrogen ar gyfer gweithredwyr cludo nwyddau yn y rhanbarth) a Pholisi PF5 (cyfleoedd ar gyfer trydaneiddio cerbydau ar gyfer danfoniadau lleol) yn ceisio helpu i ymdrin â'r angen am welliannau.<br><br>Bydd Cynllun Twf Gogledd Cymru, drwy ei brosiect Hwb Hydrogen Caergybi gyda'i ariannwr arweiniol, Menter Môn Cyf, yn sefydlu cyfleuster dosbarthu a chynhyrchu hydrogen gwyrdd ym Mharc Cybi, Caergybi, o fewn parth Porthladd Rhydd Ynys Môn - bydd yn darparu ar gyfer cwsmeriaid trafnidiaeth y ffordd, morwrol a rheilffordd ar draws Gogledd Cymru. Bydd yr hwb yn cynyddu sicrwydd ynni hydrogen, gan leihau'r ddibyniaeth ar fewnforion a lleihau allyriadau carbon, yn enwedig yn y sector cludiant. Bydd y prosiect yn chwarae rhan allweddol yn natblygiad economi hydrogen y rhanbarth, gan ysgogi masnacheiddio a mabwysiadu hydrogen fel tanwydd, denu mewnfuddsoddiad, a chreu swyddi gwerth uchel yn y tymor hir. |
| | Mae rhai ymatebwyr yn ystyried pwysigrwydd hanfodol Porthladd Caergybi i'r rhanbarth (a'r DU ehangach) gyda chefnogaeth i bolisïau PF2 a PF3 sy'n anelu at wella mynediad cerbydau a chyfleusterau i yrwyr HGV. Mae eraill yn awgrymu bod angen cyfleusterau parcio HGV naill ochr i'r Fenai. | Nodwyd. Mae'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cynnwys Cynllun 117 (Darparu parcio HGV yng Nghaergybi, ar hyd yr A55 ac ar ddwy ochr Pont Britannia). |

| Thema | Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad | Ymateb |
|---|---|---|
| | Mae rhai ymatebwyr yn awgrymu y dylai'r cynlluniau gynnwys fferïau trydan ar gyfer twristiaid. | Mae Polisi Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol PF1 yn ceisio cefnogi twf ein porthladdoedd a'n safleoedd datblygu cyfagos yng Ngogledd Cymru, a chefnogi eu cynlluniau ar gyfer datgarboneiddio. Mae datgarboneiddio cerbydau porthladd a fferïau wedi cael mwy o ystyriaeth fel rhan o ddiweddariadau i'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol. |

| Thema | Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad | Ymateb |
|---|---|---|
| Ffyrdd, strydoedd a pharcio | Mae rhai ymatebwyr yn croesawu ffocws y Cynllun ar gefnogi'r trawsnewidiad cerbydau trydan (EV) trwy ddarparu isadeiledd gwefru digonol a chysylltiad â chynllunio defnydd tir. Mae rhai ymatebwyr yn awgrymu bod ardaloedd gwledig yn dioddef o ddiffyg darpariaeth i gerbydau trydan gyda'r posibilrwydd o osod pwyntiau gwefru yn amrywio ar draws y rhanbarth. Mae ymatebwyr eraill yn cefnogi gweithredu isadeiledd cerbydau trydan a'r posibilrwydd o fysiau trydan yn ogystal â cheir. Awgrymir bod Fframwaith Isadeiledd Gwefru Trafnidiaeth EV i'r Gogledd ac adroddiad Isadeiledd Presennol EV ar gael i'r cyhoedd a gallant ddarparu tystiolaeth ehangach ynglŷn â sut y gall partneriaid gynyddu eu defnydd o EV mewn dull trawsffiniol. Mae ymatebwyr eraill yn codi pryderon am y gor-ddibyniaeth bosibl ar y grid cenedlaethol ar gyfer cynnydd yn y galw am wefru EV sy'n arwain at gamgynrychioli posibl o fanteision datgarboneiddio. Mae rhai ymatebwyr yn awgrymu ail-bwrpasu isadeiledd tanwydd a gorsafoedd gwasanaeth presennol, mwy o gefnogaeth i berchnogaeth gymunedol o wefru EV, a'r angen am wybodaeth fwy gwrthrychol i drigolion am gerbydau allyriadau isel. Mae rhai yn mynegi cefnogaeth i bwyntiau gwefru gaiff eu sybsideiddio ar strydoedd preswyl a chanolfannau cymunedol fel cymhellion i annog mwy o ddefnydd o geir trydan. | Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cydnabod pwysigrwydd datgarboneiddio trafnidiaeth trwy ei bolisïau perthnasol RS7-11 a PF5 ac mae wedi'i ddiweddaru i gyfeirio ac ystyried Fframwaith Isadeiledd Gwefru EV Trafnidiaeth i'r Gogledd a'r adroddiad isadeiledd EV presennol a sut y gall partneriaid gynyddu'r defnydd o EV mewn dull trawsffiniol. Mae'r Cynllun hefyd wedi'i ddiweddaru i gryfhau'r ymrwymiad i gerbydau allyriadau isel, gan gynnig cefnogaeth i ail-bwrpasu isadeiledd tanwydd a gorsafoedd gwasanaeth presennol, perchnogaeth gymunedol o gyfarpar gwefru EV, a'r angen am wybodaeth fwy gwrthrychol am gerbydau allyriadau isel i drigolion. Mae'r Cynllun hefyd wedi'i ddiweddaru i gyfeirio at strategaeth ynni gogledd Cymru, sy'n galw am fwy o ynni adnewyddadwy i ateb y galw yn y dyfodol i gyflawni sero net erbyn 2050, a chywiro anghysondebau yn y dyddiadau targed ar gyfer cerbydau allyriadau sero. |

| Thema | Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad | Ymateb |
|---|---|---|
| | Mae rhai ymatebwyr yn awgrymu bod y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn canolbwyntio'n helaeth ar gerbydau trydan (EVs) ac isadeiledd gwefru, gan ddibynnu ar ehangu'r grid cenedlaethol i gwrdd â'r galw cynyddol yma am drydan, ac nid yw'n mynd i'r afael â sut y bydd y trydan hwn yn cael ei gyflenwi. Awgrymir hefyd y dylai'r cynlluniau sicrhau bod ynni adnewyddadwy yn cwrdd â'r galw cynyddol i gyflawni manteision sero net a chynaliadwyedd. Nodir hefyd bod anghysondebau yn y dyddiadau targed ar gyfer cerbydau allyriadau sero yng Ngogledd Cymru (wedi'u nodi fel 2030 ar t27 a 2035 ar t93). | Mae isadeiledd cynhyrchu ynni y tu allan i gwmpas y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, ond mae wedi'i ddiweddaru i roi mwy o ystyriaeth i synergeddau â Strategaeth Ynni Ranbarthol berthnasol gogledd Cymru. Mae anghysondebau yn y dyddiadau targed ar gyfer cerbydau allyriadau sero yng ngogledd Cymru (a nodir fel 2030 ar t27 a 2035 ar t93) wedi'u cywiro. |
| | Mae rhai ymatebwyr yn eiriol dros gynnwys Systemau Rhybuddio Acwstig i Gerbydau (AVAS) i gerbydau trydan, a bod hynny’n fandadol, gan esbonio bod hyn yn arbennig o bwysig i bobl ddall a rhannol ddall sy'n dibynnu ar arwyddion clywedol. | Mae cynnwys Systemau Rhybuddio Acwstig i Gerbydau (AVAS) i gerbydau trydan, yn orfodol, y tu allan i gwmpas y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, ond bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol i helpu sicrhau bod eu cerbydau fflyd eu hunain yn cael eu galluogi. |
| | Mae rhai ymatebwyr yn awgrymu bod Polisi RS6 yn cefnogi ymgorffori paneli haul ar y to neu ganopi meysydd parcio a rennir, a fyddai'n osgoi colli tir ac amrywiaeth yn sgil ffermydd solar newydd. Gellid cymhwyso'r dull hwn hefyd i orsafoedd a depos bysiau sy'n cyd-fynd â nodau Strategaeth Ynni Gogledd Cymru o hyrwyddo ynni adnewyddadwy a lleihau effeithiau ar ddefnydd tir. | Mae Polisi Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol RS6 wedi'i ddiweddaru i ymgorffori gorsafoedd a depos bysiau, gan gyd-fynd â Strategaeth Ynni Gogledd Cymru. |
| | Mae rhai ymatebwyr yn awgrymu y byddai cynnwys y fframwaith caffael cenedlaethol a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer isadeiledd cerbydau trydan yn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn fuddiol iawn. | Mae Llywodraeth Cymru yn datblygu fframwaith caffael cenedlaethol ar gyfer isadeiledd gwefru cerbydau trydan i safoni a gwella safonau'r diwydiant, gan sicrhau isadeiledd gwefru cyson ac integredig ledled Cymru. Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol wedi'i ddiweddaru i gyfeirio at y gwaith hwn. |

| Thema | Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad | Ymateb |
|---|---|---|
| | Mae rhai ymatebwyr yn awgrymu bod cefnogi clybiau ceir cymunedol gan gynnwys Car-n-arfon (Polisi RS12) yn cyd-fynd â'r Strategaeth Ynni Ranbarthol, cam gweithredu 4G, i ddarparu isadeiledd a gwasanaethau trafnidiaeth carbon isel sy'n canolbwyntio ar y gymuned. | Mae Polisi Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol RS12 wedi'i ddiweddaru i ymgorffori cyfeiriad at Car-n-arfon fel enghraifft o isadeiledd a gwasanaethau trafnidiaeth carbon isel sy'n canolbwyntio ar y gymuned, gan gyd-fynd â Strategaeth Ynni Gogledd Cymru. |
| | Mae rhai ymatebwyr yn pwysleisio'r pwysigrwydd bod cyllid digonol ar gael i gynnal isadeiledd presennol priffyrdd, gan gynnwys ffyrdd a phontydd ac asedau cysylltiedig. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ran gwytnwch hinsawdd. Nododd rhai arwyddocâd ansawdd wyneb y ffordd i feicwyr a gwasanaethau bysiau. | Mae Polisi Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol RS1 yn darparu cyfle i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig weithio gyda phartneriaid i sicrhau cyllid digonol ar gyfer arwynebau a chynnal a chadw strwythur sy'n sicrhau gweithrediad parhaus a gwytnwch asedau presennol priffyrdd. |

| Thema | Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad | Ymateb |
|---|---|---|
| | Mae rhai ymatebwyr o'r farn bod y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cynnwys polisïau yn erbyn modurwyr tra'n awgrymu nad oes unrhyw system drafnidiaeth gyhoeddus amgen, y gellir ei defnyddio, yn cael ei darparu. Galwodd rhai ymatebwyr am gael gwared ar bolisi 20mya Llywodraeth Cymru yn ogystal â mynegi ymdeimlad bod modurwyr dan anfantais oherwydd cyfyngiadau cyflymder is, ac mae rhai yn awgrymu bod hyn yn aml yn achosi tagfeydd traffig ac oedi. Er bod rhai ymatebwyr yn cytuno bod trafnidiaeth rhatach sydd ar gael yn haws yn beth da, ystyrir hefyd na ddylai hyn fod ar draul trafnidiaeth breifat sydd ei angen, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. | Nod y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yw hyrwyddo a gwella pob dewis trafnidiaeth sydd ar gael ar draws gogledd Cymru, gan gynnwys y rhai sy'n defnyddio ceir preifat. Nod y dyheadau o dan yr Uchelgais Ffyrdd Strategol yw cynnal a gwella'r rhwydwaith ffyrdd ar gyfer modurwyr preifat yn ogystal â defnyddiau trafnidiaeth amgen. Fel yr amlinellir yn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, mae ffyrdd yng ngogledd Cymru yn cael eu cynnal gan Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru a Llywodraeth Cymru sy'n golygu nad oes gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig na'r Awdurdodau Lleol ddylanwad uniongyrchol ar y rhwydwaith ffyrdd strategol. Mae Uchelgais Gogledd Cymru wedi ymrwymo i ddatgarboneiddio trafnidiaeth ac annog newid mewn modd teithio lle ac fel y bo'n briodol. Mae'r cynllun 20mya yn Strategaeth Llywodraeth Cymru sydd y tu allan i gylch gorchwyl y Cyd-bwyllgor Corfforedig. Yn dilyn cyfnod gwrando cyhoeddus a chyhoeddi canllawiau diwygiedig, mae awdurdodau lleol Cymru wedi bod yn ymgynghori ar newidiadau posibl i'r cyfyngiad cyflymder diofyn o 20mya, gyda rhai awdurdodau'n dechrau asesu ffyrdd a chynnig newidiadau yn ôl i 30mya mewn rhai achosion lle mae achos wedi'i wneud dros eithriadau. |

| Thema | Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad | Ymateb |
|---|---|---|
| | Mae rhai ymatebwyr yn codi pryderon ynglŷn â'r gostyngiad posibl mewn parcio yng nghanol trefi ac ardaloedd twristaidd gan dynnu sylw at y ffaith bod angen ceir ar y rhan fwyaf o dwristiaid i grwydro drwy ogledd Cymru. Gwneir rhai awgrymiadau gan gynnwys cydweithredu â ffermwyr lleol i gynyddu'r ddarpariaeth parcio pan fo angen ac i leihau parcio yng nghanol tref lle mae dewisiadau amgen ar gael. Mae ymatebwyr eraill yn tynnu sylw at y defnydd o gyfleusterau Parcio a Theithio sy'n effeithiol, os yw taliadau parcio yn rhesymol. Mae rhai ymatebwyr yn ystyried yr angen am ddull cyson ar gyfer costau parcio ceir ledled y rhanbarth. | Mae Polisi Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol RS5 a RS6 yn ceisio cefnogi parcio cyhoeddus i geir, sy'n gynaliadwy, mewn trefi a dinasoedd. Mae'r awdurdodau lleol yng ngogledd Cymru yn rheoli ac yn gweithredu ystod o feysydd parcio cyhoeddus sy'n gwasanaethu canol trefi a dinasoedd yn ein rhanbarth. Yr awdurdodau lleol sy'n pennu faint o le parcio sydd ar gael a'r tâl am barcio a rhaid iddynt ystyried y cydbwysedd rhwng faint o le parcio sydd ei angen i gefnogi busnesau lleol, gan annog newid i deithio mwy cynaliadwy, a chost gweithredu’r gwasanaeth parcio. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol ddatblygu strategaeth integredig ar barcio i gefnogi polisïau trafnidiaeth a lleoliadol cyffredinol eu cynlluniau datblygu lleol. Dylai awdurdodau lleol ystyried materion parcio ar y cyd ag awdurdodau cyfagos. Dylid defnyddio safonau parcio gyda hyblygrwydd, gan geisio lefelau is o barcio i gefnogi datblygiad lleoedd o ansawdd uchel. Weithiau gall darparu meysydd parcio dra-arglwyddiaethu ar ein trefi a'n dinasoedd, gyda meysydd parcio a pharcio ar y stryd yn cymryd llawer iawn o le. Weithiau gellid defnyddio'r gofod hwn yn well i gyfoethogi creu lleoedd a gwella'r amgylchedd leol. Mae Siarter Creu Lleoedd Cymru yn pwysleisio pwysigrwydd creu lleoedd sydd wedi'u cynllunio'n dda, yn gynaliadwy ac yn gynhwysol. Mae'n annog awdurdodau lleol a datblygwyr i ystyried effeithiau ehangach parcio ceir ac i flaenoriaethu egwyddorion creu lleoedd wrth gynllunio trefi. |

| Thema | Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad | Ymateb |
|---|---|---|
| | Mae rhai ymatebwyr o'r farn nad oes digon o bwyslais ar fioamrywiaeth ac isadeiledd gwyrdd, yn enwedig o ran goleuadau stryd, a chredir y dylai awdurdodau priffyrdd leihau hyn. Ystyriwyd nad oes gan awdurdodau priffyrdd yr awydd i weithredu isadeiledd gwyrdd ac felly ystyrir nad yw Polisi RS6, sy'n cyfeirio at ailddyrannu mannau parcio i wella'r amgylchedd lleol, yn effeithiol. | Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cydnabod y gallai trawsnewid ardaloedd parcio sy'n cael eu tanddefnyddio neu newid y ffordd y mae pobl yn cyrchu ein lleoedd mewn car arwain at fwy o leoedd yn dod i ddefnydd cymunedol gwell fel parciau neu erddi, a all wella bioamrywiaeth drefol, darparu mannau hamdden a gwella ansawdd aer. Trwy ailfeddwl sut mae parcio ceir wedi'i integreiddio yn ein trefi a'n dinasoedd yng ngogledd Cymru, gallwn greu cyfleoedd i fod o fudd i'n hamgylcheddau lleol, hyrwyddo teithio cynaliadwy, a chreu mannau cyhoeddus mwy deniadol ac ymarferol. Mae adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus gan gynnwys Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd ac awdurdodau lleol i 'geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth' i'r graddau y mae'n gyson ag arfer priodol y swyddogaethau hynny. Wrth wneud hynny, rhaid i awdurdodau cyhoeddus hefyd geisio 'hyrwyddo gwytnwch ecosystemau'. Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol wrth ystyried Polisi RS6 wedi'i ddiweddaru i gyfeirio at y ddyletswydd honno. |

| Thema | Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad | Ymateb |
|---|---|---|
| | Mae rhai ymatebwyr yn mynegi cefnogaeth i welliannau i'r A548 gan nodi y byddent yn lleihau traffig ar Aston Hill ac yn creu mynedfa fwy croesawgar i dwristiaid. | Mae'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cydnabod y cyfle i fwrw ymlaen â gwelliannau i'r A548 ac mae'n cynnwys cynllun Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar gyfer gwella diogelwch llwybrau'r A548.<br><br>Mae Cyngor Sir y Fflint yn cadarnhau bod cyflwyniadau blaenorol wedi'u gwneud i Lywodraeth Cymru ac Asiant y Cefnffyrdd i'r A548 fod yn gefnffordd drwy Sir y Fflint. Dylid ystyried cyswllt mwy cadarn o'r A55 a'r A548 fel ffactor brys a hanfodol sy'n rhoi cyfle i lwybro'r A550/A55 i ffwrdd o fannau cyfyng presennol wrth bont Queensferry ac Aston Hill. Trwy ddarparu llwybr amgen i ran arfordirol yr A55 o rwydwaith traffyrdd Lloegr, gellid lleihau'r llwybr presennol o ran capasiti, trwy dynnu'r tros-bontydd o gyfnewidfeydd Queensferry ac Ewlo. Byddai hyn yn darparu gwelliant amgylcheddol ac o ran llygredd a gwytnwch i un o'r llwybrau prysuraf i mewn i Gymru a llwybr Ewropeaidd allweddol i Iwerddon. Byddai cynnal rhywfaint o gapasiti ond symud y rhan fwyaf o'r traffig i'r A548 yn rhoi'r fantais ychwanegol o ddarparu cylchffordd gylchredol lawn o amgylch ardal Glannau Dyfrdwy, Queensferry, Cei Connah gan leihau'r problemau tagfeydd a brofir yn yr ardal ar hyn o bryd. |
| | Mae rhai ymatebwyr yn ystyried ei bod yn flaenoriaeth allweddol i adeiladu cyswllt rhwng pont y Fflint a Llaneurgain. | Mae Cyngor Sir y Fflint yn ymwybodol o ganlyniad Adolygiad Ffyrdd yr A55, yr A494 a llwybrau SRN eraill, oedd yn dilyn argymhellion Comisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru ac yn cyd-fynd â'r profion adeiladu ffyrdd yn y dyfodol. Roedd Sir y Fflint wedi awgrymu opsiynau amgen ar gyfer gwelliannau i'r coridor hwn a elwir yn opsiwn "Gwyrdd", a fyddai wedi cynyddu gwytnwch, ond nid oedd angen y ffordd gyswllt. |

| Thema | Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad | Ymateb |
| --- | --- | --- |
| | Mae rhai ymatebwyr yn croesawu'r ymrwymiad o'r newydd i gefnogi dull 'Gweledigaeth Sero' Llywodraeth Cymru o ddiogelwch ar y ffyrdd, gan nodi bod y cynigion manwl yn pwysleisio rôl cynlluniau newydd. Mae ymatebwyr yn mynegi cefnogaeth i gofleidio'r rôl y mae rheoli asedau yn ei chwarae wrth sicrhau diogelwch holl ddefnyddwyr y ffordd, gan gynnwys troedffyrdd a chroesfannau. Mae ymatebwyr eraill o'r farn nad oes digon yn cael ei wneud i fynd i'r afael â phryderon diogelwch, gan sôn yn benodol am gyfleusterau gollwng a pharcio ar Cross Tree Lane – Penarlâg. | Mae Cyngor Sir y Fflint yn cadarnhau bod y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a Strategaeth Trafnidiaeth Integredig Sir y Fflint ei hun yn cefnogi uchelgais Gweledigaeth Sero i ddileu marwolaethau ac anafiadau difrifol ar y ffyrdd yn ogystal â chydnabod pwysigrwydd rheoli asedau parhaus wrth gynnal isadeiledd diogel a hygyrch i bob defnyddiwr. Mae pryderon lleol a godwyd mewn perthynas â Cross Tree Lane fel arfer yn cael sylw trwy fecanweithiau presennol a arweinir gan y cyngor, gan gynnwys archwiliadau diogelwch ffyrdd, adolygiadau trafnidiaeth lleol, ac asesiadau traffig ardal-benodol. Mae'r rhain yn caniatáu i awdurdodau lleol nodi problemau, ymgynghori â chymunedau, a blaenoriaethu gwelliannau. Bydd y pryderon a godwyd yn cael eu cyfeirio at yr awdurdod lleol perthnasol i'w hystyried ymhellach o fewn y fframwaith hwn, gan sicrhau bod unrhyw ymyraethau arfaethedig yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn cyd-fynd â'r strategaeth ehangach Gweledigaeth Sero. |
| | Mae rhai ymatebwyr yn cytuno bod tagfeydd yng nghanol trefi ac ardaloedd trefol yn broblem, gyda chyfeiriadau penodol at y Bala, Shotton a Chei Connah. Fodd bynnag, mae rhai yn tynnu sylw at y dull blanced hwn sy'n dargyfeirio'r holl draffig ac y gall hyn arwain at ganol trefi gwag, gyda risg bod y sector twristiaeth yn colli ymwelwyr. Felly, ystyrir ei bod yn bwysig bod mesurau llacio tagfeydd yn rhan o weledigaeth ehangach. | Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cydnabod yr angen am atebion i greu lleoedd da wrth fynd i'r afael â dibyniaeth ar geir, gan gynnwys Polisi RS6. Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol hefyd yn cydnabod gwerth y diwydiant twristiaeth yng ngogledd Cymru ac yn cynnwys polisïau CB15-23 sy'n helpu pobl i fwynhau ein hatyniadau ymwelwyr a chefnogi'r diwydiant twristiaeth. |

| Thema | Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad | Ymateb |
|---|---|---|
| Mynediad ar y ddaear at awyrennau | Mae rhai yn awgrymu y byddai gwell cysylltedd â Maes Awyr Lerpwl o fudd i ogledd Cymru ac yn cyd-fynd â dyheadau Rhanbarth Dinas Lerpwl (LCR) i wella mynediad ar y ddaear gan ddefnyddio trafnidiaeth gyflym bysiau. Mae rhai ymatebwyr wedi tynnu sylw at y ffaith nad oes mynediad i Feysydd Awyr Lerpwl neu Fanceinion ar hyn o bryd heblaw am yn y prynhawn. | Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cydnabod gwerth a phwysigrwydd cysylltedd â Maes Awyr John Lennon Lerpwl a Maes Awyr Manceinion ac mae Polisi AV1 yn cefnogi gwelliannau i fynediad daear i feysydd awyr domestig a rhyngwladol, gan ganolbwyntio ar wella gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus. |
| | Mae rhai ymatebwyr o'r farn bod y sôn am Faes Awyr Ynys Môn ar dudalen 10 a 19 yn anghywir ers i'r maes awyr hwnnw gau yn 2022. Mae hyn yn pwysleisio'r angen am gysylltiadau trafnidiaeth cyflym amgen ar gyfer cysylltedd ledled y wlad. Mae rhai yn awgrymu adfer maes awyr Ynys Môn, a fyddai'n helpu datblygiad economaidd yr ardal ac a fyddai'n haws ei chyrraedd drwy ddefnyddio cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus presennol. | Er bod y maes awyr yn dal i gael ei ddefnyddio, mae'n gwasanaethu gweithgareddau hedfan cyffredinol yn bennaf, gan gynnwys hyfforddiant a hediadau anfasnachol eraill. |
| Cysylltedd digidol | Mae rhai ymatebwyr yn ystyried y gellid gweithredu'r camau canlynol i uwchraddio gorsafoedd trên ac arosfannau bysiau i hyrwyddo mwy o ddefnydd: ailenwi gorsafoedd i dynnu sylw at gysylltedd; uwchraddio cysgodfannau ac ychwanegu nodweddion fel teledu cylch cyfyng i atal fandaliaeth; ychwanegu gwybodaeth cyrraedd amser real i orsafoedd bysiau. Mae ymatebwyr eraill yn atgyfnerthu'r angen i barhau i ddarparu amserlenni bysiau ysgrifenedig i'r rhai sydd ddim ar-lein. | Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cydnabod pwysigrwydd hyrwyddo'r defnydd o wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus trwy isadeiledd ddiogel a deniadol. Mae'r polisïau a ganlyn yn berthnasol:  Polisi DC2 (Hyfforddiant ac addysg llythrennedd digidol), Polisi DC3 (cyflwyno gwybodaeth ddigidol ac amser real) a Pholisi PT8 (Gwella arosfannau bysiau allweddol i gynnwys cysgodfannau, gwybodaeth amser real a gwybodaeth am gysylltiad teithio ymlaen ac ati). |
| | Mae rhai ymatebwyr yn mynegi cefnogaeth i Bolisi PT6, ac er eu bod yn croesawu cynlluniau i wella mynediad at wybodaeth amser real mewn arosfannau bysiau, maent yn cynghori bod hyn yn cael ei weithredu yn unol â Rheoliadau Cerbydau Gwasanaeth Cyhoeddus (Gwybodaeth Hygyrch) 2023. | Nodwyd. |

| Thema | Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad | Ymateb |
|---|---|---|
| | Mae rhai ymatebwyr o'r farn y byddai digideiddio gwasanaethau yn gwella'r defnydd a wneir o drafnidiaeth gyhoeddus. Mae rhai ymatebwyr yn cytuno â'r angen am well gwybodaeth am wasanaethau ac yn ystyried y byddai gwell gwybodaeth amser real yn cynyddu hyder wrth ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, sydd ar hyn o bryd yn teimlo'n annibynadwy. Byddai amserlenni byw wedi'u digido a chymhwysiad integredig a chodau QR hefyd yn cefnogi hyn. Mae rhai ymatebwyr yn codi'r angen am gyfeiriadau mwy penodol yn y cynlluniau i uwchraddio gwasanaethau 4G/5G ar gyfer gwell gwasanaeth i ddyfeisiadau symudol ar drafnidiaeth gyhoeddus, yn enwedig gwasanaethau trên Arfordir Gogledd Cymru a gwasanaethau bysiau. | Mae'r Polisi Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol DC3 yn cefnogi dull partneriaeth o gyflwyno gwybodaeth ddigidol ac amser real am wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus, ac mae'n nodi, gan weithio gyda gweithredwyr gwasanaeth a gorsafoedd gan gynnwys Trafnidiaeth Cymru a Network Rail, ein bod am weld gwell Wi-Fi i deithwyr ar wasanaethau bysiau a rheilffyrdd yn ogystal â mewn cyfnewidfeydd trafnidiaeth, i'w gwneud hi'n haws ac yn fwy deniadol i bobl ddod o hyd i'w ffordd o gwmpas a gwella'r profiad teithio. |
| Cynllunio Defnydd Tir | Mae rhai ymatebwyr yn ystyried bod polisïau sy'n anelu at hyrwyddo datblygiadau sy’n ystyried trafnidiaeth a thorri dibyniaeth ar geir preifat trwy ddatblygu cynaliadwy yn gadarnhaol, gyda'r angen am ddatblygiad pellach mewn Cynlluniau Datblygu Strategol. Mae rhai ymatebwyr yn annog defnyddio Siarter Creu Lleoedd Cymru fel offeryn ar gyfer dadansoddi a strategaeth yn seiliedig ar leoedd yn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a'r Cynllun Datblygu Strategol. Mae un ymatebydd yn cyfeirio at Borth Wrecsam fel enghraifft lle dylid cymhwyso dull cyfannol o brosiectau i ganolfannau trafnidiaeth a chyfnewidfeydd allweddol. Pwysleisir y dylai ymyraethau sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth fynd law yn llaw â mentrau datblygu economaidd eraill ar lefel ranbarthol a lleol. | Mae Polisi Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol LU1 yn cefnogi’r egwyddor o Ddatblygu ar sail Trafnidiaeth ar gyfer datblygiadau newydd. Fel rhan o Bolisi RS6 cyfeirir at Siarter Creu Lleoedd Cymru, i bwysleisio pwysigrwydd creu lleoedd sydd wedi'u cynllunio'n dda, yn gynaliadwy ac yn gynhwysol. Mae'n annog awdurdodau lleol a datblygwyr i ystyried effeithiau ehangach parcio ceir ac i flaenoriaethu egwyddorion creu lleoedd wrth gynllunio trefi. Bydd hyn yn mynd ymlaen i'r Cynllun Datblygu Strategol sy'n dod i'r amlwg. |

| | | |
|---|---|---|
| | Mae rhai ymatebwyr yn annog ystyried dull sy'n seiliedig ar le sy'n mynd i'r afael â'r materion gofodol, cyfleoedd a pholisïau fel pecyn o fesurau, yn hytrach na bod y cynllun yn cael ei gyflwyno mewn categorïau sy'n seiliedig ar bwnc. | Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol wedi'i osod i fframio ein polisïau a'n ymyraethau sy'n ystyried themâu polisi yn seiliedig ar naw cynllun bach Strategaeth Trafnidiaeth Cymru i bob dull o drafnidiaeth.<br><br>Mae'n mynd ymlaen i esbonio sut mae angen mwy o fannau cyhoeddus wedi'u cynllunio'n dda sy'n ystyried dull sy'n seiliedig ar le ac anghenion y gymuned gyfan. Mae'n esbonio bod creu lleoedd a mesurau canfod ffyrdd deniadol yn gyfranwyr allweddol at wella trafnidiaeth gynaliadwy i bobl. Wrth ystyried Polisi RS6, mae'r cynllun yn nodi sut mae Siarter Creu Lleoedd Cymru yn pwysleisio pwysigrwydd creu lleoedd wedi'u cynllunio'n dda, yn gynaliadwy a chynhwysol. Mae'n annog awdurdodau lleol a datblygwyr i ystyried effeithiau ehangach parcio ceir ac i flaenoriaethu egwyddorion creu lleoedd wrth gynllunio trefi. Wrth ystyried polisïau cynllunio defnydd tir y cynllun, mae'n nodi bod Cynlluniau Creu Lleoedd yng Nghymru hefyd yn adeiladu ar y polisi Canol Tref yn Gyntaf, sy'n ffordd o greu gweledigaeth ar gyfer dyfodol ardal, ac i nodi camau gweithredu a all ei gwella. Anogir cynlluniau creu lleoedd ym mhob tref a chanolfannau mwy trefol eraill yng ngogledd Cymru i ddarparu dull trosfwaol o ymdrin â sut y dylai lle edrych, teimlo a gweithredu nawr ac yn y dyfodol, a dylent ymgorffori ystyriaethau ynghylch darparu trafnidiaeth, yn enwedig cyfnewidfeydd trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol.<br><br>Mae'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol wedyn yn amlinellu'r dull sy'n seiliedig ar rwydwaith a ddilynwyd yn ein cynigion, gan esbonio bod rhaglenni a phrosiectau yn cael eu nodi i gael effaith ranbarthol neu is-ranbarthol, ar y graddfeydd gofodol canlynol: Pob rhan o ogledd Cymru; Trefi mawr gyda phoblogaeth o dros 10,000; Trefi bach ac ymylon trefi mawr; Pentrefi; Pentrefannau ac anheddau anghysbell. |

| Thema | Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad | Ymateb |
|---|---|---|
| | Mae rhai ymatebwyr yn awgrymu gweithredu mapiau asedau ehangach sy'n dangos pob safle twristiaeth posibl gydag awgrymiadau o Blas Newydd (Ynys Môn) fel safle delfrydol i dreialu tocyn ymwelwyr a theithio cyfunol. | Fel y nodir yn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu rhoi'r gallu i awdurdodau lleol godi treth ymwelwyr ar arhosiad dros nos yn eu cymunedau. Bydd y cyfraniad hwn yn cael ei dalu gan ymwelwyr a'i fuddsoddi mewn twristiaeth gynaliadwy. Mae Polisi CB22 yn amlinellu y byddwn yn gweithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid yn y diwydiant twristiaeth ar yr arfordir i adnabod mesurau a fydd yn cefnogi newid i ddulliau cynaliadwy i gael mynediad at atyniadau poblogaidd tra'n parhau i sicrhau bod gogledd Cymru yn parhau i fod yn gyrchfan o ddewis ar gyfer gwyliau a theithiau dydd. Er enghraifft, mae Cyngor Sir Ynys Môn yn bwriadu ystyried cynllun teithio i ymwelwyr ar gyfer yr holl brif atyniadau twristaidd ar yr Ynys gyda mewnbwn gan randdeiliaid ac atyniadau. |
| | Mae rhai ymatebwyr yn mynegi cefnogaeth gref i Bolisi LU4 (Dylid cefnogi datblygiadau dim ond lle maent yn hyrwyddo cysylltedd teithio llesol) ac yn awgrymu y dylid ymgorffori hyn yn y Cynllun Datblygu Strategol. | Nodwyd. |
| | Mae rhai ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig ar gyfer Partneriaeth Trafnidiaeth Strategol sy'n cynnwys cyflogwyr mawr ar draws Wrecsam a Sir y Fflint, fel cam cadarnhaol tuag at fanteisio i'r eithaf ar opsiynau teithio ar gyfer cymudo mewn ardaloedd cyflogaeth a chlystyrau allweddol, gyda'r cynllun yn cydnabod clystyrau teithio trawsffiniol i'r gwaith o amgylch Parc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy, canol dinasoedd Wrecsam a Chaer, Airbus Brychdyn, Parc Busnes Caer, ac Ystâd Ddiwydiannol Wrecsam. | Nodwyd. |

| Thema | Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad | Ymateb |
|---|---|---|
| | Mae rhai ymatebwyr o'r farn bod angen cydlynu gwell rhwng polisïau cynllunio defnydd tir lleol a chynllunio trafnidiaeth a gyda mwy o gyfeiriad at y gwelliannau rhwydwaith priffyrdd a fydd yn angenrheidiol i hwyluso datblygiadau newydd. | Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cynnwys adran benodol ar gynllunio defnydd tir, sy'n ceisio esbonio'r berthynas â'r Cynllun Datblygu Strategol sy'n dod i'r amlwg, a'r polisïau perthnasol sy'n anelu at gyfuno trafnidiaeth a chynllunio defnydd tir yn well. |
| | Mae rhai ymatebwyr yn ystyried yr angen i wella cysylltiadau trawsffiniol ac i ranbarthau ehangach Cymru, yn enwedig i wella mynediad at waith ac addysg, gan hyrwyddo datblygiad economaidd. Mae rhai ymatebwyr yn falch bod y Cynllun yn cydnabod pwysigrwydd hanfodol cysylltedd trafnidiaeth drawsffiniol effeithiol, cynaliadwy rhwng Gorllewin Swydd Gaer a Chaer a gogledd Cymru. Mae hyn yn cael ei ystyried yn arbennig o arwyddocaol o ystyried rôl Caer fel porth allweddol i rwydweithiau ffyrdd a rheilffyrdd strategol gogledd Cymru, ac fel canolfan ranbarthol sy'n cysylltu coridor yr A483/A55 a gydnabyddir yn y cynllun fel catalydd ar gyfer twf economaidd ehangach. | Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cydnabod pwysigrwydd a gwerth cysylltedd trawsffiniol ac yn cyflwyno tystiolaeth i gefnogi'r angen am well hygyrchedd, yn enwedig rhwng gogledd Cymru a Gogledd Orllewin Lloegr. Enghraifft o bolisi perthnasol sy'n ceisio helpu i gyflawni hyn yw Polisi CB3 (Gweithio gydag Awdurdodau Lleol a Chyfun cyfagos gan gynnwys Gorllewin Swydd Gaer a Chaer a Rhanbarth Dinas Lerpwl i sicrhau dull cyflenwol o Gynllunio Trafnidiaeth, yn enwedig yn Is-ranbarth Merswy-Dyfrdwy. Dylai hyn ystyried teithiau cymudo a symudiad nwyddau). |
| | Roedd rhai ymatebwyr yn falch o weld Polisi CB19 (Bydd y Cynllun Datblygu Strategol yn ystyried gofynion tir ar gyfer cyfleusterau cyfnewid ar safleoedd porth i Barc Cenedlaethol Eryri ac yn ystyried y dylai trafodaethau ddechrau ar frys.) | Nodwyd. |
| | Mae rhai ymatebwyr yn ystyried bod polisïau defnydd tir yn ddyheadau yn hytrach na thargedau i gyflawni deilliannau cadarnhaol, ac yn awgrymu ail-eirio cynlluniau i wneud targedau'n fwy eglur. | Mae'r Cynllun Monitro a Gwerthuso yn nodi cyfres o fesurau a dangosyddion i helpu i ystyried cynnydd tuag at y targedau a nodwyd. Mae polisïau ac ymyriadau y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn ceisio helpu i gyfrannu at gyflawni'r targedau hynny. |

| Thema | Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad | Ymateb |
|---|---|---|
| | Mae rhai ymatebwyr yn tynnu sylw at effaith diffyg trafnidiaeth gyhoeddus ar yr henoed, pobl anabl a phobl ifanc, gyda phryderon am lefelau presennol o ddarpariaeth sydd yn groes i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a’r Ddeddf Cydraddoldeb, gan nodi ei bod yn ei gwneud hi'n anodd mynychu apwyntiadau, gwaith ac ysgol. Awgrymir bod disgyblion ysgol uwchradd yn aml yn dibynnu ar rieni i fynd i'r ysgol ac oddi yno gyda bysiau sydd ddim yn gwasanaethu'r diben hwn ac yn aml heb unrhyw opsiynau trafnidiaeth gyhoeddus eraill ar gael. Mae ymatebwyr eraill yn croesawu polisïau sy'n canolbwyntio ar sicrhau mynediad effeithiol i safleoedd addysgol (CB10, CB11, CB12) trwy drafnidiaeth gynaliadwy, ond yn cynghori bod angen cyfuniad o fesurau i sicrhau newid ystyrlon, gan gynnwys mabwysiadu strydoedd ysgolion. | Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cydnabod pwysigrwydd teithio i'r ysgol ac opsiynau trafnidiaeth cynaliadwy i wella hygyrchedd i waith, cyfleusterau ac addysg (yn enwedig 'Darparu dewisiadau i bobl ynglŷn â sut maent yn cael mynediad at wasanaethau'). Mae'r Arfarniad Llesiant Integredig ategol yn ystyried effaith y cynllun yn ofalus ar feysydd lles a chydraddoldeb. |
| | Mae rhai ymatebwyr yn ystyried yr angen i'r Hierarchaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy gael llinyn cryf trwy gydol y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol gyda'r holl bolisïau a phrosiectau yn cael eu halinio'n glir â'r hierarchaeth a'r nod o greu lleoedd cynaliadwy. Mae rhai ymatebwyr yn canmol y rhannau o'r cynllun sydd wedi eu gosod yn nhrefn yr hierarchaeth trafnidiaeth gynaliadwy. | Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cydnabod pwysigrwydd yr Hierarchaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy ac mae'n cynnwys Polisi LU2 (Bydd yr Hierarchaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy yn cael ei ddefnyddio i helpu i sicrhau bod datblygiadau’n cefnogi cerdded a beicio, trafnidiaeth gyhoeddus a cherbydau allyriadau isel iawn dros gerbydau modur preifat eraill). |

| Thema | Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad | Ymateb |
|---|---|---|
| | Mae rhai ymatebwyr yn awgrymu defnyddio cyllid Adran 106 neu Ardoll Isadeiledd Cymunedol (CIL) ar dai newydd a datblygiadau masnachol i ariannu gwell gwybodaeth am wasanaethau bysiau neu ar gyfer tocynnau tymor cychwynnol i breswylwyr newydd. Awgrymir y bydd cytundebau Adran 106 yn bwysig wrth sicrhau bod datblygwyr mawr yn cyfrannu at wella isadeiledd a mentrau trafnidiaeth, gan nodi cyfle i'r rhanbarth fanteisio ar strategaethau gwerth cymdeithasol a chynlluniau cyflawni o'r llif prosiectau isadeiledd mawr arfaethedig/posibl yng ngogledd Cymru. Awgrymir y gallai gweithio'n agos gyda hyrwyddwyr prosiect a datblygwyr hefyd arwain at gyllid/adnoddau ychwanegol tuag at gyflawni amcanion y Cynllun. | Er bod y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cynnwys polisïau sy'n ceisio chwalu'r ddibyniaeth ar y car preifat drwy ddatblygu cynaliadwy (yn benodol, Polisi LU4 a 5), mae wedi'i ddiweddaru i gyfeirio at rai o'r offer sydd ar gael i gynllunwyr i helpu i gyflawni hyn, gan gynnwys adran 106 a CIL. |

| Thema | Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad | Ymateb |
|---|---|---|
| Cyflawnadwyedd a fforddiadwyedd | Mae rhai ymatebwyr o'r farn nad yw'r cynlluniau yn realistig nac yn ymarferol, o ran cyllid ac oherwydd natur yr ardal sy'n wledig, er gwaethaf yr awgrym mai yn yr ardaloedd hynny y mae angen y gwelliannau fwyaf. Er bod rhai ymatebwyr yn cytuno â'r gwaith a wnaed i nodi, blaenoriaethu ac ariannu cynlluniau, mae eraill yn codi pryderon am fforddiadwyedd, ac mae angen mwy o fanylion i ddangos sut a ble y bydd newidiadau'n cael eu gwneud. Mae rhai ymatebwyr yn galw ar y CBC i ystyried symleiddio'r allbynnau o'r broses ymgynghori a blaenoriaethu adnabod pib-linell o brosiectau sydd â thebygolrwydd uchel o fynd rhagddynt yn ystod cyfnod y cynllun, yn dilyn pryder bod llu o gynlluniau yn rhwystr i sefydlu cyd-dealltwriaeth o flaenoriaethau. Mae rhai yn pwysleisio bod effeithiolrwydd y CTRh yn dibynnu ar weithredu'r Cynllun Cyflawni, ac mae angen mecanwaith i sicrhau bod cyllid yn cael ei rannu'n gyfartal ar draws y rhanbarth. | Darperir ffrydiau cyllido presennol ac amserlenni gweithredu yn y Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol, a fydd yn parhau i gael ei adolygu trwy gydol proses weithredu'r cynllun. Mae fforddiadwyedd yn ystyriaeth allweddol, yn enwedig mewn rhannau mwy gwledig o ogledd Cymru, ac mae diweddariadau wedi'u gwneud i'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol i ystyried costau a chyllid yn fanylach mewn perthynas â ffynonellau cyllid Llywodraeth Cymru. Bydd cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer cynlluniau trafnidiaeth a ddarperir gan awdurdodau lleol yn cael ei ddyrannu ar sail y cynlluniau sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Cyflawni. Yn bwysig, mae Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen â'i chynlluniau ar gyfer proses foderneiddio grantiau, sy'n ceisio dod â nifer o grantiau trafnidiaeth lleol ynghyd, gan alinio'r ffrydiau ariannu hyn â'r Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol a bydd hyn yn rhoi mwy o allu i'r CBCau wneud penderfyniadau ynghylch sut mae cyllid grant trafnidiaeth leol yn cael ei wario ochr yn ochr â'u hawdurdodau lleol, mewn ffordd gydweithredol wrth i'r rhaglen gyflawni bob blwyddyn weithredu'r Cynllun Cyflawni a chael ei thrafod a'i chytuno yn y dyfodol, gan ei mabwysiadu ar ôl y cynllun. |

| Thema | Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad | Ymateb |
|---|---|---|
| | Nododd rhai ymatebwyr bryderon ynglŷn â ble mae’r Cynllun yn dangos meysydd lle mae gan Uchelgais Gogledd Cymru ddylanwad cyfyngedig neu ddim dylanwad uniongyrchol na chyfrifoldebau mewn perthynas â thrafnidiaeth (e.e. prosiectau cefnffyrdd a rheilffyrdd) gan geisio eglurhad ynglŷn ag os oes mecanweithiau yn eu lle neu y bwriedir eu cael i sicrhau bod buddiannau’r rhanbarth yn cael eu cynrychioli’n llawn ac yn hafal pan fo penderfyniadau sy’n dylanwadu ar gynaliadwyedd trafnidiaeth yn y dyfodol yng ngogledd Cymru yn cael eu gwneud gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a/neu asiantau eraill. | Rhaid i'n Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol gynnwys polisïau i gefnogi gweledigaeth ac uchelgeisiau Llwybr Newydd, Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, a chyd-fynd â'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Cenedlaethol. Mae'n cysylltu â chynlluniau a pholisïau strategol cenedlaethol a rhanbarthol perthnasol fel y nodir yn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, er enghraifft Adolygiad Cysylltedd Undeb y DU, Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan Cymru ac ati. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cyfrannu at gyflawni blaenoriaethau cenedlaethol, a bod ffynonellau cyllid Llywodraeth Cymru a'r DU yn amlwg yn gysylltiedig â'n cynlluniau, fel y manylir yn y Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol. Mae gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig bwerau tebyg i awdurdod lleol, a bydd yn gweithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid fel y bo'n briodol i fwrw ymlaen â chynlluniau ar gyfer trafnidiaeth yn y rhanbarth. |
| | Mae rhai ymatebwyr yn ystyried y cynlluniau i fod yn "wastraff arian" ar gynlluniau nad ydynt yn cael eu hystyried yn flaenoriaethau (yn eu barn nhw), gan ganolbwyntio ar deithio llesol ac isadeiledd gwefru cerbydau trydan. | Fel y nodir yn y Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol, mae cynlluniau wedi'u nodi, eu gwerthuso ac wedi ymgynghori arnynt i helpu sicrhau bod y cynlluniau yn addas i'r diben ac wedi eu cymeradwyo mor eang â phosibl. Ystyrir bod mesurau isadeiledd teithio llesol a gwefru cerbydau trydan yn bwysig i helpu lleihau dibyniaeth ar y car ar gyfer teithiau byrrach, ac maent yn cefnogi datgarboneiddio trafnidiaeth ac yn adlewyrchu strategaeth a pholisi Llywodraeth Cymru. |

| Thema | Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad | Ymateb |
|---|---|---|
| | Mae rhai ymatebwyr yn ystyried y dylai teithio llesol dderbyn o leiaf 10% o gyfanswm gwariant trafnidiaeth, gyda chyllid wedi'i neilltuo ar gyfer cerdded, olwynion, a beicio, a gyda CBCau yn sefydlu mecanwaith glir a chyson i ddosbarthu cyllid teithio llesol i awdurdodau lleol. Mae eraill yn ychwanegu bod angen mecanwaith o hyd i sicrhau bod cyllid yn cael ei rannu'n gyfartal er mwyn darparu buddion pendant i bob cymuned ledled gogledd Cymru. | Fel y nodir yn y Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol, bydd cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer cynlluniau trafnidiaeth i'w darparu gan ein hawdurdodau lleol yn cael ei ddyrannu yn seiliedig ar y cynlluniau sydd yn ein Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol. Yn bwysig iawn, mae Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen â'i gynlluniau ar gyfer proses moderneiddio grantiau, sy'n ceisio dod â nifer o grantiau trafnidiaeth lleol ynghyd, gan alinio'r ffrydiau ariannu hyn gyda'r Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol a'u Cynlluniau Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol. Nod hyn yw rhoi mwy o allu i ni wneud penderfyniadau o ran sut mae arian grant trafnidiaeth lleol yn cael ei wario. Drwy ddyrannu cyllid i drafnidiaeth ranbarthol, bydd hyn hefyd yn helpu i leihau'r baich gweinyddol ar ein hawdurdodau lleol. Byddwn yn parhau i weithio gyda'n partneriaid i adnabod ffynonellau cyllid ar lefel leol, rhanbarthol, cenedlaethol a'r DU i ddatblygu ein cynlluniau ar gyfer rhwydwaith trafnidiaeth gynaliadwy o ansawdd uchel ledled gogledd Cymru. Mae cynlluniau cerdded, olwyno a beicio yn chwarae rhan bwysig yn ein Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol. |
| | Mae rhai ymatebwyr yn codi pryderon os yw'r swm o gyllid sydd ar gael i gyflawni'r cynlluniau yn sylweddol llai nag sydd ei angen, yna gallai teithio llesol fod ar ei golled i nifer fach o brosiectau proffil uchel a drud. | |
| | Mae rhai ymatebwyr yn tynnu sylw at weinyddu grantiau o flwyddyn i flwyddyn sy'n rhoi cyfyngiad neu risg sylweddol ar awdurdodau lleol ac yn awgrymu nad yw'r fecanwaith ar gyfer dosbarthu cyllid yn ddigonol nac yn deg, sy'n golygu bod gwahaniaeth sylweddol yn aml rhwng lefel y ddarpariaeth a'r gallu i deithio rhwng ardaloedd trefol a gwledig. | |
| | Mae rhai ymatebwyr yn awgrymu y dylid cynnwys adran bwrpasol ar gymhellion ariannol yn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol sy'n pwysleisio cydweithio â llywodraeth y DU ac archwilio amrywiol fodelau fforddiadwyedd a pherchnogaeth ar gyfer cerbydau allyriadau sero. Gellid cynnwys mecanwaith adolygu yn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol i asesu ac addasu cyfnodau cyllido a hyd contractau ar gyfer y Gronfa Trafnidiaeth Leol. | |

| Thema | Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad | Ymateb |
|---|---|---|
| | Mae rhai ymatebwyr o'r farn bod angen eglurder pellach ynglŷn ag o ble y daw'r gallu a'r adnoddau i gyflawni'r Cynllun Cyflawni. Mae angen taro cydbwysedd mewn perthynas â gweledigaeth a dyheadau Llywodraeth Cymru ar gyfer trafnidiaeth yng ngogledd Cymru yn erbyn y cyllid fydd ar gael i gyflawni'r dyheadau – mae perygl y byddwn yn codi disgwyliadau pobl heb sicrwydd y bydd y cyllid ar gael i gyflawni'r blaenoriaethau allweddol. | Mae'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol wedi'i ddiweddaru i ystyried yn fanylach y wybodaeth am gostau cyfalaf a refeniw, a fforddiadwyedd yng nghyd-destun cyllidebau Llywodraeth Cymru. |
| | Mae rhai ymatebwyr yn ystyried bod angen blaenoriaethu clir a statws presennol y prosiectau a fydd yn ffurfio'r ymyraethau. Yn ogystal, byddai arwydd o'r dyraniad cyllid a sicrhawyd neu sy'n cael ei geisio (gyda graddfa amser) ac amserlen ar gyfer cyflawni'r ymyraethau posibl yn ddefnyddiol iawn. Yn benodol, gwahaniaethu rhwng y rhai yn y 5 mlynedd nesaf, y rhai sy'n dod yn ddiweddarach, a'r rhai sy'n strategol. Gyda hyn wedi'i restru yn erbyn pob prosiect o fewn y cynllun, byddai'n osgoi'r risg o 'restr ddymuniadau' heb werth ychwanegol / gwerth ychwanegol cyfyngedig o'r wybodaeth sydd eisoes wedi'i chynnwys yn y Cynllun Cyflawni Cenedlaethol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. | Mae'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol yn amlinellu yn ei atodlen Enw'r Cynllun, Disgrifiad, Polisi / thema, Awdurdod(au) Lleol Arweiniol, Amserlen Gyflawni a Ragwelir, Amcangyfrif o Lefel Cost CAPEX, Amcangyfrif o Lefel Cost OPEX, Ffynhonnell Ariannu Posibl a Blaenoriaeth (byr, canolig, hir, uchelgeisiol). |
| | Mae rhai ymatebwyr yn awgrymu blaenoriaethu rhai 'enillion cyflym' neu 'bethau hawdd i'w torri' er mwyn bwrw iddi a dangos bod cyflawniad yn erbyn yr amcanion. Awgrymir y byddai profi gwelliannau tymor byr yn helpu i ennill ymddiriedaeth a chefnogaeth i'r cynlluniau, a fyddai yn ei dro yn ysgogi partneriaid cyflawni, cymunedau lleol ac aelodau o'r cyhoedd. Mae rhai yn pryderu y bydd 'enillion hawdd' ar hyd yr A55 a chynlluniau yng Ngogledd Ddwyrain Cymru yn cael eu blaenoriaethu gyda'r angen i sicrhau cydraddoldeb ar draws y rhanbarth. | Mae'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol yn nodi'r dull a gymerir tuag at, a chanlyniadau, blaenoriaethu cynlluniau. Mae hyn yn seiliedig ar broses y cytunwyd arni sy'n cynnwys Trafnidiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru ochr yn ochr ag awdurdodau lleol sy'n helpu i sicrhau bod cynlluniau yn cael eu blaenoriaethu ar sail ranbarthol. Mae hyn yn cynnwys cynlluniau tymor byr, canolig a hir yn ogystal â chynlluniau uchelgeisiol. Mae Uchelgais Gogledd Cymru yn gweithio ar raglen ar gyfer cyflawni'r flwyddyn gyntaf yn amodol ar gytuno ar ei gynlluniau gyda Llywodraeth Cymru (a fydd yn cymeradwyo'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol). |

| Thema | Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad | Ymateb |
|---|---|---|
| Cynlluniau y Cynllun Cyflawni | Mae rhai ymatebwyr yn mynegi bod y gwelliannau a'r cynlluniau blaenoriaeth uwch a nodwyd yn y cynlluniau yn cael eu croesawu a'u bod yn eglur i'w deall. Fodd bynnag, mae rhai yn awgrymu nad oes gan rai o'r cynlluniau a nodwyd yr uchelgais gyffredinol fel y nodir yn y ddogfen bolisi ar gyfer ardal y Parc Cenedlaethol. Yn benodol, codir pryderon am y cynlluniau canlynol:<br><br>• Cynllun 4. Mae rhai yn awgrymu y dylid ystyried integreiddio trafnidiaeth Gorsaf Porth Bangor fel blaenoriaeth llawer uwch, gan awgrymu ei bod yn hanfodol ateb heriau traffig craidd y rhanbarth ac annog canran llawer uwch o drafnidiaeth i'r ardal ar drafnidiaeth gyhoeddus yn hytrach na char.<br>• Cynllun 5. Mae rhai yn mynegi nad ydynt yn ymwybodol o'r gwelliannau arfaethedig i Ben y Pas, Ogwen, Nantgwynant a Geirionnydd a hoffent weld rhagor o fanylion a deall lefel yr uchelgais.<br>• Cynllun 20. Mae rhai yn mynegi, er bod gwasanaeth trafnidiaeth gyhoeddus twristiaid/ymwelwyr am ddim yn uchelgeisiol ac yn seiliedig ar dreth twristiaeth posibl, mae angen i'r gwasanaethau a gynigir yn gyntaf fod yn eu lle ac o safon ddigon da i bawb allu defnyddio dull amgen ymarferol i geir, cyn ystyried y cynnig hwn.<br>• Cynllun 29. Mae rhai yn awgrymu y dylai'r Hwb Symudedd ym Mangor nid yn unig fod yn uchelgeisiol ond yn rhan hanfodol o'r strategaeth gyffredinol. | Cynllun 4 a 29 – Mae Cyngor Gwynedd wedi gweithio'n agos gydag Uchelgais Gogledd Cymru a'i bartneriaid i helpu i gytuno ar flaenoriaethu'r cynllun, a fydd yn parhau i gael ei adolygu'n barhaus fel rhan o'r ymarfer monitro a gwerthuso.<br><br>Cynllun 5 – mae'r holl fanylion sydd ar gael ar hyn o bryd wedi'u darparu fel rhan o'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol. Darperir rhagor o wybodaeth wrth i'r cynllun fynd yn ei flaen.<br><br>Cynllun 20 – mae'r awdurdodau lleol perthnasol yn cytuno ar sail yr ardoll twristiaid posibl, bod angen i'r gwasanaethau a gynigir yn gyntaf fod ar waith ac o safon ddigon da i bawb allu defnyddio dewis amgen ymarferol yn lle ceir, cyn ystyried y cynnig hwn. |

| Thema | Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad | Ymateb |
|---|---|---|
| | Mae rhai ymatebwyr yn awgrymu ar gyfer Cynllun Rhif 4, Porth Bangor (mae Trafnidiaeth Cymru wedi nodi cyfle yng ngorsaf Bangor i wella'r croeso i mewn i ddinas Bangor a gwella'r gyfnewidfa â'r dulliau teithio ymlaen. Mae astudiaeth Chwarter yr Orsaf yn cael ei chynnal i ddeall y problemau a'r rhwystrau cyfredol sy'n wynebu pobl wrth deithio i, o ac wrth ddefnyddio Gorsaf Bangor), dylai'r disgrifiad gynnwys y frawddeg gyntaf yn unig, gan fod yr ail frawddeg eisoes wedi'i chwblhau. | Mae disgrifiad y cynllun wedi'i ddiwygio ar ôl ymgysylltu â Thrafnidiaeth Cymru. |
| | Mae rhai ymatebwyr yn awgrymu y dylid ailedrych ar y Cynllun Cyflawni pe bai datblygiadau strategol neu newidiadau yn digwydd yn ystod cyfnod y cynllun, gan nodi'r cynigion ar gyfer Wylfa, y Porthladd Rhydd, y Parc Cenedlaethol newydd arfaethedig, a'r Parth Buddsoddi yng ngogledd Cymru. | Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol wedi ystyried y potensial ar gyfer datblygiadau strategol yn y dyfodol a newidiadau yn ei dystiolaeth, ei bolisïau a'i ymyriadau, gan gynnwys y rhai a grybwyllir fel rhai sy'n bwysig ledled gogledd Cymru. Mae'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol yn nodi'r blaenoriaethau cyfredol ar gyfer cynlluniau awdurdodau lleol dros y pum mlynedd nesaf, gan ystyried yr hyn sydd wedi'i gynllunio neu ei ymrwymo ar hyn o bryd. Mae'r Cynllun Monitro a Gwerthuso yn esbonio sut y bydd y cynlluniau yn y Cynllun Cyflawni yn cael eu hadolygu a'u hystyried yn ystod cyfnod y cynllun, gan gydnabod y gallai fod newidiadau i flaenoriaethau dros amser. |

| Thema | Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad | Ymateb |
| --- | --- | --- |
| | Mae rhai ymatebwyr o'r farn bod angen blaenoriaethu Ynys Môn gyda phryderon nad oes digon o fesurau wedi'u cynnwys yn y cynlluniau i wella isadeiledd Ynys Môn. Mae'r awgrymiadau a wnaed yn cynnwys:<br><br>• Uwchraddio pont Ynys Môn gyda tholl i annog y defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus i'r ynys ac oddi yno.<br>• Gwella gwasanaethau bysiau trwy well integreiddio / gwasanaethau cyfunol.<br>• Gwella isadeiledd EV ar yr ynys, sy'n cael ei ystyried yn gyfyngedig ar hyn o bryd.<br>• Darparu bysiau neu gyfleuster parcio a theithio dros y pontydd ar adegau brig i wella llif traffig | Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn nodi Dyheadau Rhwydwaith Ffyrdd Strategol (4 a 5) i fynd i'r afael â gwytnwch Croesfan Y Fenai.<br><br>Mae rhai o gynlluniau perthnasol y Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol ar gyfer Ynys Môn yn cynnwys:<br><br>• Datblygu rhwydwaith teithio llesol cynhwysfawr, cyfforddus, deniadol a diogel sy'n ymestyn o ddau ben y ddwy bont i gysylltu cymunedau a chyrchfannau pwysig yn Ynys Môn gyda gogledd Gwynedd<br>• Cynlluniau i adnabod a datblygu gwelliannau mynediad i'r ddaear a gwaith cysylltiedig i Safleoedd Porthladd Rhydd Ynys Môn<br>• Gweithredu'r rhwydwaith trawsnewid bysiau<br>• Gwefru EV cyhoeddus mewn meysydd parcio cyhoeddus a chydlynu gwybodaeth<br><br>Mae trefniadau Pont Menai o dan awdurdodaeth Llywodraeth Cymru. Dylai masnachfreinio bysiau wella'r trefniadau integreiddio presennol. Mae Cynllun Gweithredu Cyngor Sir Ynys Môn yn cael ei ddatblygu i reoli cyflwyniad hyn yn y dyfodol a rhaid iddo fod yn gost-effeithiol i'r awdurdod lleol. Bydd Astudiaeth Gwytnwch Y Fenai dan arweiniad Llywodraeth Cymru yn ymateb i'r pwynt ynglŷn â chyfleusterau parcio a theithio / llif traffig. Y gobaith yw y byddai gweithredu'r rhwydwaith trawsnewid bysiau yn gweld gwelliant yn lefel y ddarpariaeth gwasanaeth bysiau.<br><br>Uchelgais Gogledd Cymru i archwilio cyfleoedd gyda CSYM i ddatblygu canolfan ddosbarthu tanwydd mewn cysylltiad â Hwb Hydrogen Caergybi ym Mharc Cybi, mewn cydweithrediad â Menter Môn |

| | | |
|---|---|---|
| | Mae rhai ymatebwyr yn awgrymu y dylai Cynllun Cyflawni'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol gynnwys o leiaf un prosiect trafnidiaeth blaenoriaeth uchel dan arweiniad y gymuned, sy'n treialu integreiddio aml-foddol rhwng Cynlluniau Trafnidiaeth Gymunedol presennol a dulliau trafnidiaeth eraill. Gwneir awgrymiadau gan gynnwys:<br><br>• Peilot Prawf Cysyniad Olwynion i'r Gwaith (Wheels to Work) mewn safleoedd dethol yng ngogledd Cymru a gwerthusiad annibynnol cyn eu cyflwyno o bosibl<br>• Prosiect Pathfinder Trafnidiaeth Gymunedol Trafnidiaeth i Iechyd i wella mynediad at ofal iechyd a gwasanaethau lles eraill sy'n gwella bywyd<br>• Cynnwys gwasanaethau trafnidiaeth gymunedol o fewn y Contract Cyfanswm Gwasanaethau yn ardal beilot yr Awdurdod Lleol<br>• Cynnwys cynlluniau ceir cymunedol ochr yn ochr â chlybiau ceir, gan ddatblygu rhwydwaith ledled gogledd Cymru mewn cymunedau llai, mwy gwledig<br>• Cyflwyno prosiectau e-feiciau ar draws y sector Trafnidiaeth Gymunedol yng ngogledd Cymru<br>• Datgarboneiddio bysiau i gynnwys y sector Trafnidiaeth Gymunedol fel safon a chefnogi mynediad at isadeiledd allyriadau sero<br>• Pecyn cychwynnol o gymorth i gymunedau 'Newydd i Drafnidiaeth Gymunedol' sy'n dymuno sefydlu eu menter drafnidiaeth eu hunain dan arweiniad y gymuned | Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cydnabod y rôl bwysig y gall trafnidiaeth dan arweiniad y gymuned ei chwarae wrth ddiwallu anghenion cymunedau gwledig a chymunedau sydd heb eu gwasanaethu. Bydd Uchelgais Gogledd Cymru ac awdurdodau lleol yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru ar drefniadau masnachfreinio a chyllido bysiau i helpu i sicrhau bod darparwyr trafnidiaeth gymunedol yn parhau i allu cael gafael ar gyllid. Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau i'r CBCau y bydd cyllid ar gael ar gyfer prosiectau trafnidiaeth gymunedol. Gall mentrau fel 'Wheels to Work' fod â rôl bwysig yn rhai o'n cymunedau mwy gwledig lle gall mynd i ac o gyflogaeth fod yn heriol iawn i drigolion nad oes ganddynt fynediad at gar. Yn aml, nid yw gwasanaethau bws yn dechrau yn ddigon cynnar, neu'n gorffen yn ddigon hwyr i weddu gyda sifftiau cyflogaeth benodol fel shifftiau cynnar mewn ffatrïoedd, neu orffen yn hwyr yn y sector bwyd a lletygarwch. Er ei bod yn debygol y bydd ardaloedd gwledig yn cael eu gwasanaethu fwyfwy gan wasanaethau tebyg i Fflecsi unwaith y bydd masnachfreinio bysiau yn cael ei weithredu, mae'r gwasanaethau presennol yn aml ar gael yn ystod yr adegau prysur o'r dydd ac fel arfer yn ystod y diwrnod ysgol gan fod yr un cerbydau yn aml yn cael eu defnyddio ar gyfer cludiant ysgol at ddibenion effeithlonrwydd. Mae'r Cynllun yn cefnogi rhwydwaith trafnidiaeth aml-foddol, cynhwysol ac yn darparu fframwaith lle gall awdurdodau lleol, mewn partneriaeth â chyrff rhanbarthol a sefydliadau'r trydydd sector, archwilio a threialu atebion trafnidiaeth arloesol. Mae mecanweithiau presennol o fewn cynghorau, gan gynnwys Fforymau Trafnidiaeth Gymunedol a ffrydiau cyllido peilot, sy'n caniatáu adnabod a chefnogi prosiectau o'r fath. Bydd yr awgrymiadau a godir yn cael eu rhannu gyda'r gweithgor rhanbarthol i'w hystyried fel rhan o ddatblygiad parhaus o gynlluniau peilot, gan sicrhau bod lleisiau cymunedol yn parhau i siapio cyflenwi trafnidiaeth. Mae awdurdodau lleol yn mynegi cefnogaeth i |

| Thema | Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad | Ymateb |
| --- | --- | --- |
| | | gynlluniau peilot yn amodol ar gyllid gan Lywodraeth Cymru. |

| | | |
|---|---|---|
| | Mae rhai ymatebwyr yn awgrymu bod diffyg ymyraethau yn y Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol fel a nodwyd yn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol mewn perthynas â cherbydau trydan a'i fod ar hyn o bryd ond yn cynnwys arwyddion y bydd strategaethau yn cael eu cynhyrchu. Awgrymir bod hyn yn llawer llai o weithgarwch na'r hyn sy'n cael ei wneud yn y rhanbarth ar hyn o bryd gan y chwe awdurdod lleol yn annibynnol, ac yn cael ei ariannu drwy Gronfa Allyriadau Isel Iawn Llywodraeth Cymru. Gwneir awgrymiadau ar gyfer:<br>• Ymyraethau i hyrwyddo codi tâl cyrchfan i safleoedd twristiaeth ac, yn arbennig, darparwyr llety<br>• Rhaglenni cyfathrebu a newid ymddygiad sy'n cynnwys hyrwyddo'r defnydd o gerbydau trydan, a'r cyfle i gael Cerbydau Trydan ail-law.<br>• Galluogi gwefru yn y cartref<br>• Cynlluniau gwefru ar y stryd<br>• Cynlluniau peilot gwefru cerbydau cludo nwyddau | Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cydnabod pwysigrwydd cyflymu'r trawsnewid i gerbydau allyriadau sero ac yn cefnogi gweithredu rhanbarthol cydgysylltiedig i ategu a gwella'r gwaith parhaus gan awdurdodau lleol. Er bod y Cynllun Cyflawni yn amlinellu datblygu strategaeth i ddechrau fel cam cyntaf, bwriedir iddi fod yn ddogfen fyw sy'n esblygu ochr yn ochr ag argaeledd cyllid, cynnydd lleol, a pharodrwydd technolegol. Mae awdurdodau lleol ledled gogledd Cymru eisoes yn cael mynediad at arian Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y Gronfa Trawsnewid Cerbydau Allyriadau Isel Iawn, i gyflawni ystod o fentrau. Mae'r Cynllun Cyflawni yn darparu fframwaith ar gyfer ehangu'r gwaith hwn yn rhanbarthol, gan gefnogi cydweithredu, cysondeb a rhannu'r hyn a ddysgir. Mae awdurdodau lleol ledled Gogledd Cymru yn datblygu eu strategaethau isadeiledd cerbydau trydan, sy'n mynd i'r afael â'r materion a'r awgrymiadau a wneir. Mae'r rhan fwyaf ohonynt ar y gweill a byddant yn cael eu hariannu y tu allan i'r cyllidebau trafnidiaeth oni bai eu bod wedi'u pennu yn y Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol. Er enghraifft, bydd Cynllun Gweithredu EV Ynys Môn yn ystyried y pwyntiau a godwyd ac mae Hwb Hydrogen Caergybi yn dangos sut mae tanwyddau carbon isel amgen yn cael eu hystyried. Bydd yr awgrymiadau a godwyd yn cael eu hystyried fel rhan o waith datblygu'r strategaeth cerbydau trydan rhanbarthol, a bydd cyfleoedd ar gyfer cynlluniau peilot a mentrau ar y cyd yn cael eu harchwilio trwy fecanweithiau cydlynu traws-awdurdod presennol. Gall cyllid cyfalaf annigonol a chapasiti rhwydwaith ynni lleol fod yn rhwystr i gyflwyno pwyntiau gwefru pellach, ac mae gwefru ar y stryd yn codi anawsterau ymarferol. Cytunir felly fod angen dull rhanbarthol o geisio mynd i'r afael â'r heriau hyn, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Trafnidiaeth Cymru a'r sector cyflenwi a dosbarthu ynni. Bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn helpu i hwyluso'r dull hwn. |
| | Mae rhai ymatebwyr o'r farn y dylai Cynllun 174 (Gwelliannau i | Ystyrir bod Cynllun 174 yn flaenoriaeth is oherwydd y diffyg |

| Thema | Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad | Ymateb |
|---|---|---|
| | isadeiledd yng nghyffiniau Cyffordd 4 a Phorth y Gorllewin) fod yn flaenoriaeth uwch nag a gynigir yn y Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol drafft gan fod hyn yn cael ei ystyried yn sylfaenol i sicrhau twf economaidd cynaliadwy yn Wrecsam. | gwybodaeth ar hyn o bryd, fodd bynnag, mae WelTAG Lite/1&2 ar fin cael ei gwblhau a bydd yn rhoi mwy o eglurder ar y prosiect, gan gynnwys y gost debygol, a'r ffordd ymlaen. |
| | Mae rhai ymatebwyr yn awgrymu, er y bydd rhai elfennau o'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cael eu gweithredu ar lefel leol, y dylid ceisio safoni lle bo hynny'n bosibl, gydag enghreifftiau yn cael eu darparu fel ffioedd parcio safonol neu gynllun trwydded barcio aml-sir. | Mae'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol wedi ceisio cyflwyno safoni lle bo hynny'n briodol, er mwyn helpu i ddod o hyd i gysondeb ac effeithlonrwydd. Er enghraifft, mae gan bob awdurdod lleol gynllun ar gyfer gwefru cerbydau trydan cyhoeddus, a fydd yn edrych ar ddarparu cynlluniau pwyntiau gwefru ym mhob maes parcio cyhoeddus. |
| Monitro a Gwerthuso | Mae rhai ymatebwyr yn croesawu'r Cynllun Monitro a Gwerthuso drafft gan gynnwys cyfarfodydd chwarterol, adolygiadau blynyddol a'r cyfle i awdurdodau lleol gymryd rhan mewn trafodaethau ar gyllid a datblygiadau newydd. Fodd bynnag, mae eraill yn codi pryderon ynghylch sut y bydd cyflawni yn cael ei fonitro, gyda chwestiynau ynghylch y cosbau posibl i awdurdodau lleol a chwmnïau preifat os na chyflawnir yr amcanion. Gwnaed awgrymiadau y byddai rhyngweithio a monitro pellach (a mwy rheolaidd) rhwng sefydliadau yn gwella atebolrwydd gan fod y cynllun yn cynnwys gwerthusiad cynhwysfawr ym mlwyddyn tri yn unig. Mae rhai ymatebwyr o'r farn bod angen eglurder pellach ynglŷn â chyfrifoldeb, p'un a yw'n cael ei gynnal ar sail cynllun wrth gynllun, neu mewn dull mwy cyfannol o fesur perfformiad ar draws y rhanbarth. | Bydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig a'i Is-bwyllgor Trafnidiaeth yn gyfrifol am weithredu'r Cynllun Monitro a Gwerthuso, pan fydd y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cael ei fabwysiadu. Fel rhan o reoli perfformiad, bydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig a'i Is-bwyllgor Trafnidiaeth yn ystyried cynnydd polisïau ac ymyraethau yn y cynlluniau sydd wedi’u cymeradwyo mewn cysylltiad â dyraniadau cyllid, gyda'r broses moderneiddio grantiau sy'n dod i'r amlwg yn ceisio datganoli cyllid i'r haen ranbarthol o lywodraethu. Mae'r Cynllun Monitro a Gwerthuso wedi'i ddiweddaru i egluro'r trefniadau hyn ymhellach. |

| Thema | Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad | Ymateb |
|---|---|---|
| | Mae rhai ymatebwyr o'r farn bod y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cyd-fynd i raddau helaeth â Strategaeth Ynni Gogledd Cymru (NWES) a'r Cynlluniau Ynni Ardal Leol (LAEP) ac yn pwysleisio pwysigrwydd monitro camau gweithredu'n agos i sicrhau bod yr ymdrechion yn cyd-fynd. | Mae'r Cynllun Monitro a Gwerthuso wedi'i ddiweddaru i ddarparu cyfeiriad ac ymrwymiad i Uchelgais Gogledd Cymru i ymgymryd â'i gyfrifoldebau monitro a gwerthuso ar draws ei gynlluniau mewn ffordd ar y cyd lle bo'n briodol ac yn ymarferol. |
| | Mae rhai ymatebwyr yn annog y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol i nodi targedau clir mewn perthynas â newid moddol, ac i ddangos sut y bydd y data sy'n dod i'r amlwg o'r Arolwg Teithio Cenedlaethol yn cael ei ddadansoddi ac yn cyfrannu at fesur llwyddiant neu fel arall wrth gyrraedd y targedau hynny. | Mae'r Cynllun Monitro a Gwerthuso yn cynnwys mesurau a dangosyddion i helpu i ystyried cynnydd tuag at dargedau a nodwyd. Mae wedi cael ei ddiweddaru i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am statws yr Arolwg Teithio Cenedlaethol a sut y bydd yn cyfrannu at weithgareddau monitro a gwerthuso. |
| | Mae rhai ymatebwyr o'r farn bod angen eglurder ynghylch a fydd monitro a gwerthuso yn cael eu cynnal ar sail cynllun wrth gynllun, neu mewn ffordd fwy cyfannol i fesur perfformiad ar draws y rhanbarth. | Mae'r Cynllun Monitro a Gwerthuso yn cynnwys mesurau a dangosyddion i helpu i ystyried cynnydd tuag at dargedau a nodwyd. Mae wedi cael ei ddiweddaru i ddarparu rhagor o wybodaeth am fonitro'r cynllun mewn cysylltiad â'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol. |
| | Mae rhai ymatebwyr yn pryderu nad yw'r cynllun yn nodi mecanweithiau i bobl ddarparu adborth. | Mae'r Cynllun Monitro a Gwerthuso wedi'i ddiweddaru i esbonio sut y gall pobl barhau i ymgysylltu ag Uchelgais Gogledd Cymru yn ystod cyfnod gweithredu'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a thu hwnt. |
| | Mae rhai ymatebwyr yn mynegi pryder nad yw'r cynlluniau yn mynd i'r afael â sut y bydd gwrthwynebiadau gan drigolion (NIMBYism) yn cael eu trin a sut y bydd datblygiadau newydd yn cael eu cyfathrebu i'r rhai a allai eu gwrthwynebu. | |

| Thema | Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad | Ymateb |
|---|---|---|
| Llesiant | Mae rhai ymatebwyr yn mynegi barn wahanol mewn perthynas â'r Arfarniad Llesiant Integredig (IWBA) drafft. Er bod rhai ymatebion o'r farn bod yr IWBA yn gadarn ac yn dyfynnu mesurau ymarferol ac addasadwy i gyflawni'r amcanion, mae eraill o'r farn nad yw rhai pobl eisiau i'w dewisiadau iechyd a lles gael eu pennu iddynt yn dilyn y pandemig Covid, tra'n tynnu sylw at y ffaith bod nodau lles yn amrywio rhwng pobl. Mae rhai ymatebwyr yn awgrymu y dylai llesiant fod yn sail i bolisi trafnidiaeth er mwyn tynnu sylw at fanteision iechyd defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Mae rhai ymatebwyr yn cwestiynu a allai'r IWBA edrych ymhellach ar y rhesymau pam y gallai pobl â nodweddion gwarchodedig penodol fod yn fwy neu'n llai tebygol o ddewis mathau penodol o drafnidiaeth. Mae rhai ymatebwyr o'r farn bod yr IWBA yn ystyried y cwestiynau cywir o safbwynt sut y bydd y rhaglen neu'r prosiectau o fudd i gymunedau, yr amgylchedd, lleoedd a'r economi, diwylliant a'r Gymraeg a'r effeithiau cadarnhaol a negyddol yn y cyd-destun hwn. | Mae'r Arfarniad Llesiant Integredig yn dangos sut y bydd ein cynlluniau yn cyfrannu at lesiant, gyda chefnogaeth yr asesiadau effaith yr ydym wedi'u cynnal i ystyried materion fel iechyd, cydraddoldeb a bioamrywiaeth. Mae wedi cael ei ddiweddaru i fynd i'r afael â sylwadau gan Gyfoeth Naturiol Cymru a rhanddeiliaid eraill, er enghraifft gyda mwy o wybodaeth waelodlin. |
| | Mae rhai ymatebwyr yn tynnu sylw at bryder am fregusrwydd y coridor ffyrdd/rheilffyrdd ar hyd arfordir gogledd Cymru i newid yn yr hinsawdd. | Nid oes gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig nac awdurdodau lleol yng ngogledd Cymru ddylanwad uniongyrchol ar y rhwydwaith ffyrdd strategol na'r rhwydwaith rheilffyrdd. Fodd bynnag, mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn nodi dyheadau rhanbarthol ar gyfer ffyrdd strategol a'r rhwydwaith rheilffyrdd gan fod y rhain yn allweddol i gefnogi ein dyheadau cysylltedd ehangach ar gyfer gogledd Cymru. Mae'r Arfarniad Llesiant Integredig yn ystyried Ffactorau Hinsawdd (adran 9), ac mae newid yn yr hinsawdd yn cael ei gynnwys yn Amcan 8 IWBA (Cefnogi trawsnewidiad tuag at sector trafnidiaeth gyda llai (gan gynnwys sero) o allyriadau carbon a gwella gwytnwch isadeiledd trafnidiaeth i wrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd). |

| Thema | Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad | Ymateb |
|---|---|---|
| | Mae rhai ymatebwyr yn darparu ystod eang o dystiolaeth ac ystadegau am drafnidiaeth ac anghenion pobl ddall a rhannol ddall. | Nid oes gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig nac awdurdodau lleol yng ngogledd Cymru ddylanwad uniongyrchol ar y rhwydwaith rheilffyrdd. Fodd bynnag, mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn nodi dyheadau rhanbarthol ar gyfer rheilffyrdd gan fod y rhain yn allweddol i gefnogi ein dyheadau cysylltedd ehangach ar gyfer gogledd Cymru. Mae'r Arfarniad Llesiant Integredig a'i wybodaeth sylfaenol wedi'i ddiweddaru i ddefnyddio'r adborth a'r dystiolaeth a rennir lle bo hynny'n briodol. |
| | Mae rhai ymatebwyr yn ystyried bod yn rhaid rhoi blaenoriaethu i gadw pobl ddall a rhannol ddall yn ddiogel mewn gorsafoedd rheilffordd. | Mae'r uchelgeisiau rheilffyrdd yn y cynllun wedi'u diweddaru i bwysleisio pwysigrwydd gorsafoedd i bawb, gan ystyried anghenion pobl ddall a rhannol ddall. |
| | Mae rhai ymatebwyr yn awgrymu nad yw'r IWBA wedi arwain at ddylunio buddion wrth ddylunio allan unrhyw effeithiau a allai fod yn niweidiol mewn perthynas â'r hinsawdd a natur, gan ystyried y byddai'n ddefnyddiol gweld graddfa effaith gwahanol bolisïau ac amcanion h.y. beth yw'r effaith a ragwelir o ran carbon. Mae rhai ymatebwyr o'r farn nad oes cydnabyddiaeth ac ymgorfforiad digonol o allyriadau carbon, gwytnwch hinsawdd, difrod neu welliant i natur ac nad yw themâu trawsbynciol yn cynnwys datgarboneiddio neu wytnwch hinsawdd ac yn credu y dylent eu hymgorffori. | Mae'r Arfarniad Llesiant Integredig yn ystyried Ffactorau Hinsawdd (mae cyd-destun gwaelodlin i'w weld yn Atodiad B adran 9), ac mae newid yn yr hinsawdd yn cael ei gofnodi yn Amcan 8 yr IWBA (Cefnogi trawsnewidiad tuag at sector trafnidiaeth gyda llai o allyriadau carbon (gan gynnwys sero) a gwella gwytnwch isadeiledd trafnidiaeth i wrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd).<br><br>Mae'r Arfarniad Llesiant Integredig yn ystyried Bioamrywiaeth (mae cyd-destun gwaelodlin i'w weld yn adran 4 Atodiad B), ac mae bioamrywiaeth yn cael ei ddal yn Amcan 4 yr IWBA (Gwarchod, diogelu a gwella buddiannau bioamrywiaeth a geoamrywiaeth, gan gynnwys drwy ddiogelu safleoedd, rhywogaethau a chynefinoedd pwysig). Mae Atodiad C yn ystyried y Rheoliadau Cynefinoedd. |

| Thema | Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad | Ymateb |
| --- | --- | --- |
| | Mae rhai o'r farn, er bod yr arfarniad yn ystyried llesiant defnyddwyr, nid yw'n asesu'n ddigonol unrhyw effeithiau niweidiol i gymunedau lleol a allai gael eu heffeithio gan ddatblygu isadeiledd ffyrdd. | Mae'r Arfarniad Llesiant Integredig yn ystyried polisïau'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, gan gynnwys ar gyfer ffyrdd, strydoedd a pharcio. Nid oes gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig ac awdurdodau lleol yng ngogledd Cymru ddylanwad uniongyrchol ar y rhwydwaith ffyrdd strategol. Fodd bynnag, mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn nodi dyheadau rhanbarthol ar gyfer ffyrdd strategol gan fod hyn yn allweddol i gefnogi ein dyheadau cysylltedd ehangach ar gyfer gogledd Cymru. |

| Thema | Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad | Ymateb |
| --- | --- | --- |
| Llesiant Economaidd | Mae rhai ymatebwyr yn tynnu sylw at "gylch dieflig" sydd wedi ffurfio dibyniaeth ar geir preifat i gyrraedd safleoedd cyflogaeth oherwydd gwasanaethau cyhoeddus gwael, ochr yn ochr â materion am ddirywiad cyflogaeth yng ngogledd Cymru. Mae rhai yn codi nad yw'n glir sut y gellir gwahanu polisi trafnidiaeth o'r economi gyffredinol. Mae rhai ymatebwyr yn awgrymu y dylai'r cynlluniau ystyried yr economi gylchol i helpu i leihau olion troed materol. | Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cydnabod bod cyfle cryf ar gyfer dull rhanbarthol o ddatblygu yng ngogledd Cymru, gyda thrafnidiaeth, defnydd tir a datblygu economaidd, i gyd yn croestorri fel diagram Venn wedi'i gynllunio'n dda. Mae'r cydrannau hyn yn creu un system gydlynol gyda'r amcan o sicrhau bod y Gogledd mewn safle da i ddarparu'r sgiliau, y gyflogaeth a'r cyfleoedd economaidd sy'n hanfodol ar gyfer dyfodol llewyrchus. 'Galluogi Twf Economaidd Cynaliadwy' yw un o bedwar amcan y cynllun, ac amlinellir ymyraethau lluosog i helpu i leihau dibyniaeth ar y car preifat i gael mynediad at gyflogaeth, er enghraifft Polisi CB4 (Dylai cymudwyr i Barth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam allu cael mynediad at swyddi gan ddefnyddio isadeiledd cerdded a beicio o ansawdd uchel, gorsafoedd rheilffordd cyfagos gwell, neu wasanaethau bws sy'n ddeniadol ac yn adlewyrchu patrymau gwaith cyflogwyr yn y Parth Buddsoddi).<br><br>Mae'r Arfarniad Llesiant Integredig yn ystyried yr economi (mae cyd-destun gwaelodlin i'w weld yn Atodiad B adran 15) ac mae llesiant economaidd yn cael ei gofnodi yn Amcan 12 yr IWBA (Creu system drafnidiaeth integredig sy'n hwyluso symud effeithlon a diogel pobl a nwyddau, gan gyfrannu at fwy o ffyniant economaidd yn y rhanbarth). Amcan 11 yw ymgorffori egwyddorion economi gylchol i leihau'r defnydd o ddeunyddiau crai, sydd hefyd yn ystyriaeth allweddol yn yr arfarniad. |

| Thema | Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad | Ymateb |
|---|---|---|
| | Mae rhai ymatebwyr o'r farn bod y Cynllun yn cyd-fynd ag Adolygiad Cysylltedd Undeb Llywodraeth y DU i ddarparu rhwydwaith trafnidiaeth strategol. Mae rhai yn croesawu bod y cynlluniau yn cydnabod pwysigrwydd pyrth rhyngwladol allweddol, yng ngogledd Cymru fel Porthladd Caergybi, ac yng ngogledd Lloegr, fel Porthladd Lerpwl, Maes Awyr Manceinion a Maes Awyr Lerpwl. Mae ymatebwyr o'r farn bod y pyrth rhyngwladol hyn yn hanfodol i gefnogi twf economaidd, darparu cyflogaeth a gwasanaethu marchnadoedd nwyddau. | Nodwyd. |
| | Mae rhai ymatebwyr yn cefnogi'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol am ei botensial i hybu isadeiledd, cysylltedd a thwf economaidd. Awgrymir y bydd y rhwydweithiau trafnidiaeth gwell yn denu buddsoddiad, yn creu swyddi, ac yn cryfhau cadwyni cyflenwi, gan elwa o dwf diwydiannol twristiaeth ac ehangu busnes yng ngogledd Cymru. | Nodwyd. |
| Yr Iaith Gymraeg | Mae rhai ymatebwyr o'r farn bod diffyg ystyriaeth i'r Gymraeg yn y cynlluniau. | Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cydnabod bod gan Ogledd Cymru un o'r cyfrannau uchaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru gyda 42% yn siarad Cymraeg, ac yng Ngwynedd mae hyn hyd yn oed yn uwch gydag oddeutu 70%, ac wrth i ni gysylltu cymunedau Cymraeg â marchnadoedd Saesneg, rhaid i ni ddiogelu a gwella cyfleoedd i'r iaith Gymraeg drwy ein polisïau a'n camau gweithredu. Mae'r cynllun wedi'i ddatblygu i gyd-fynd â'r strategaeth genedlaethol Llwybr Newydd, sy'n cynnwys canllawiau ar ddiogelu diwylliant ac iaith Cymru. Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol wedi'i ddiweddaru i dynnu sylw at sut y gall trafnidiaeth helpu'r Gymraeg i ffynnu. Mae'r Arfarniad Llesiant Integredig yn ystyried yr iaith Gymraeg sy'n cael ei gofnodi yn Amcan 6 yr IWBA (Diogelu a gwella'r dreftadaeth ddiwylliannol leol, gan gynnwys y Gymraeg). |

| Thema | Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad | Ymateb |
|---|---|---|
| Cyffredinol / arall | Mae rhai ymatebwyr yn croesawu dull y Cynllun o gysylltu trafnidiaeth, defnydd tir a datblygu economaidd fel elfennau mewn dull system gydlynol, er mwyn galluogi Gogledd Cymru i gyflawni'r deilliannau a nodwyd o amgylch sgiliau, cyflogaeth a chyfleoedd economaidd. Roedd rhai o'r farn bod amcan y polisi wedi'i gysylltu yn dda â dull y Cynllun Cyflawni o gyflawni'r deilliant hwn, drwy amlinellu'r ymyraethau ar draws y dulliau i wella cysylltedd trafnidiaeth ar draws Gogledd Cymru a chyda ardaloedd cyfagos, yn enwedig yn Is-ranbarth Merswy-Dyfrdwy. Mae rhai yn llongyfarch Uchelgais Gogledd Cymru am nodi'r cynigion yn glir o fewn y cyd-destun lleol, rhanbarthol a chenedlaethol ehangach, ac mewn ffordd sy'n hawdd ei ddilyn. | Nodwyd. |
| | Mae rhai ymatebwyr â barn wahanol am lefel yr uchelgais a gyflwynir yn y cynlluniau, gyda rhai yn dadlau nad yw rhai materion trafnidiaeth allweddol wedi'u cynnwys (heb wneud awgrymiadau amgen), tra bod eraill o'r farn bod y cynlluniau yn gynhwysfawr, gyda gwerthfawrogiad o'r ffocws ar ddulliau trafnidiaeth amgen a'r pwyslais cryf ar rôl trafnidiaeth wrth leihau allyriadau carbon. | Mae ein Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cynnwys polisïau i gefnogi gweledigaeth ac uchelgeisiau Llwybr Newydd, Strategaeth Trafnidiaeth Cymru, ac mae'n cyd-fynd â'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Cenedlaethol. Ar ben hynny, rhaid i'n cynlluniau wneud y cyfraniadau mwyaf posibl i'r mesurau a nodir yn Fframwaith Monitro Strategaeth Drafnidiaeth Cymru. Mae hynny'n helpu i sicrhau ein bod yn diwallu ein targedau trafnidiaeth a newid hinsawdd. |

| Thema | Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad | Ymateb |
|---|---|---|
| | Mae rhai ymatebwyr o'r farn bod y cynllun yn cwmpasu pob ardal yng ngogledd Cymru yn effeithiol tra bod eraill yn anghytuno, gan awgrymu bod y cynllun yn canolbwyntio ar ardaloedd mwy fel Wrecsam a Glannau Dyfrdwy neu ardaloedd allweddol i'r diwydiant twristiaeth yn unig, gyda'r teimlad bod cymunedau bach a gwledig yn cael eu hesgeuluso. | Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cydnabod pwysigrwydd a gwerth cysylltiadau trafnidiaeth i gymunedau trefi marchnad gwledig, ac mae'n cynnwys polisïau sy'n canolbwyntio ar ddarparu dewisiadau i bobl mewn ardaloedd gwledig a lled-drefol. Un o'r themâu trawsbynciol yn y cynllun yw tegwch neu gydraddoldeb opsiynau trafnidiaeth, sy'n golygu sicrhau bod gan bawb yng ngogledd Cymru fynediad teg at opsiynau trafnidiaeth. Mae'n cydnabod bod gan wahanol bobl anghenion gwahanol, yn enwedig y rhai sy'n perthyn i grwpiau difreintiedig, neu'r rhai mewn cymunedau gwledig. |
| | Mae rhai ymatebwyr yn codi pryderon nad yw Bae Colwyn yn cael ei nodi ar y map a ddangosir yn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol drafft, ac mae angen sylw priodol i'r dref, yn enwedig gyda gwasanaethau bysiau yn yr ardal yn wael. | Mae'r sylw hwn wedi'i ddatrys gyda diweddariad a wnaed i'r cynllun. |

| Thema | Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad | Ymateb |
|---|---|---|
| | Mae rhai ymatebwyr yn awgrymu nad oes sôn am y Parc Cenedlaethol newydd yng ngogledd ddwyrain Cymru, a fydd angen isadeiledd teithio gweithredol a chyhoeddus newydd, sy'n dangos bwlch posibl yn y cynlluniau. | Wrth ystyried Polisi Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol CB15 (Gweithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid yn y sector twristiaeth i ymchwilio i ddulliau ar gyfer annog ymwelwyr â gogledd Cymru i deithio'n gynaliadwy tra hefyd yn gwella profiad ymwelwyr a rhoi hwb i'r economi ymwelwyr), mae'r cynllun yn nodi bod angen i ni warchod a gwella ein mannau harddwch naturiol fel Pen Llŷn, a Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy (sy'n cael ei ystyried fel Parc Cenedlaethol newydd) mae'n hanfodol bod ein rhwydwaith trafnidiaeth yn cefnogi llwyddiant a thwf parhaus ein diwydiant twristiaeth. Wrth ystyried Polisi LU3, mae'r cynllun yn nodi, yn ogystal â chanolfannau economaidd ar gyfer twf, dylai ein Cynlluniau Datblygu Lleol sy'n dod i'r amlwg a'r Cynllun Datblygu Strategol hefyd ystyried unrhyw anghenion mynediad cynaliadwy pellach i Fryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy pe bai'n dod yn Barc Cenedlaethol newydd yn y dyfodol, gan gydnabod bod angen i’n rhwydwaith trafnidiaeth gefnogi llwyddiant a thwf parhaus ein diwydiant twristiaeth. |

| Thema | Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad | Ymateb |
|---|---|---|
| | Mae rhai ymatebwyr yn croesawu'r pwyslais ar weithio mewn partneriaeth yn ogystal â'r dull rhanbarthol o fynd i'r afael â heriau a chyfleoedd mewn perthynas â thrafnidiaeth. Ceisir eglurder pellach ynghylch sut y bydd cydweithredu o'r fath yn gweithio'n ymarferol, yn enwedig mewn sefyllfaoedd lle gallai fod tensiwn/gwrthdaro rhwng blaenoriaethau a dyheadau partneriaid unigol a/neu leoedd yn y rhanbarth. | Cymerwyd agwedd gydweithredol a chyfranogol gan ystyried y pum ffordd o weithio a amlinellwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ac mae ymgysylltu wedi ein helpu i ddeall anghenion a dyheadau ein rhan-ddeiliaid, gan adeiladu ar wybodaeth a phrofiad cynlluniau trafnidiaeth lleol a rhanbarthol blaenorol. Rydym yn parhau i weithio'n agos ar ein cynlluniau gyda'n hawdurdodau lleol, awdurdodau cyfagos, Trafnidiaeth Cymru, Llywodraeth Cymru, defnyddwyr a gweithredwyr trafnidiaeth. Rydym wedi gwrando'n ofalus ar yr adborth a ddarparwyd gan ran-ddeiliaid i Gomisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru, a helpodd i lunio eu hargymhellion ar gyfer gwelliannau ar draws ein rhanbarth. Rydym hefyd wedi ystyried yr adborth gan weithredwyr trafnidiaeth gyhoeddus ac awdurdodau lleol yr ymgynghorwyd â hwy gan Trafnidiaeth Cymru yn helaeth ers 2021 ynghylch rhwystrau i, a chyfleoedd ar gyfer, trafnidiaeth gynaliadwy yng ngogledd Cymru. Mae hyn wedi helpu i sicrhau ein bod yn adeiladu ar y gwaith rhagorol a wneir gan eraill sydd â phwrpas cyffredin er budd pobl, busnesau ac ymwelwyr gogledd Cymru. Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol hefyd yn cael ei lywio gan Arfarniad Llesiant Integredig, wedi'i lywio gan asesiadau effaith eang, sydd wedi elwa o ymgynghori â Chyfoeth Naturiol Cymru a Cadw, ymhlith eraill. Mae'r ymarfer ymgynghori cyhoeddus hefyd wedi ein helpu i ddeall gwahanol safbwyntiau ac ystyried ein blaenoriaethau a'n dyheadau gan hefyd ystyried yr adborth. Wrth symud ymlaen bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn gweithio gyda'r Cyd-bwyllgor Corfforedig a'r Is-bwyllgor Trafnidiaeth ochr yn ochr â phartneriaid i hyrwyddo cydweithrediad rhanbarthol a helpu i weithredu'r cynlluniau mewn ffordd gydweithredol, yn unol â ffyrdd gweithio y Ddeddf Llesiant. |

| Thema | Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad | Ymateb |
|---|---|---|
| | Mae rhai ymatebwyr yn croesawu pwyslais y cynllun ar gerbydau trydan ac yn mynegi cefnogaeth i gydnabyddiaeth y cynllun o bwysigrwydd trydaneiddio cerbydau preifat ochr yn ochr ag opsiynau newid moddol a thrafnidiaeth gyhoeddus, yn ogystal â nodi'r cynllun beiciau trydan a bysiau fel cyfleoedd pwysig a hyfyw y tu hwnt i'r fflyd ceir a faniau preifat. | Nodwyd. |
| | Mae rhai ymatebwyr yn awgrymu y dylai fod rhaglen gyfathrebu ac ymgysylltu glir i sicrhau bod dealltwriaeth a chyd-gyfrifoldeb i gyflawni ymhlith amryfal randdeiliaid. | Mae Uchelgais Gogledd Cymru yn gweithio ar raglen ar gyfer cyflawni yn amodol ar gytuno ar ei gynlluniau gyda Llywodraeth Cymru (a fydd yn cymeradwyo'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol). |
| Ymgynghoriad | Mynegodd rhai ymatebwyr bryderon am gyfleoedd ar gyfer ymgysylltu yn bersonol, gydag ymholiadau ynghylch pa mor dda oedd digwyddiadau cyhoeddus yn cael eu hysbysebu.<br><br>Mae rhai ymatebwyr yn awgrymu bod diffyg ymgysylltiad ystyrlon â sector trafnidiaeth gymunedol Gogledd Cymru yn ystod y broses ymgynghori.<br><br>Mae rhai ymatebwyr yn mynegi pryder am y diffyg ymgysylltiad â rhanddeiliaid sy'n cynrychioli cerbydau preifat, yn ogystal â mewn perthynas â cherbydau trydan. | Ystyriodd awdurdodau lleol a ddylid trefnu digwyddiadau lleol i helpu pobl i drafod y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol ac annog pobl i gyfrannu yn yr ymgynghoriad. Cynhaliodd Cynghorau Ynys Môn, Sir y Fflint a Wrecsam ddigwyddiadau wyneb yn wyneb yn ystod yr ymgynghoriad, a hysbysebwyd gan yr awdurdodau lleol. Pan gysylltodd unigolion ag Uchelgais Gogledd Cymru i ofyn am unrhyw gyfleoedd i fynychu digwyddiadau wyneb yn wyneb, rhannwyd manylion fel oedd yn briodol.<br><br>Hyrwyddwyd yr ymgynghoriad cyhoeddus a'i ddulliau i bobl ddweud eu dweud drwy Uchelgais Gogledd Cymru a phartneriaid (gan gynnwys Trafnidiaeth Cymru, Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol) gan ddefnyddio sianeli cyfryngau cymdeithasol, datganiadau i'r wasg, a hysbysiadau e-bost uniongyrchol lle roedd manylion cyswllt ar gael.<br><br>Bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn ystyried y ffordd orau o ymgysylltu â sectorau sydd wedi codi cyfleoedd i ymgysylltu ymhellach yn eu hadborth. |

| Thema | Crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad | Ymateb |
|---|---|---|
| | Croesawodd rhai ymatebwyr yr ystafell ymgysylltu rithwir tra bod eraill yn mynegi amheuon am y pwyslais a roddwyd ar ddulliau digidol fel y prif ffordd o ymgysylltu, gydag un ymatebydd yn esbonio anghenion penodol pobl ddall a rhannol ddall. | Gallai pobl ddweud eu dweud yn ystod y cyfnod ymgynghori drwy lenwi holiadur ar-lein, oedd ar gael yn ein hystafell arddangos rithwir, neu fel arall, drwy e-bostio ymatebion i'n cyfeiriad e-bost pwrpasol. Gallai unrhyw unigolyn neu sefydliad hefyd ysgrifennu atom a phostio copïau printiedig o'r holiadur i gyfeiriad rhadbost. Roedd yna hefyd ffôn bwrpasol gyda gwasanaeth llais dwyieithog i unrhyw un a oedd eisiau siarad â ni am ein cynlluniau, neu ofyn am gopi papur o'r cynllun a'r holiadur.<br><br>Mae Uchelgais Gogledd Cymru yn cytuno bod ymgysylltu ystyrlon â phobl ag anableddau yn fwy na dim ond bodloni yr isafswm gofynion hygyrchedd ond gall gynnwys trefnu grwpiau ffocws, ymweliadau safle a chyfleoedd i gael adborth gan bobl leol sydd wedi colli eu golwg, o'r cam cynharaf o waith cynllunio. Creodd Uchelgais Gogledd Cymru gopi hawdd i'w darllen o'r ddogfen ymgynghori mewn partneriaeth ag Anabledd Dysgu Cymru, gan ategu copi hawdd ei ddarllen. Bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn parhau i ymgysylltu â grwpiau a sefydliadau allweddol i ddysgu gwersi am sut gellir sicrhau bod ymgynghoriadau mor hygyrch â phosibl. |